

# Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Mawrth 2016



## Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Gwynedd & Môn

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad......................................................................................... | 2 |
| Cyd-destun Polisi Cynllunio............................................................. | 2 |
| AEIG y Strategaeth........................................................................... | 4 |
| AEIG o'r Cynllun Adnau............................................................. | 7 |
| AEIG o Bolisïau Manwl.................................................................... | 7 |
| ATODIAD 1: METHODOLEG YR ASESIAD | 14 |
| ATODIAD 2: AEIG O ARDALOEDD TWF | |
| ATODIAD 3 - AEIG O BOLISÏAU MANWL | |
| ATODIAD 4 – MUDIADAU CYMRAEG | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o wead cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn ac yn adlewyrchiad o'u traddodiadau a'u diwylliant. Er mwyn sicrhau bod cymunedau'n datblygu mewn modd cynaliadwy, mae'n hanfodol wrth feddwl am newid ystyried yr holl ffactorau sy'n dylanwadu ar y sefyllfa, a bod y datblygiadau newydd a gynllunnir yn addas a pherthnasol. Mae'r broses gynllunio gwlad a thref yn rheoleiddio datblygiadau newydd, ac oherwydd hynny mae'n un elfen bwysig a dylanwadol wrth lunio newid mewn cymdeithas.

1.2 Yr adroddiad hwn yw ail ran o'r Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) iteraidd o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (Y Cynllun). Mae'r AEIG o'r Cynllun wedi cynnwys asesiad o'r ddogfen Hoff Strategaeth yn ogystal â'r Cynllun Adnau. Cyhoeddwyd yr adroddiad ynglŷn ag AEIG yr Hoff Strategaeth law yn llaw â'r Hoff Strategaeth ym mis Mai 2013. Gellir ei weld yn https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Appraisals-and-Assessments/Language-Impact-Assessment.pdf. Canlyniadau'r cam hwn o'r gwerthusiad gyfrannodd at baratoi'r Cynllun Adnau. Cyhoeddwyd yr adroddiad ynglŷn â'r AEIG a'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adnau law yn llaw â'r Cynllun ym mis Chwefror 2015. Mae'r AEIG wedi hysbysu'r Ardrawiad Cynaladwyedd o'r Cynllun yn ei gyfanrwydd, sydd wedi adnabod cryfhau a chynnal yr iaith Gymraeg fel un o'r amcanion cynaladwyedd.

1.3 Amlinellir yr wybodaeth am yr iaith Gymraeg a materion allai effeithio ar ei lles mewn sawl Papur Testun, yn cynnwys Papur Testun 10 Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant (2013), Papur Testun 10A Proffil Iaith - Gwynedd (2015), Papur Testun 10B Proffil Iaith - Ynys Môn (2015).

1.4 Cyhoeddir yr adroddiad AEIG diwygiedig hwn i adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio cenedlaethol ers i'r Cynllun Adnau gael ei gyhoeddi, i ymdrin â sylwadau a wnaed yn ystod y cam Adneuo, yn ogystal ag asesiad o'r newidiadau hanfodol arfaethedig sydd eu hangen i ymdrin â sylwadau a wnaed am y Cynllun Adnau.

## 2. Cyd –Destun Cynllunio

2.1 Mae Papur testun cefndirol 10 (Iaith Gymraeg a Diwylliant) (2013) yn darparu disgrifiad manwl o'r cyd-destun polisi cynllunio o ran yr iaith Gymraeg ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Bu sawl newid ers iddo gael ei gyhoeddi sydd angen eu cofnodi a'u hystyried, h.y. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, ac ychwanegiad i'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) - Adran 62.

2.2 Fel yr amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru, mae'r amcanion a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys y nod o gael "Cymru ag iddi ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus". Bydd lles yr iaith ar draws Cymru gyfan yn y dyfodol yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sail economaidd gadarn i gynnal cymunedau cynaliadwy llewyrchus. Mae angen i'r system gynllunio defnydd tir ystyried yr iaith Gymraeg a chyfrannu at ei lles wrth wneud hynny.

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cynnwys darpariaethau'n ymwneud ag ystyried yr iaith Gymraeg wrth werthuso cynlluniau datblygu ac wrth ymdrin â cheisiadau am ganiatâd cynllunio.

2.3 Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar yr iaith Gymraeg wedi'i nodi yn Adran 4.13 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (2016) ac mae wedi'i gefnogi gan Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 20, Yr Iaith Gymraeg – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2013), sy'n rhoi canllawiau pellach ar sut ddylai awdurdodau cynllunio lleol, wrth gynhyrchu cynlluniau neu wneud penderfyniadau cynllunio, ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg, ac wrth wneud hynny, gyfrannu at les yr iaith.

2.4 Ble bo'n bosib, dylai'r system gynllunio geisio creu amodau sydd yn arwain at ddefnyddio'r iaith. Mae graddfa eang, lleoliad a datblygu mewn camau, ynghyd â darpariaeth o dai fforddiadwy, i gyd yn cael eu hystyried fel ystyriaethau pwysig allai fod o fudd i les yr iaith. Bydd lles yr iaith ar draws Cymru gyfan yn y dyfodol yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sail economaidd gadarn i gynnal cymunedau cynaliadwy llewyrchus. Fodd bynnag, wedi dweud hyn, mae'n bwysig nodi nad all y system gynllunio wahaniaethu ar sail iaith unigolion. Dylai'r system cynllunio defnydd tir hefyd ystyried anghenion a diddordebau'r iaith Gymraeg ac yn ei dro gyfrannu at ei les.

2.5 Ar lefel lleol, nod Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn a Gwynedd yw gwneud Ynys Môn a Gwynedd yn llefydd iach, diogel a llewyrchus i fyw a gweithio ynddynt drwy weithredu cyfres o gynlluniau gweithredu. Nod y cynllun yw hwyluso datblygiad cynaliadwy o'r ardaloedd hyn wrth amddiffyn diwylliant unigryw, treftadaeth ac amgylchedd naturiol yr ardal yn cynnwys yr iaith Gymraeg.

2.6 Ar lefel lleol mae Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-2017 yn amlygu pwysigrwydd ystyried materion megis tai fforddiadwy, swyddi a chyflogaeth, ynghyd â sicrhau fod y Gymraeg wedi ei gwreiddio'n rhan annatod o gynllunio economaidd ac adfywio.

2.7 Daeth Arolwg Tai a'r Iaith Gymraeg yng Ngwynedd a Môn (2014) gyda'i gilydd gyfraniadau gan 1,559 o gartrefi o ledled Gwynedd ac Ynys Môn. Fel rhan o'r gwaith. Rhoddwyd sylw penodol i chwe ward yng Ngwynedd a phedair ym Môn. Er bod yr adroddiad yn cadarnhau llawer am y berthynas rhwng y farchnad dai a'r iaith Gymraeg. Mae prif negeseuon y gellir eu tynnu o ganlyniadau'r arolwg fel a ganlyn:

- Roedd canlyniadau'r arolwg yn awgrymu y byddai cyfyngu ar waith adeiladu yn cynyddu prisiau ac yn annhebygol o gryfhau sefyllfa'r iaith Gymraeg
- Awgrymodd canlyniadau'r arolwg mai'r allwedd yw sicrhau'r cymysgedd cywir o fath a maint o dai newydd fyddai'n debygol o gynorthwyo sefyllfa'r iaith Gymraeg mewn ardaloedd penodol
- Mae dylanwad y gyfundrefn cynllunio yn gyfyngedig ar sail fod lefel datblygiad newydd yn gymharol isel o'i gymharu gyda'r stoc dai bresennol.
- Mae'r arolwg yn cadarnhau mai un o'r prif heriau yw annog pobl sydd yn symud i'r ardal i ddefnyddio'r Gymraeg, gyda sgiliau Cymraeg rhai sydd wedi symud o du allan i Gymru yn wannach

- Y wardiau sydd â’r canrannau uchaf sydd wedi symud i’r eiddo o du allan i Gymru sydd â’r canrannau isaf o’r boblogaeth â sgiliau yn y Gymraeg
- Mae cefnogi’r defnydd o’r Gymraeg ymhlith y gweithlu yn cryfhau sefyllfa’r iaith Gymraeg, ac felly mae angen blaenoriaethu cynyddu defnydd a statws yr iaith, yn ogystal â sgiliau’r rhai sy’n ei defnyddio, a helpu i gynhyrchu siaradwyr newydd o’r iaith Gymraeg.

## 3. Methodoleg

3.1 Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried effeithiau tebygol eu cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r iaith Gymraeg yn Arfarniad Cynaliadwyedd eu cynlluniau. Mae proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn gyfle i ystyried ffyrdd y gall cynllun gyfrannu at welliannau mewn cyflyrau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, ac yn fodd o adnabod a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol posib allai'r cynllun eu cael fel arall. Drwy wneud hynny, gallai gynorthwyo i sicrhau mai'r cynigion yn y cynllun yw'r rhai mwyaf priodol o ystyried yr opsiynau amgen rhesymol. Gellir ei ddefnyddio i brofi'r dystiolaeth sydd yn tanategu'r cynllun a helpu i ddangos sut mae'r profion cadernid wedi'u diwallu.

3.2 Er mwyn helpu i asesu cynaliadwyedd y polisïau yn y Cynllun, ac i fonitro ei lwyddiant yn nhermau cynaliadwyedd, datblygwyd amcanion a dangosyddion cynaliadwyedd. Mae’r rhain yn ffurfio'r Fframwaith Cynaliadwyedd. Yn seiliedig ar faterion lleol, un o'r amcanion cynaliadwyedd yw:

| ***Cadw, hyrwyddo a mwyhau’r iaith Gymraeg***<br>*(t.11 Arfarniad Cynaliadwyedd, Chwe 2015)* |
|---|

3.3 Er mwyn profi datblygiad y Cynllun yn erbyn yr amcan hwn, cynhaliwyd AEIG drwy gydol y broses.

3.4 Cydnabyddir bod y maes asesiadau ieithyddol yn bwnc trafod ac yn arbenigedd sy’n dal i ddatblygu, yn enwedig yng nghyd-destun Cynlluniau Datblygu. Fel yr Arfarniad Cynaliadwyedd o’r Cynllun sy’n edrych ar yr Asesiad yma, cydnabyddir hefyd fod Asesiad Effaith Ieithyddol y Cynllun yn broses ailadroddus ac y bydd angen adolygu’r asesiad pan fo agweddau o’r cynllun yn newid. Yn ogystal, dylid nodi bod y fethodoleg AEI yn broses oddrychol sy’n bwriadu sefydlu’r effeithiau tebygol a ddaw yn sgil cynnig neu bolisi datblygu. Mae NCT 20 a Nodyn Eglurhaol (2014) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynghori awdurdodau cynllunio o ran y ffactorau a all gyfrannu at asesu sut all cynllun ystyried diddordebau’r iaith. Cafodd y cyngor yma ei ystyried wrth fynd ati i ymgymryd â’r Asesiad yma a’r Asesiad Cynaliadwyedd.

3.5 Credir ei bod yn berthnasol ar y cam yma i nodi y dylid rhoi ystyriaeth i’r iaith Gymraeg o ran ei berthnasedd i ddefnydd tir. Ni ddylai polisïau’r Cynllun geisio cyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol. Er enghraifft, ni ddylai polisïau cynllunio geisio rheoli meddiannaeth tai ar sail iaith. O fewn y cyd-destun yma mae gan y Cynllun rôl bwysig i’w chwarae i sicrhau y gallir darparu’r isadeiledd (e.e. tir ar gyfer tai a chyflogaeth,

cyfleusterau cymunedol) er mwyn cynorthwyo cymunedau i ffynnu. Fe ddylai ategu mentrau cynllunio iaith.

3.6 Mae sawl awdur, e.e. Cooper, yn diffinio ‘cynllunio iaith’ fel “ymdrech fwriadol i ddylanwadu ar swyddogaeth, strwythur, neu gaffaeliad ieithoedd neu amrywiaeth iaith o fewn cymuned iaith,”. Mae nifer o wahanol fathau o gynllunio iaith e.e. cynllunio statws (ynglŷn sefyllfa cymdeithasol iaith), cynllunio corpws (strwythur yr iaith), cynllunio caffael (dysgu’r iaith - mamiaith, ail iaith). Yn dilyn o hyn, mae’n glir fod cynllunio iaith yn digwydd yn ddyddiol ar sawl lefel: llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, mudiadau, busnesau, unigolion. Mae theori ac arfer cynllunio iaith hefyd yn adnabod pwysigrwydd gwahanol barthau ble y defnyddir iaith. Gellid dadlau y gall rhai parthau gael ardrawiad mwy ar sefyllfa iaith. Mae “Iaith Pawb: Iaith Fyw” yn adnabod fod cynllunio iaith yn ymwneud a phartneriaeth wahanol actorion a’r angen i ffocysu ar wahanol barthau, fel yr amlinellir yn ei feysydd polisi strategol. Ar lefel lleol mae Strategaeth Iaith Gwynedd a Strategaeth Iaith Ynys Môn sy’n datblygu yn targedu’r gwahanol barthau ble bo unigolion yn defnyddio’r iaith.

3.7 Fel y nodwyd mewn adroddiadau cynharach at ddibenion asesu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd sy’n dod i’r amlwg, crëwyd methodoleg sy'n seiliedig ar Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) *'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg'* Ynys Môn a Gwynedd a phapur *'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen' (2005).* Cynorthwyodd trafodaethau gyda swyddogion perthnasol unedau iaith y ddau Gyngor, yn gynnar yn y broses, gyda datblygiad methodoleg addas ar gyfer asesu ardrawiad ieithyddol o’r Cynllun fel mae’n datblygu. Mae’r fethodoleg yn dilyn proses cydnabyddedig o gasglu tystiolaeth a defnyddio fframwaith i ddod i gasgliadau. Mae methodoleg yr asesiad wedi ei ddiwygio ar gyfer gwahanol gamau/agweddau o’r Cynllun. Mae’r fethodoleg wedi ei osod allan yn yr Adroddiad Asesiad ar yr Iaith Gymraeg (2013) a gellir ei weld ar safle we’r ddau Gyngor yn www.gwynedd.gov.uk/cdll a www.ynysmon.gov.uk/cdll


3.8 Er mwyn asesu effaith y CDLl ar y Cyd sydd ar y gorwel ar yr iaith, mae’n bwysig deall bywiogrwydd yr iaith Gymraeg ynghyd â nodweddion cymunedol ardaloedd o fewn Ardal y Cynllun. Bydd hyn yn sicrhau fod penderfyniadau yn seiledig ar ddata gwaelodlin ansoddol a meintiol cadarn, deallus a chywir.

3.9 Mae Papur Testun Cefndirol 10 (Yr iaith Gymraeg a Diwylliant), Papur Testun 10A (Proffil Ystadegol yr Iaith Gymraeg yng Ngwynedd), Papur Testun 10B (Proffil Ystadegol yr Iaith yn Ynys Môn), ac AEIG o’r Hoff Strategaeth yn cynnwys dadansoddiad manwl o’r iaith Gymraeg yn Ardal y Cynllun sydd wedi cael ei ddefnyddio fel sail i’r asesiad. Mae’r wybodaeth sydd wedi ei gasglu yn y dogfennau a gwybodaeth sydd wedi ei osod allan mewn dogfennau eraill e.e. Papur Testun 5 Datblygu’r Hierarchiaeth Aneddleoedd, Astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai Cyfunol, cofnodion siaradwyr Cymraeg mewn ysgolion cynradd yn cael eu defnyddio i ddarparu darlun defnyddiol o aneddleoedd yn Ardal y Cynllun.

3.10 Dylid nodi nad yw Cyfrifiad 2011 yn darparu ffigyrau mudo rhwng 2001 a 2011 ar lefel ward ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ystyrir bod patrymau mudo rhwng 1991 a 2001 a'r ymateb i gwestiwn

yng Nghyfrifiad 2011 ynglŷn â lleoliad y cartref cyn y Cyfrifiad wedi rhoi darlun defnyddiol o batrymau mudo yn ardal y Cynllun.

3.11 Mae’r siart ar y dudalen nesaf yn darparu trosolwg o’r materion positif a negyddol sy’n cael effaith ar les yr iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun.




3.12Gall AEIg o’r Cynllun gael ei dorri lawr i ddau gam gwahanol o ddatblygiad y Cynllun: yr Hoff Strategaeth a’r Cynllun Adneuo, sy’n cynnwys polisïau strategol a manwl yn ogystal â Safleoedd Datblygu. Mae’r ddogfen yn crynhoi canlyniadau’r AEIG a’r Hoff Strategaeth, y tyfiant tai diwygiedig sydd yn cael ei gyflwyno yn y Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac mae’n darparu canlyniadau asesiad ieithyddol anheddleoedd sy’n cynnwys Safleoedd Datblygu ac asesiad ieithyddol o’r Polisïau manwl ( y Cynllun Adneuo).

## 4 Trosolwg o’r AEIG o Hoff Strategaeth y Cynllun

4.1 Bu’r Hoff Strategaeth (a oedd yn darparu gweledigaeth, amcanion y Cynllun sy’n dod i’r amlwg, ynghyd â'r opsiynau twf a dosbarthiad tai a ffafrir) yn destun i Asesiad Effaith Ieithyddol. Fel y cyfeiriwyd ato yn gynharach, fe fwydodd yr AEIG i fewn i’r broses AC fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Strategaeth. Golygodd lefel manylder yr Hoff Strategaeth y gellid defnyddio’r 18 cwestiwn sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad C “Cynllunio a’r Iaith Gymraeg: y Ffordd Ymlaen (2005)” fel fframwaith ar gyfer asesu’r ardrawiad ar yr iaith Gymraeg (gweler atodiad 1 o’r

ddogfen hon). Cyhoeddwyd AEIG o'r Hoff Strategaeth ochr yn ochr â'r Strategaeth ei hun a gellir ei weld ar safle we'r ddau Gyngor yn www.gwynedd.gov.uk/cdll a www.anglesey.gov.uk/cdll

4.2 Yn gyffredinol, dengys yr asesiad bod yr Hoff Strategaeth yn annhebygol o gael effaith andwyol arwyddocaol ar yr iaith Gymraeg. Dengys yr asesiad nad oedd y strategaethau gofodol a thwf yn debygol o arwain at newidiadau sylweddol yn strwythur economaidd-gymdeithasol yr ardal a allai effeithio ar hyfywdra'r iaith Gymraeg. Mae'r amrediad o gyfleoedd a ddarperir gan y Strategaeth yn cynnwys: dylai cymysgedd o wahanol fathau o dai (gan gynnwys tai fforddiadwy) sydd yn bodloni anghenion lleol, twf economaidd lleol, cyfleusterau cymunedol, gwelliannau amgylcheddol ynghyd â diogelu a mwyhau asedau diwylliannol gan gynnwys yr iaith Gymraeg, gefnogi cymunedau Cymraeg, gan eu cynorthwyo i ffynnu. Dylai hyn gynorthwyo i gadw gafael ar y boblogaeth bresennol sydd yn siarad Cymraeg a denu preswylwyr Cymraeg iaith gyntaf yn ôl i'r ardal.

## 5 AEIG o'r Cynllun Adneuo

AEIG o'r Twf Tai

5.1 Roedd yr Hoff Strategaeth, a oedd yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ym Mai 2013, yn cynllunio ar gyfer 7,665 o unedau tai yn ardal y Cynllun yn ystod cyfnod y Cynllun (2011-2026). Roedd hyn yn cyfateb i 3,373 o unedau tai yn Ynys Môn a 4,252 yng Ngwynedd.

5.2 Cyflwynwyd sylwadau gan Lywodraeth Cymru a phartïon eraill ynghylch y lefelau o dwf tai. Roedd y rhain yn amrywio o Lywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod cyfiawnhad digonol yn cael ei ddarparu ynghylch gwyro oddi wrth yr amcanestyniadau cenedlaethol i wahanol safbwyntiau yn bennaf o du'r diwydiant datblygu a thirfeddianwyr y dylai fod yn uwch, a rhai cymunedau, unigolion neu grwpiau lleol yn nodi y dylai fod yn is.

5.3 Mewn ymateb i'r sylwadau ac adolygiad o amgylchiadau lleol, adolygwyd y targed tai. Seilir y ffigyrau tai diwygiedig sydd wedi ei gyflwyno yn y Cynllun Adneuo, ar ddadansoddiad o nifer o senarios twf ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru (sail 2011), yn ogystal ag ystyriaeth o ffactorau dylanwadol, a oedd yn cynnwys amcanestyniadau canol-blwyddyn wedi'u diweddaru, newidiadau mewn penderfyniadau buddsoddwyr (sydd wedi arwain at oedi mewn prosiectau arbennig e.e. Wylfa Newydd), angen am gymysgedd well o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy a thwf ar ôl y dirwasgiad, sydd wedi bod yn raddol. Mae Papur testun 4A yn darparu trosolwg o'r ystyriaethau.

5.4 Awgryma'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2011 tra bydd twf aelwydydd yn parhau ar draws Gwynedd, rhagwelir y bydd lefel y newid rhwng 2011 a 2026 yn is nag yr awgrymwyd gan yr amcanestyniadau aelwydydd blaenorol yn seiliedig ar 2008. Mae gwahaniaeth amlwg yn yr amcanestyniadau 2011 ar gyfer Ynys Môn, gyda'r prif amcanestyniad 75% yn is, a'r tueddiad mudo 10 mlynedd 52% yn is, na phrif amcanestyniadau sail-2008.

5.5 Golyga’r lefel twf tai diwygiedig ar gyfer yr ardal y ceir tua 479 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun. Mae hyn yn gyfystyr â chyfanswm o 7,184 o unedau tai ychwanegol erbyn 2026. Mae'r ffigwr hwn yn adlewyrchu'r newid trawsnewidiol a ragwelir i'r economi leol o ganlyniad i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith mawr yn ardal y Cynllun ac mewn ardaloedd cyfagos. Rhagwelir y bydd llawer o'r angen am dai newydd yn digwydd yn ystod ail hanner cyfnod y Cynllun. Bydd y raddfa o newid yn gysylltiedig â buddsoddiad yn yr economi leol a llwyddiant strategaethau pob Cyngor i gadw cyfran uwch o bobl leol o oedran gwaith yn yr ardal. O’r herwydd, credir y bydd yr opsiwn twf hwn, yn ogystal â’r amrywiaeth o bolisïau strategol a manwl yn cyflawni gweledigaeth ac amcanion y Cynllun a thrwy hynny sicrhau bydd datblygiad tai newydd yn cwrdd ag anghenion y cymunedau lleol. Ychwanegir lwfans llithriad i’r targed tai er mwyn caniatáu safleoedd gael eu datblygu fe y’u disgwylir neu lai o unedau gael eu darparu drwy safleoedd ar hap, sy’n cynnwys ail-ddefnyddio adeiladau presennol.

5.6 Fel y dangosodd Astudiaeth Tai ac iaith Ynys Môn a Gwynedd (2014), mae’n anodd rhagweld yn fanwl union amrediad yr effeithiau posib positif a negyddol ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg a all gael eu hachosi gan dyfiant tai.

5.7 Mae tystiolaeth yn awgrymu fod mewnfudo yn ogystal ag allfudo yn dylanwadu ar les yr iaith. Mae’r angen i symud i fewn i ardal unai i dai newydd neu dai o fewn y stoc dai bresennol yn cael ei yrru gan angen i symud i fewn i ardal i ymddeol, i weithio, newid ffordd o fyw, i ofal am berthnasau sy’n sâl a.y.b. Gall yr aelwydydd hyn gynnwys preswylwyr nad ydyn yn siarad Cymraeg. Yn ddibynnol ar ddosbarthiad gofodol a graddfa’r newid, gall newid nad yw’n cael ei reoli danseilio cymunedau Cymreig. Dylid bod yn ofalus gydag anheddleoedd sy’n boblogaidd fel cyrchfannau gwyliau. Ar y llaw arall, fe all fod yn bosib ychwanegu at y stoc dai bresennol gydag amrywiaeth o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy, gan arwain at effeithiau positif anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg wrth i brisiau tai is a gwell dewis o dai gadw’r boblogaeth bresennol, yn enwedig os yw wedi cael ei alinio gyda newid economaidd. Mae nifer y tai newydd a adeiladwyd yn ardal y Cynllun yn ystod y degawd yn cyfrif am gyfran gymharol fechan o'r stoc tai cyffredinol. Dengys hyn nad yw cynyddu'r stoc tai ynddo'i hun wedi cael effaith negyddol ar yr iaith. Bydd aelwydydd yn parhau i fod eisiau symud i'r ardal. Ystyrir ei bod hi'n bwysig bod y Cynllun yn ymdrin â hyn, er enghraifft, yn sicrhau bod tai yn addas (math a lleoliad) ar gyfer aelwydydd o oed gwaith sydd eisiau symud i'r ardal.

5.8 Yn hanesyddol ac yn fwy diweddar mae data gwaelodlin yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl sy'n symud i gartrefi newydd eisoes yn byw yn naill ai Gwynedd neu Ynys Môn. Dangosodd Astudiaeth Iaith Ynys Môn a Gwynedd fod ychydig yn fwy na’r cyffredin o fudo o rywle arall yng Ngwynedd ac o lefydd eraill yn y DU i dai newydd, gyda’r mwyafrif wedi byw yng Ngwynedd, Môn neu ogledd Cymru o’r blaen. Nodir bod y lefel o breswylwyr tai newydd sydd â gallu yn y Gymraeg yn agos at y cyfartaledd.

5.9 Mae p’un a yw patrwm a graddfa'r datblygiad yn effeithio ar nifer a chanrannau siaradwyr Cymraeg yn dibynnu i raddau helaeth ar broffil ieithyddol aneddiadau unigol lle cyfeirir y datblygiad, argaeledd seilwaith cymunedol lleol sy'n hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, yn

ogystal â, er enghraifft, cyfleoedd i weld, clywed a defnyddio'r iaith yn y gweithle. Yn wir, bydd yr union effaith ar yr iaith yn dibynnu ar ffactorau niferus, a dim ond rhan o'r fformiwla yw lleoliad a graddfa datblygiad preswyl. Mae gweddill y fformiwla yn dibynnu ar statws a roddir gan unigolion i'r iaith Gymraeg, boed nhw yn newydd ddyfodiaid neu bobl 'leol', yn y parthau allweddol.

AEIG Twf Economaidd

5.10 Mae'r Cynllun yn ceisio diogelu 638.7ha o dir presennol ac unedau at ddibenion cyflogaeth a busnes (B1, B2, B8 a rhai o ddefnydd sui generis). Yn draddodiadol, mae cyfradd y tir cyflogaeth a gymerir o fewn ardal y Cynllun wedi bod yn 4ha y flwyddyn. Er mwyn sicrhau bod darpariaeth ar gyfer posibilrwydd o lithriad a hyblygrwydd, mae'r cynllun yn darparu cyfradd tir cyflogaeth a gymerir o 6ha y flwyddyn. Mae'r Cynllun yn dynodi 60ha o dir at ddibenion cyflogaeth a busnes fyddai angen neu'n cael budd o fod mewn lleoliad parc busnes neu barc diwydiannol mewn perthynas â B1, B2, B8 a rhai mathau o ddefnydd sui generis.

5.11 Cyflawnir y strategaeth dwf cyflogaeth drwy fframwaith polisi sy'n cefnogi egwyddorion Cynlluniau Strategol pob Awdurdod, Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn a Gwynedd, Cynlluniau Cyflogaeth a Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn. Bydd darparu'r fframwaith sy'n hwyluso datblygiad sydd yn cynnal, gwella, moderneiddio ac amryfalu'r economi yn darparu un o'r sylfaeni all gyfrannu at gynnal, cryfhau neu greu cymunedau sy'n siarad Cymraeg.

5.12 Mae'r strategaeth economaidd sydd wedi'i chynnwys yn y Cynllun yn amlygu'r angen i gynyddu allbwn economaidd o amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu'r nifer o swyddi, a darparu ar gyfer ffurfio busnesau newydd a ddylai yn ei dro gynorthwyo i gadw gafael ar weithlu sy'n siarad Cymraeg a denu preswylwyr o oed gwaith blaenorol i ddychwelyd i'r ardal. Oherwydd bod y Cynllun yn hwyluso dosbarthiad cymesurol o ddatblygiad, bydd yn caniatáu datblygiad economaidd y prif ganolfannau yn ogystal â'r aneddiadau mwy gwledig. Byddai hyn yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer ystod ddaearyddol ehangach o'r boblogaeth ac yn cynorthwyo i wella'r gwahaniaethau rhwng grwpiau incwm. Mae'r Cynllun yn diogelu safleoedd ac yn dynodi ardaloedd cyflogaeth penodol yn bennaf oddi mewn i'r Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol a rhai dynodiadau oddi mewn i'r Canolfannau Gwasanaeth Lleol. Cefnogir cyfleoedd cyflogaeth priodol ar raddfa fechan yn y Pentrefi, y clystyrau a chefn gwlad hefyd, ac o'u hamgylch.

5.13 Diffyg cyfleodd economaidd yw un o'r prif resymau pam fod pobl ifanc yn allfudo, felly bydd polisïau sy'n hwyluso darpariaeth o gyfleoedd newydd yn helpu i gadw'r boblogaeth ifanc yn eu cymunedau. Mae polisïau economaidd a manwerthu yn cefnogi datblygiad economaidd ar draws Ardal y Cynllun fydd yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol. Bydd y polisïau hyn yn cynyddu allbwn economaidd o amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu'r nifer o swyddi, a darparu hefyd ar gyfer ffurfio busnesau newydd. Bydd polisïau twristiaeth yn cynorthwyo i hyrwyddo a chynnal diwydiant twristiaeth lewyrchus sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth i gymunedau lleol. Bydd atyniadau a chyfleusterau newydd yn helpu i sicrhau cyflogaeth a chreu incwm. Dylai'r rhain gael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar grwpiau sy'n ymwneud ag incwm, yn cynnwys

grwpiau incwm isel a'r di-waith a bydd yn gymorth yn y pen draw i gadw'r gweithlu presennol sy'n siarad Cymraeg. Dylai gweithredu Polisi ISA1 ddarparu ystod o fecanweithiau cynllunio allai gyfrannu at sicrhau bod busnesau yn datblygu mewn modd sydd o fudd i'r iaith.

Crynodeb o Dai a Thwf Economaidd

5.14 Ystyrir bod lefel diwygiedig twf tai (sydd ychydig yn is na'r hyn a amlinellir yn y ddogfen Hoff Strategaeth) yn ogystal â lefel twf cyflogaeth yn realistig, yn amodol ar fesurau gwella megis rheoli lleoliad, math ac amseru datblygiad tai, ynghyd â pholisïau sy'n hyrwyddo twf economaidd lleol, cadw a gwella cyfleusterau cymunedol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg am y rhesymau a ganlyn:

- Mae'r targedau tai a chyflogaeth diwygiedig a argymhellir yn cyfuno'r rhagolygon economaidd a demograffig mwyaf diweddar yng nghyd-destun y farchnad dai lleol, cynaliadwyedd cymunedol a chyfyngiadau amgylcheddol yn ardal y Cynllun, sy'n golygu bod y nifer arfaethedig o ddynodiadau tai a chyflogaeth yn briodol ar gyfer cymunedau lleol.

- Mae darpariaeth yn seiliedig ar anghenion sydd wedi'u hasesu'n wrthrychol a'u blaenoriaethu ar draws ardal y Cynllun. Mae'r Cynllun hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn a ganlyn gan bob Cyngor: Astudiaeth ar y Cyd ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai, Asesiadau Marchnad Tai, Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy, Astudiaeth Llety i Weithwyr Adeiladu yn Ynys Môn, Rhagdybiaethau Ynys Ynni a Chynlluniau Cyflogaeth. Mae'r Asesiadau Marchnad Tai Lleol ac felly'r Strategaethau Tai hefyd yn arwain dull y Cynghorau o annog tai sy'n cwrdd ag amgylchiadau lleol. Mae hyn wedi sicrhau ymhellach bod y nifer o dai a gynigwyd yn briodol er mwyn cyfrannu at ddatblygiad cynhaliadwy’r Ardal Gynllunio, ac felly osgoi effeithiau andwyol ar iaith a diwylliant Cymraeg.

- Mae'r lefel o dwf tai arfaethedig yn diwallu anghenion ar gyfer ardal y Cynllun ac yn caniatáu niferoedd digonol i gefnogi dyheadau twf economaidd. Mae darparu digon o dai a thwf economaidd yn elfennau pwysig i leihau nifer y bobl sy'n allfudo (yn cynnwys siaradwyr Cymraeg) o'u cymunedau a hefyd yn hwyluso'r ymfudiad gan aelwydydd o oed gwaith, sydd yn ei dro yn helpu i gynnal neu greu cymunedau sydd â chydbwysedd oedran.

- Rhagwelir mai graddol fydd y gyfradd o dwf tai yn ystod camau cynnar gweithredu'r Cynllun, ac y bydd yn cynyddu'n sylweddol yn ystod hanner olaf cyfnod y cynllun. Bydd y patrwm hwn o ddatblygiad, ynghyd â chynllun cam wrth gam (ble bo'n briodol) a sicrhau isadeiledd priodol, yn caniatáu i gymunedau addasu i'r twf tai.

- Mae'r Cynllun yn adnabod hierarchaeth o aneddiadau yn seiliedig ar rôl pob anheddiad o fewn ardal y Cynllun a thu hwnt. Mae'r dosbarthiad cymesurol o ddatblygiadau tai ar sawl safle cymharol fechan ar draws yr hierarchaeth a gynigir gan y Strategaeth hefyd yn golygu na fydd gormod o dai yn cael eu harwain i unrhyw anheddiad penodol. Felly, mae'n annhebygol iawn y byddai'r twf tai arfaethedig yn arwain at orddarpariaeth neu brinder tai mewn aneddiadau

unigol, dau beth allai gael effeithiau andwyol ar gymunedau ac yna ar hyfywdra'r iaith Gymraeg (gweler paragraff 3.10 isod).

• Mae'r broses o sefydlu lefel y twf wedi dilyn gofynion polisïau cynllunio cenedlaethol, yn adlewyrchu sefyllfaoedd lleol ac yn ystyried ymatebion yn ystod ymgysylltiad cyhoeddus a chyfnodau ymgynghori. Felly, mae'r ffigyrau wedi'u seilio ar broses ddemocrataidd gynaliadwy.

AEIG o'r Strategaeth Gofodol

5.15 Yn dilyn arolwg a dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r broses ymgynghoriad cyhoeddus am y Strategaeth a Ffefrir, cytunodd y Cynghorau nad oedd sail i newid Strategaeth ofodol y Cynllun sydd fel a ganlyn:

5.16 Bydd y Strategaeth yn anelu at wasgaru datblygiadau'n gymesurol o amgylch ardal y Cynllun ac yn canolbwyntio ar y lleoliadau hynny sy'n darparu'r cyfleoedd gorau i gyflawni datblygiad cynaliadwy.

5.17 Mae'r Strategaeth yn cynnig:

- pwyslais ar ddatblygu'r Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol a nodir ar Fap Diagramatig 9 a 10, ble mae cyfyngiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac isadeiledd yn caniatáu;
- nifer priodol o ddatblygiad mewn Pentrefi, gyda ffocws ar y Pentrefi Gwasanaeth a nodir ar Fap Diagramatig 9 a 10, sydd â gwell mynediad at wasanaethau a chludiant cyhoeddus;
- peth datblygiad mewn Clystyrau a nodwyd oherwydd eu cysylltiadau swyddogaethol gyda Phentrefi neu Ganolfannau, ac yng nghefn gwlad.

5.18 Dangosodd Asesiad Effaith Ieithyddol a gynhaliwyd er mwyn hysbysu datblygiad yr Hoff Strategaeth bod y strategaeth ofodol **yn annhebygol o gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg.** Adlewyrchwyd hyn yn yr AC o'r Cynllun. Dylai dosbarthiad cymesur o ddatblygiad ar hyd a lled ardal y Cynllun, gan gynnwys y cefn gwlad, helpu i gefnogi bywiogrwydd cymunedol drwy ddarparu tai, a chyfleusterau a gwasanaethau cymorth yn lleol. Yn ei dro, dylai hyn hyrwyddo cadw'r boblogaeth gynhenid, ac ynghyd â mesurau eraill (sy'n cynnwys Siarter Iaith Gymraeg mewn ysgolion cynradd, mentrau gan Hunaniaith a Menter Iaith Môn) dylai felly gyfrannu at nod y ddau Gyngor i hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg. Bydd y dosbarthiad gofodol tai a ffefrir hefyd yn golygu y bydd y dosbarthiad datblygiadau yn aneddiadau ardal y Cynllun ar raddfa addas, yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau, sy'n adlewyrchu maint, swyddogaethau a chapasiti amgylcheddol a diwylliannol y rhwydwaith o aneddiadau gwahanol. Mae hyn yn golygu na fydd gorddarpariaeth o dai yn cael ei gyfeirio at unrhyw un anheddiad unigol.

5.19 Ar y cyfan, mae'r asesiad wedi dangos bod y Strategaeth yn debygol o gael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg. Mae'r asesiad wedi dangos nad yw'r strategaethau gofodol a thwf yn debygol o arwain at newidiadau sylweddol yn strwythur economaidd-gymdeithasol yr ardal, a allai

effeithio ar hyfywedd yr iaith. Mae'r ystod o gyfleoedd a ddarperir gan y strategaeth sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys: cymysgedd o fathau o dai (gan gynnwys tai fforddiadwy) sy'n diwallu anghenion lleol, twf economaidd lleol, cyfleusterau cymunedol, gwelliannau amgylcheddol, yn ogystal â gwarchod a gwella asedau diwylliannol; dylai hyn wella dymunoldeb yr ardal. Yn ei dro, dylai hyn hefyd helpu cadw'r boblogaeth bresennol sy'n siarad Cymraeg, denu trigolion sy'n siarad Cymraeg yn ôl i'r ardal, a hwyluso'r ddarpariaeth o isadeiledd allai gyfrannu at gynorthwyo i sicrhau bod mwy o breswylwyr sy'n siarad Cymraeg yn gallu magu hyder i ddefnyddio'r iaith mewn mwy o barthau a bod mewnfudwyr yn dysgu'r iaith.

AEIG o Ardaloedd Twf

5.20 Ni chaiff unrhyw safle ei ddynodi mewn Pentrefi Lleol / Gwledig / Arfordirol neu Glystyrau. Mae Polisïau TAI 17 ac 18 yn hyrwyddo datblygiadau tai ar raddfa fechan ar safleoedd mewnlenwi neu estyniadau i aneddiadau a ddylai ddarparu tai sy'n alinio gydag anghenion pob ardal, - gweler asesiad o Bolisïau yn Atodiad 3 Mae Polisi CYF ? yn cefnogi datblygiad unedau / gweithdai ar raddfa briodol ar gyfer ardaloedd lleol ac yn cefnogi cyfleoedd i bobl weithio gartref. Mae'r agwedd hon yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar y nod o gynnal a chryfhau'r iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd, yn ei hanfod, yr hyn sy'n cael ei asesu yn ystod y cam hwn yw maint a lleoliad tir ble mae dynodiadau tai a chyflogaeth yn cael eu cynnig a'u diogelu yn y Cynllun Adneuo.

5.21 Er mwyn asesu effaith potensial dynodiadau tai ar yr iaith Gymraeg mor gywir ag y bo modd, roedd yn hanfodol bod effaith gronnol datblygu'r holl safleoedd posibl mewn anheddiad penodol yn cael ei gwerthuso. Cafodd bob safle ei asesu ar y dybiaeth bod dwysedd tai o 30 uned yr hectar (uph) yn cael ei ddatblygu ar bob safle. Dylid cofio, fodd bynnag, y bydd dwysedd gwirioneddol safle datblygu yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys cyfyngiadau a chyfleoedd safle, lleoliad, topograffi, a chymeriad cyffredinol yr ardal gyfagos. Er hyn, mae'r gyfradd dwysedd safle penodol sy'n cael ei ddefnyddio yn y Cynllun ar gyfer dynodiadau tai yn un o gyfres o dybiaethau sy'n tanategu'r asesiad o effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg.

5.22 A chymryd bod dwysedd o 30 uned yr hectar yn cael ei ddefnyddio ym mhob safle, gellir amcangyfrif faint o unedau a fyddai ym mhob safle ymgeisiol, a gellir gwneud tybiaeth fwy cywir ynglŷn â'r effaith botensial ar yr iaith Gymraeg.

5.23 Er mwyn arwain yr asesiad o safleoedd datblygu, rhoddwyd ystyriaeth i feini prawf penodol, a addaswyd o'r fframwaith asesu ar gyfer Datganiadau Ieithyddol ac Asesiad Effaith Ieithyddol fel yr amlinellir hwy yn y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' mabwysiedig. Mae'r meini prawf wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Effaith ar yr iaith Gymraeg (2013) ac yn cael eu hailadrodd isod:

| | **Cyffredinol (pob math o ddatblygiad)** |
|---|---|
| 1 | Sut fydd datblygiad ar y safle'n gyson gydag amcanion polisi cynllunio cenedlaethol o ran cymdeithas, diwylliant a lles economaidd fel sydd wedi ei |

| | |
|---|---|
| | amlinellu ym Mholisi Cynllunio Cymru? |
| 2 | Sut fyddai datblygu ar y safle'n bodloni anghenion lleol a chymunedol? |
| 3 | A fyddai datblygiad ar y safle'n cynnal neu ychwanegu'n uniongyrchol / anuniongyrchol at gyfleusterau cymunedol yn yr anheddle / ardal? |
| 4 | Oes unrhyw dystiolaeth yn bodoli sy'n dangos y byddai datblygu ar y safle yn cael ei gefnogi gan y gymuned leol? |
| | **Nodweddion y Boblogaeth (pob math o ddatblygiad)** |
| 5 | A fyddai datblygu ar y safle yn denu newydd-ddyfodiaid i'r ardal ac yn arwain at ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg? |
| 6 | A all datblygu ar y safle gyfrannu at allfudo o'r ardal? |
| 7 | A all datblygu ar y safle arwain at newid strwythur oedran y gymuned? |
| | **Preswyl** |
| 8 | A all datblygiad preswyl ar y safle ddanfon cyfran rhesymol o dai fforddiadwy oherwydd ei faint a'i ddarpariaeth? |
| | **Cyflogaeth** |
| 9 | A fyddai datblygiad ar y safle gyfrannu at gynnal cyflenwad digonol o dir ar gyfer cyfleon cyflogaeth h.y. ni fyddai'n arwain at ormod o dir cyflogaeth yn cael gyflenwi? |
| | **Mesurau Lliniaru** |
| **10** | A fyddai'n bosib lliniaru unrhyw effeithiau negyddol? |

5.24 Er mwyn hwyluso asesiad deallus, gwnaed penderfyniadau'n seiliedig ar ystyriaeth o broffiliau aneddiadau a gynhyrchwyd fel rhan o'r broses ac wedi ei amlinellu ym mhapur Testun 5. Mae'r proffiliau hyn yn cynnwys amrywiaeth o ystadegau a ystyrir yn bwysig o ran dylanwadu ar ddefnydd yr iaith Gymraeg. Defnyddiwyd data ar lefel y ward, anheddle neu gyngor cymuned fel rhan o'r broses asesu, prun bynnag oedd fwyaf perthnasol.  Byddai hyn i gyd yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail data gwaelodlin gadarn, gwybodus a chywir. Felly gwnaed penderfyniadau ar ddata meintiol, gan ddefnyddio barn broffesiynol i benderfynu ar faint a thebygolrwydd yr effaith bosibl a gâi'r datblygiad ar yr iaith Gymraeg, yn cynnig ble'n berthnasol mesurau gwella, sy'n cynnwys polisïau strategol a manwl sydd wedi ei osod yn y Cynllun Adnau. Cytunwyd drwy drafodaethau gyda swyddogion iaith berthnasol y dylai ardaloedd lle mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn llai na 70% gael eu hystyried yn fwy bregus o ran yr iaith Gymraeg, a dylid ystyried hyn fel rhan o'r broses asesu  Dylid nodi, fodd bynnag, mai dangosol yw'r trothwy o 70%.  Mae engrheifftiau ble bo mwy na 70% o breswylwyr yn siarad Cymraeg ond fod y cyfran yn uwch yn 2001.  Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r ffactor hwn.  Gweler

asesiad cynhwysfawr o Ganolfannau Gwasanaethol a Phentrefi Gwasanaethol yn Atodiad 2. Cynigir dynodiadau tai yn y categorïau hyn yn unig.

5.25 Pan nodir effeithiau andwyol tebygol ar yr iaith Gymraeg, rhoddir ystyriaeth i amcan y polisïau perthnasol yn y Cynllun yn ogystal â p'un a fyddai mesurau gwella'n briodol eraill i sicrhau fod y math briodol o ddatblygiad yn cael ei hwyluso yn y cam cais cynllunio.

## 6 AEIG o Bolisïau Manwl

6.1 Mae polisïau manwl y Cynllun yn darparu gofynion perthnasol mwy penodol o ran datblygu, er mwyn cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion a nodwyd yn y Cynllun. Golygodd lefel manylder yn y Cynllun ar y cam hwn y gellid defnyddio'r 18 cwestiwn sydd wedi eu cynnwys yn y broses Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (gweler Atodiad 1). Darperir asesiad cynhwysfawr o'r Polisïau manwl yn Atodiad 3.

6.2 Mae'r Cynllun sy'n dod i'r amlwg yn cynnwys nifer o bolisïau manwl a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg, ac ar yr un pryd yn lleihau unrhyw effeithiau andwyol ar fywiogrwydd yr iaith. Mae darparu amrywiaeth briodol o dai gan gynnwys tai fforddiadwy yn hanfodol i gadw aelwydydd lleol yn eu cymunedau yn ogystal ag aelwydydd sydd angen symud yn ôl i ardal y Cynllun gael eu lletya os ydynt yn ffafrio tŷ newydd yn hytrach na'r stoc dai bresennol. Mae polisïau tai'r Cynllun, yn arbennig, TAI1 (Cymysgedd Tai Priodol), TAI5 (Tai Marchnad Leol) a TAI9 (Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy) yn anelu at hwyluso datblygiad y math cywir o dai sy'n cwrdd ag anghenion lleol, a ddylai annog pobl ifanc i aros yn eu cymunedau. Gallai darpariaeth o'r fath hefyd arwain at annog pobl sy'n siarad Cymraeg a oedd wedi gadael yr ardal yn flaenorol i ddod yn ôl. Cyflwynodd asesiad o sylwadau ynglŷn â'r Cynllun Adnau Bolisi ychwanegol sy'n amlinellu'r fframwaith i hwyluso datblygiad graddol ar safleoedd wedi'u dynodi neu safleoedd a ddaw ar gael ar hap.

6.3 Mae bywiogrwydd a hyfywedd cymunedol hefyd yn cael ei wella drwy wahanol bolisïau yn y Cynllun. Bydd y rhain yn helpu mentrau cymorth sy'n adeiladu cymunedau sefydlog, diogel, iach a chryf, sy'n cynnwys parchu a gwella'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Bydd Polisïau ISA1 (Darpariaeth Isadeiledd) ac ISA2 (Cyfleusterau Cymunedol), er enghraifft, yn diogelu ac yn sicrhau gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol newydd a gwell lle bo'n briodol, a ddylai wedyn wella cydlyniad cymdeithasol ac integreiddio. Byddai cyfraniadau i sicrhau seilwaith cymunedol priodol drwy fecanweithiau cynllunio lle bo hynny'n briodol yn adeiladu ar fentrau a hyrwyddir gan y Cyngor, Hunaniaith a Menter Iaith Môn.

6.4 Hwylusir cyfleoedd gwaith drwy'r Cynllun. Bydd polisïau manwl yn hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth mewn aneddiadau o fewn ardaloedd trefol yn ogystal ag ardaloedd gwledig, a dylai hynny gyfrannu at ddatblygiad economaidd amrywiol. Bydd datblygu economaidd gwledig hefyd yn helpu i gadw trigolion gwledig Cymraeg eu hiaith yn eu cymunedau, a thrwy hynny bydd o fudd i'r iaith Gymraeg. Mae nifer o bolisïau economaidd yn hwyluso datblygiad i ddefnydd cyflogaeth, gan gynnwys arallgyfeirio amaethyddol ac adfywio safleoedd, a fydd yn y pen draw yn cynyddu'r nifer o swyddi, yn ogystal â darparu ar gyfer ffurfio busnesau newydd.

Gallai cyfleoedd cyflogaeth priodol hefyd arwain at annog pobl sy'n siarad Cymraeg, a oedd wedi gadael yr ardal yn flaenorol i chwilio am waith, i ddod yn ôl. Mae'r math olaf hwn o ymrwymiad cynllunio, ynghyd â chyfeiriad at fentrau hyfforddi lleol, wedi'u hychwanegu at atodlen ddangosol o'r mathau o ymrwymiadau cynllunio a gynhwysir ym Mholisi ISA1.

6.5 Mae fframwaith polisi'r Cynllun sy'n dod i'r amlwg yn creu fframwaith ar gyfer hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn effeithiol. Dylai'r holl ystod o gyfleoedd a ddarperir gan bolisïau manwl, gan gynnwys darparu amrywiaeth o fathau o dai, twf economaidd lleol a diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gyfrannu at wella bywiogrwydd yr iaith Gymraeg. Mae'n bwysig nodi na all y Cynllun ddylanwadu ar fywiogrwydd yr iaith Gymraeg ar ei ben ei hun. Felly mae'n hanfodol bwysig ei fod yn cael ei ddatblygu ar y cyd â chynlluniau a strategaethau perthnasol eraill, fel bod unrhyw effeithiau andwyol posibl yn cael eu lleihau a'u lliniaru. Bydd Polisi ISA1 yn darparu'r fframwaith perthnasol i'w gwneud hi'n ofynnol i fusnesau presennol neu newydd sy'n ehangu lunio cynllun iaith Gymraeg, os yw'r ymrwymiad yn bodloni'r profion statudol.

6.6 Mae'n bwysig nodi na all y Cynllun ddylanwadu ar fywiogrwydd yr iaith Gymraeg ar ben ei hun. Mae, felly'n hynod o bwysig fod y Cynllun yn cael ei weithredu mewn cyfuniad â chynlluniau a strategaethau eraill, fel gall unrhyw ardrawiadau posib gael eu minimeiddio a'u lliniaru. Bydd cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol yn hyrwyddo cydweithio â chymunedau a mudiadau lleol yn y cam cais cynllunio.

6.7 Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn casglu bod polisïau'r Cynllun yn ceisio amddiffyn a mwyhau treftadaeth ac osgoi datblygiad fyddai'n cael effaith ar y fath asedau, yn cynnwys yr iaith Gymraeg. Ceir mesurau yn eu lle i sicrhau bod cynigion datblygu yn ystyried effeithiau posib ar dreftadaeth ac yn darparu mesurau lliniaru priodol ble bo'r angen. Ystyrir felly fod yna fesurau lliniaru addas ar gael i sicrhau na fydd polisïau'r Cynllun Adnau yn cael effaith negyddol fawr ar dreftadaeth.

**ATODIAD 1**

**ASESIAD ARDRAWIAD IEITHYDDOL O 1) YR OPSIYNAU / STRATEGAETH A FFEFRIR A 2) DRAFFT ADNEUO**

i) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o arwain at gynnydd / lleihad yn y boblogaeth a allai i) effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg / Saesneg neu ii) arwain at ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg?

ii) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?

iii) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o arwain at fwy o allfudo? A yw'r broses o allfudo yn debygol o arwain at golli aelwydydd di Gymraeg?

iv) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o arwain at newid strwythur oed y gymuned?

v) A yw'r polisi / cynllun /rhaglen yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol?

vi) A yw'r polisi / cynllun /rhaglen yn debygol o gael effaith ar fwynder yr ardal leol?

vii) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o arwain at y bygythiad o fwy o droseddu neu drais yn y gymuned?

viii) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o gael effaith andwyol ar fusnesau lleol?

ix) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o gael effaith andwyol ar swyddi lleol?

x) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd?

xi) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o gael effaith ar lefelau cyflog lleol?

xii) A yw'r polisi / cynllun /rhaglen yn debygol o gael effaith ar bris cyfartalog tai?

xiii) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol?

xiv) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o gael effaith ar wasanaethau gofal iechyd?

xv) A yw'r polisi / cynllun / rhaglen yn debygol o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol?

xvi) A oes gan y polisi / cynllun / rhaglen botensial i arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned Cymraeg ei hiaith?

xvii) A oes gan y polisi / cynllun / rhaglen y potensial i arwain at newidiadau i'r traddodiadau / diwylliant Cymreig lleol?

xviii) A oes gan y polisi / cynllun / rhaglen botensial i gael effaith ar grwpiau gwirfoddol / gweithgarwch / ieuenctid lleol?

## ATODIAD 2: AEIG O SAFLEOEDD DATBLYGU O FEWN ANEDDLEOEDD

## DOSBARTHIAD TWF ARDAL PORTHMADOG

| Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1 |
|---|

### Porthmadog

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae Porthmadog wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Trefol.
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl bresennol y ganolfan cafodd lefel twf dangosol o **301** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Porthmadog (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 - 2026).
- Mae rhan helaeth o'r dref a'r tiroedd ymylol yn dioddef o berygl o lifogydd ac felly yn ei gwneud hi yn heriol i gyfarch y Twf disgwyliedig o fewn y ganolfan.

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Porthmadog | Gwynedd |
|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011) (Ardaloedd wedi eu hadeiladu)** | 72.1 | 65.4 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | 13.3 | 8 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Dwyrain Porthmadog -2.4<br>Gorllewin Porthmadog -14.5<br>Porthmadog-Tremadog -14% | -0.6 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Dwyrain Porthmadog -4.9<br>Gorllewin Porthmadog -12<br>Porthmadog-Tremadog -3.7 | -4.8 |
| **Fforddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Dwyrain Porthmadog 5.7<br>Gorllewin Porthmadog 8<br>Porthmadog-Tremadog 8.1 | 6.1 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 3.9% | 3.5% |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | |

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 128 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 8 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 72.1%, sydd 2.1% yn fwy na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad gymharol sylweddol yng nghanran siaradwyr Cymraeg wedi digwydd rhwng 2001 a 2011 yn arbennig felly yn wardiau Gorllewin Porthmadog (-14.5%) a Phorthmadog-Tremadog (-14%).
- Fforddiadwyedd tai yn amrywio o fewn y ganolfan gyda thai yn llai fforddiadwy na chyfartaledd Gwynedd yng Ngorllewin Porthmadog a Phorthmadog-Tremadog.

- Er y gwelwyd gostyngiad yng nghyfran siaradwyr Cymraeg rhwng y ddau Gyfrifiad, ganwyd 71% o breswylwyr yng Nghymru (71% o'i gymharu â 66.8% yng Ngwynedd).
- Darparwyd 94 o unedau tai rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 3.9% o'r stoc dai yn 2011
- Mae Ysgol Eifion Wyn yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed.
- Cyfartaledd uwch na'r cyfartaledd sirol o ail gartrefi yn yr ardal.
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod 65.2% o boblogaeth rhwng 16-74 mlwydd oed ym Mhorthmadog mewn gwaith

- canran y boblogaeth rhwng 3 a 64 sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng ers 2001 yn y tair ward yn enwedig yn wardiau Gorllewin Porthmadog a Porthmadog-Tremadog.

_Casgliadau_

*I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl bresennol y ganolfan cafodd lefel twf dangosol o **128** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Porthmadog (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 - 2026).*

Mae Porthmadog yn ganolfan gymharol fawr yng Ngwynedd gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal â chyfleon cyflogaeth amrywiol. Er bod gostyngiad yng nghyfran siaradwyr Cymraeg yn y dref wedi digwydd, mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach ym Mhorthmadog gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal - 72.1%. Mae hyn yn 2.1% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer siaradwyr Cymraeg yn wardiau Porthmadog-Tremadog a Gorllewin Porthmadog. Gwelwyd gostyngiadau sylweddol hefyd yng nghyfran siaradwyr Cymraeg. Nodir fod tai ar gyfartaledd yn llai fforddiadwy nag yng Ngwynedd. Mae ail gartrefi'n fwy cyffredin ym Mhorthmadog o gymharu â Gwynedd yn ei gyfanrwydd ac mae posibilrwydd, heb fesurau lliniaru sydd wedi eu hamlinellu mewn polisïau manwl y gall unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn, yn enwedig os ydynt wedi eu lleoli yn ac o amgylch ardal yr harbwr. Mae polisïau sy'n hwyluso cymysgedd priodol o dai, gan gynnwys darpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol felly'n bwysig. Nid oes tir wedi ei ddynodi ar gyfer tai o amgylch ardal yr harbwr.

Mae rhan helaeth o'r dref a'r tiroedd ymylol yn dioddef o berygl o lifogydd ac felly yn ei gwneud hi yn heriol i gyfarch y twf disgwyliedig o fewn y ganolfan. Oherwydd prinder safleoedd posib y tu allan i'r ardal perygl o lifogydd bydd yn rhaid ail-ddosbarthu oddeutu 180 o unedau fyddai fel arall wedi cael eu tywys i Borthmadog i lefydd eraill. Mae strategaeth gofodol y Cynllun yn ailgyfeirio tyfiant i Criccieth a Phenrhyndeudraeth ar y sail eu bod yn perfformio swyddogaeth fel Canolfannau Gwasanaeth lleol. Yn ddarostyngedig ar weithrediad llwyddiannus mesurau lliniaru, , ni ddylai'r twf disgwyliedig yn yr ardal h.y. 121 uned tai, gael dylanwad negyddol ar yr iaith, a gall gyfrannu at gadw'r boblogaeth yn yr ardal.

| **Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2** |
|---|

| **DANGOSYDDION ALLWEDDOL** | **Penrhyndeudraeth** | **Criccieth** | **Gwynedd** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 76.5 | 64.2 | 65.4 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | Penrhyndeudraeth 4 | 8.6 | 8 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Penrhyndeudraeth 2.2 | -4.4 | -0.6 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Penrhyndeudraeth -2.5 | -1.4 | -4.8 |
| **Forddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Penrhyndeudraeth 5.6 | 8.6 | 6.1 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 2.4% | 6.3% | 3.5% |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | | |

**Penrhyndeudraeth**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 68 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 4 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Canolfan hunangynhaliol gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau sy'n cynnwys ysgol gynradd, ardal siopa, ardaloedd cyflogaeth.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 76.5%, sydd 6.5% yn uwch na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Er fod  cyfran siaradwyr Cymraeg yn parhau i fod yn uwch na 70% a bu cynnydd o 2.2% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011, mae'r gyfran wedi disgyn rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (73.3% o'i gymharu â 66.8% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 23 o unedau yng nghyngor cymuned Penrhyndeudraeth rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 2.4% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai ddim yn broblem sylweddol yn yr ardal ond diffyg yn yr amrywiaeth o math o dai gyda chyfran gymharol uwch o dai teras..
- Mae Ysgol Gynradd Cefn Coch yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 20-29 oed wedi gostwng 6.1% tra bo cyfran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 16% rhwng 2001 a 2011 yn y ward.

- Nodir fod canran newydd-ddyfodwyr yn ward Penrhyndeudraeth wedi cynyddu o 169 i 242 (+43.2%) rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau 2011 ddim ar gael eto).

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **68 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **4 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae'r prinder o gyfleoedd i gyflawni'r tyfiant tai dangosol ym Mhorthmadog angen ystyriaeth am dyfiant uwch ym Mhenrhyndeudraeth.*

Mae agosrwydd y ganolfan at Borthmadog, ei leoliad ar yr A487, argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus (bws a thren) a gyda'i amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau, yn gwneud y ganolfan yn le deniadol i fyw a gweithio ynddi. Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach ym Mhenrhyndeudraeth, gyda chyfradd uchel o siaradwyr yn byw yn y ganolfan - 76.5%, sydd 6.5% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Er bod nifer siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu rhwng 2001 a 2011, gwelwyd gostyngiad yng nghyfran siaradwyr dros yr un cyfnod. Nodir fod twf adeiladu wedi bod yn is na'r hyn a welwyd yng Ngwynedd gyfan. Er agosrwydd yr anheddle i'r Parc Cenedlaethol, nid yw'r anheddle'n boblogaidd fel cyrchfan cartrefi gwyliau / ail-gartrefi.

Fel y cyfeirir uchod, ni all Porthmadog dderbyn y lefel disgwyliedig o dwf tai oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol. Mae Papur Testun 5, Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd yn egluro fod angen i'r diffyg cael ei leoli o fewn aneddleoedd sydd o fewn dalgylch Porthmadog er mwyn hwyluso a chefnogi datblygiad cynaliadwy. Am y rhesymau a amlinellir uchod, teimlir y gellid tywys cyfran uwch na'r disgwyl o dai i Benrhyndeudraeth. Benrhyndeudraeth. Byddai'r dull hwn yn ymdrin â gweledigaeth ac amcanion y Cynllun ac yn cyd-fynd â'r amcanion cynaliadwyedd a amlinellir yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd. Mae asesiad o safleoedd datblygu posib yn datgelu safleoedd allai gynnwys 152 uned.

Mae polisïau manwl yn y Cynllun yn darparu cyfleoedd i reoli'r cam adeiladu ar safleoedd, yn ogystal â'r math o unedau tai. Byddai angen i ddatblygiad tai gynnwys cymysgedd digonol o dai o ran y nifer o ystafelloedd gwely a daliadaeth, ymdrin â'r angen a nodwyd ar lefel strategol a chyhoeddi asesiad cyfredol o anghenion tai lleol. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu cyhoeddi i ddarparu mwy o gyngor manwl ynglŷn ag adnabod y gymysgedd briodol o dai ac am weithio gyda chynrychiolwyr o'r gymuned leol a HunanIaith. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai tai newydd yn yr anheddiad yn cael eu prynu i'w defnyddio fel ail gartrefi neu dai gwyliau. Ystyrir y bydd gweithredu polisïau'r Cynllun yn hwyluso datblygiad fydd yn addas ar gyfer yr anheddiad.

Ystyrir felly gall yr anheddle gymhwyso'r lefel twf arfaethedig, ac na fydd y tyfiant hwn yn cael dylanwad negyddol ar yr iaith, os yw'n cael ei ddanfon gam wrth gam, yn cyfeirio anghenion tai lleol.
**Criccieth**

<u>*Pwyntiau Allweddol*</u>

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 68 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 4 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Canolfan dwristiaeth boblogaidd sy'n gwasanaethu anghenion dyddiol y boblogaeth leol, yn ogystal ag anghenion y twristiaid.
- Cyfran uwch na'r cyfartaledd o ail gartrefi yn yr ardal.
- Fforddiadwyedd tai yn broblem yn yr ardal.

- Cyfran lai o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - 64.2%, sydd 5.8% yn is na'r trothwy 70%, o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Cynnydd o 7.5% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ward Llanystumdwy sy'n cynnwys Criccieth,rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran lai o bobl wedi eu geni yng Nghymru (61.9% o gymharu â 66.4% yng Ngwynedd).
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod poblogaeth pobl hŷn (dros 65 mlwydd oed) ward Llanystumdwy wedi cynyddu 10.8% rhwng 2001 a 2011. Gwelwyd gostyngiad o 5% yn y boblogaeth dros 65 mlwydd oed oedd yn gallu siarad Cymraeg. Awgryma hyn fod mewnfudiad o bobl hŷn di-Gymraeg wedi digwydd.

- Adeiladwyd 63 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 6.3% o'r stoc dai yn 2011.

*<u>Casgliadau</u>*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **68 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **4 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae prinder cyfleoedd i gyfeirio tyfiant tai dangosol i Borthmadog yn golygu fod rhaid rhoi ystyriaeth i lefel uwch yng Nghriccieth.*

O ran y cyfran o siaradwyr Cymraeg a'r cyfran o ail dai/tai haf, mae'r darlun a welir yng Nghriccieth yn gyffredinol yn adlewyrchu'r hyn a welir yng Ngwynedd. Fodd bynnag, mae fforddiadwyedd tai yn fwy o broblem yng Nghriccieth ac fe welwyd mwy o ostyngiad yn nifer siaradwyr Cymraeg. Er ei fod yn gyrchfan twristaidd poblogaidd, nid yw'n ganolfan ail dai/tai gwyliau, o gymharu ag anheddleoedd arfordirol eraill. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu ei fod yn gyrchfan poblogaidd i ymddeol. Er mwyn cadw swyddogaeth Criccieth fel Canolfan Gwasanaethol Lleol a hwyluso datblygiad poblogaeth gytbwys, ystyrir y dylai tai newydd gael eu cyfeirio i'r anheddle. Fel y nodir uchod, ni all Porthmadog dderbyn y lefel disgwyliedig o dyfiant tai oherwydd cyfyngiadau amgylcheddol. Mae Papur Testun 5, Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd yn egluro fod angen i'r diffyg cael ei leoli o fewn aneddleoedd sydd o fewn dalgylch Porthmadog er mwyn hwyluso a chefnogi datblygiad cynaliadwy. Am y rhesymau a amlinellir uchod, teimlir y gellid tywys cyfran uwch na'r disgwyl o dai i'r anheddle. E

Mae asesiad o safleoedd ac adeiladau posib yn awgrymu gall Griccieth gyfarch 158 uned tai, fyddai'n golygu 11 uned ar gyfartaledd bob blwyddyn.

Er mwyn rheoli'r lefel tyfiant arfaethedig, ystyrir y dylid gweithredu mesurau lliniaru penodol yn yr ardal - polisi sy'n hwyluso'r ddarpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol; polisi sy'n gofyn am gymysgedd addas o fathau gwahanol o dai. Yn ogystal â hyn, mae'r Astudiaeth Capasiti Trefol yn cynnig y gellid darparu nifer ychwanegol o unedau tai drwy ddefnyddio eiddo presennol: tai gwag tymor hir, lloriau uwchben unedau masnachol. Golyga hyn bydd datblygiad newydd yn cael eu darparu yn gynyddol ac mewn lleoliadau na fyddent yn atyniadol fel tai ymddeol. Ar y cyfan, yn amodol ar weithrediad llwyddiannus mesurau lliniaru priodol, ni ddylai lefel twf disgwyliedig y ganolfan yn ei hun, gael dylanwad negyddol ar yr iaith, a byddai'n cyfrannu at gadw'r boblogaeth Gymraeg ei iaith yn yr ardal..

## Asesu Pentrefi Gwasanaeth – Haen 3

**Tremadog**

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Tremadog | Gwynedd |
|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 76.5 | 65.4 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd 2011)** | Porthmadog 13.3 | +8 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Porthmadog-Tremadog -14 | -0.6 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Porthmadog-Tremadog -3.7 | -4.8 |
| **Fforddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Porthmadog-Tremadog 8.1 | 6.1 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 3.9% | 3.5% |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | |

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 12 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 1 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Anheddle gymharol fychan o gymharu â Phorthmadog er enghraifft.
- Pentref Gwasanaethol ond yn hygyrch i ganolfan Porthmadog.
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 76.5%, sydd 6.5% yn uwch na'r lefel lle credir gall yr iaith fod yn hyfyw (sef 70%), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 14% yn nifer siaradwyr Cymraeg  ward Porthmadog-Tremadog rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran uchel iawn o ail gartrefi (13.3% o gymharu â 8% yng Ngwynedd).
- Tai yn llai fforddiadwy nac yng Ngwynedd gyfan.
- Adeiladwyd 14 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 3.9% o'r stoc dai yn 2011 .

- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod poblogaeth ward Porthmadog-Tremadog rhwng 0-19 a 20-29 mlwydd oed wedi gostwng -21.8% a -30.3% yn eu trefn rhwng 2001 a 2011. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grŵp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal.
- Mae Ysgol Gynradd Y Gorlan, Tremadog yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **12 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 1 **o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd. (Nodir fod prinder tir addas yn golygu mai dim ond **12 uned** ellir ei gyfarch yn yr anheddle sy'n golygu fod yr unedau nad ellir eu cyfarch (**28 uned**) i gael eu hail-ddosbarthu i aneddleoedd Criccieth a Phenrhyndeudraeth )*

Mae'r darlun a welir yn Nhremadog yn debyg i'r hyn a welir ym Mhorthmadog. Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach yma gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal - 76.5%, sydd 6.5% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer siaradwyr Cymraeg yn ward Porthmadog-Tremadog. Ynghlwm a hyn, gostyngodd y boblogaeth dan 65 mlwydd oed yn sylweddol yn yr un cyfnod. Nodir fod tai ar gyfartaledd yn llai fforddiadwy nag yng Ngwynedd. Mae ail gartrefi hefyd yn broblem arwyddocaol yn yr ardal ac mae posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn. Awgryma hyn i gyd fod cyflenwad annigonol o dai addas ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd ifanc lleol.

Nid yw'r Cynllun yn cynnig dynodi tir ar gyfer tai yn Nhremadog. Rhagwelir y bydd 10 uned ar nifer o safleoedd a ddaw ar gael ar hap, a allai gynnwys defnydd o adeiladau presennol. Bydd gweithredu polisïau yn y Cynllun yn negodi cymysgedd digonol o unedau tai, fydd yn cynnwys cyfran o dai fforddiadwy angen lleol. O ystyried y gyfran o siaradwyr Cymraeg, graddfa twf a'r tebygolrwydd y bydd yn cael ei gyflawni'n gynyddrannol, mae'n annhebygol y byddai twf tai ynddo'i hun yn cael effaith andwyol ar les yr iaith.

## DOSBARTHIAD TWF ARDAL CAERNARFON

### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1

**Caernarfon**

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Trefol.
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl bresennol y ganolfan cafodd lefel twf dangosol o **416** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Caernarfon (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 - 2026).

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Caernarfon | Gwynedd |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 85.6 | 65.4 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | 0.5 | 8 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Seiont -1.5<br>Peblig -2.2<br>Cadnant -2.6<br>Menai +3 | -0.6 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Seiont -2.1%<br>Peblig -0.7%<br>Cadnant +0.8<br>Menai +0.2 | -4.8 |
| **Forddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Seiont 6.1<br>Peblig 6.7<br>Cadnant 6.8<br>Menai (Caernarfon) 4.8 | 6.1 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 2.5% | 3.5% |

**- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.*

**Caernarfon**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 415 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 27 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 85.6%, sydd 15.6% yn fwy na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Amrywiaeth yn hyfywdra'r iaith Gymraeg o fewn Caernarfon. Cynnydd bach yng nghyfran siaradwyr Cymraeg yn ward Menai a Cadnant a gostyngiad yn y gyfran yn Peblig a Seiont.
- Fforddiadwyedd tai yn debyg i ddarlun y Sir.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (85.7% o gymharu â 66.8% yng Ngwynedd).
- Darparwyd 147 o unedau tai newydd rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 3.2% o'r stoc dai yn 2011.
- Nodir fod canran newydd-ddyfodwyr Caernarfon wedi gostwng 1.8% rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau mudo lefel ward 2011 ddim ar gael ar hyn o bryd), sy'n cymharu â chynnydd Gwynedd o +47.5%. Nodir fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (95%) o gymharu â Gwynedd sef 88.7% yn 2011.
- Cyfradd isel iawn o ail gartrefi yn yr ardal.

- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod cyfran y boblogaeth 0-19 mlwydd oed wedi gostwng ym mhob ward Caernarfon, yn enwedig wardiau Seiont a Menai (Caernarfon), sy'n awgrymu fod teuluoedd ifanc yn symud o'r ardal.

<u>*Casgliadau*</u>

*I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl bresennol y ganolfan cafodd lefel twf o **416 o unedau** tai ei adnabod ar gyfer Caernarfon (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 - 2026).*

Mae Caernarfon yn ganolfan mawr yng Ngwynedd lle ceir amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal â chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn iach iawn yma gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal - 85.6%, sydd 15.6% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn wir, ystyrir Caernarfon yn gadernle'r iaith Gymraeg. Ar y cyfan, mae fforddiadwyedd tai yn debyg i'r darlun sirol ac nid oes problem gyda'r nifer o dai haf yn yr ardal. Mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio fel ail dai yn isel. Mae lefel tyfiant yn y ganolfan dros y degawd diwethaf o gymharu â'r stoc dai bresennol wedi bod yn llai na'r lefel tyfiant a welwyd yng Ngwynedd gyfan. Nid yw'n debyg fod lefel mewnfudiad o bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i'r dref yn rhoi pwysau ar yr iaith. Am y rhesymau hyn, ystyrir na fyddai lefel twf disgwyliedig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol fel datblygu gam wrth gam, gofyn am gyfraniadau gan ddatblygwyr a darparu neu fwyhau isadeiledd. Mae posib y byddai'r gwrthwyneb yn fwy tebygol, gyda rhagor o gyfleusterau preswyl yn helpu cadw'r boblogaeth Gymreig yn yr ardal.

**Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2**

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Llanberis | Llanrug | Penygroes | Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 74.7 | 87.8 | 86.8 | 65.4 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | Llanberis 3.8 | Llanrug 1.9 | Llanllyfni 3.1 | 8 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Llanberis -6.1 | Llanrug 7.4 | Penygroes 1.4 | -0.6 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Llanberis -6.6 | Llanrug 1.4 | Penygroes -1.2 | -4.8 |
| **Forddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Llanberis 5.7 | Llanrug 4.7 | Penygroes 3.5 | 6.1 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 3.24% | 5.4% | 2.6% | 3.5% |

**- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.*

**Llanberis**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 65 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 4 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd
- Yn ganolfan dwristiaeth bwysig sydd hefyd yn darparu ar gyfer anghenion gwasanaeth hanfodol ar gyfer ei phoblogaeth.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 74.7%, sydd 4.7% yn uwch na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 6.6% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ward Llanberis rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (74.6% o'i gymharu â 66.8% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 44 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 3.2% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn debyg i'r patrwm sirol a diffyg amrywiaeth yn y mathau o dai ar gael.
- Cyfran llai na'r cyfartaledd o ail dai/tai gwyliau er ei leoliad ar ymyl Parc cenedlaethol Eryri.
- Poblogaeth economaidd weithiol uchel.
- Cyfran y boblogaeth rhwng 0-19 a 20-29 wedi gostwng 16% a 11.9% yn eu trefn. Ynghlwm â hyn, gwelwyd lleihad o 23% yn nifer siaradwyr Cymraeg rhwng 3 a 15 mlwydd oed. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grwpiau hyn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Mae darparu tai addas a fforddiadwy yn un ffordd o wneud hyn.
- Nodir fod canran newydd-ddyfodwyr yn ward Llanberis wedi cynyddu o 176 i 204 (+15.9%) rhwng 1991 a 2001, sy'n cymharu â chynnydd Gwynedd (9521 i 14,046 (47.5%). Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (96.1% o gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd), tra bo canran y boblogaeth a aned y tu allan i Gymru ac sy'n siarad Cymraeg hefyd yn gymharol uchel (31.6% o gymharu ag 23.2% yng Ngwynedd).
- Mae Ysgol Gynradd Dolbadarn yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **65 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **4 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd (nodir nad oedd posib cyfarch 5 i ddechrau uned o fewn anheddle Llanberis oedd yn golygu fod yr unedau hyn i gael eu ail-ddosbarthu i anheddle Deiniolen). Mae dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd ar y Cynllun Adneuo wedi dangos fod cyfleoedd ychwanegol o fewn yr anheddle i gyfeirio'r angen am dai newydd.*

Mae lleoliad y ganolfan ynghyd a'r cysylltiadau da i ardaloedd ehangach fel Caernarfon yn gwneud Llanberis yn le poblogaidd i fyw ynddi. Mae Llanberis yn ganolfan gymharol fawr yng Ngwynedd gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal â chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn iach yma gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal - 75.6%, sydd 5.6% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Ar y cyfan mae tai ychydig fwy fforddiadwy na'r cyfartaledd sirol. Gwelwyd gostyngiad yn nifer a chyfradd siaradwyr Cymraeg yn yr ardal rhwng 2001 a 2011. Nid yw ail

gartrefi'n broblem arwyddocaol yn Llanberis ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Yn nodweddiadol gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y boblogaeth iau. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grŵp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Mae twf datblygiadau tai yn Llanberis ychydig yn fwy na lefel twf cyfartaledd Gwynedd gyfan. Mae'r Cynllun yn cynnig dau ddynodiad cymharol fychan o fewn yr anheddiad, ac mae'r fantais o ganiatâd cynllunio eisoes gan un ohonynt. Rhagwelir y bydd y tai ychwanegol yn cael eu darparu ar safleoedd llai a thrwy ailddefnyddio adeiladau presennol neu rannau o adeiladau. Bydd polisïau er enghraifft sydd a wnelo â thai fforddiadwy yn berthnasol yn ogystal â Pholisi ISA1 sy'n dangos y math o ymrwymiadau cynllunio allai fod yn ofynnol, er enghraifft, mewn perthynas â chyflogaeth newydd. Wrth ystyried y ffactorau uchod, felly, ni chredir fod graddfa'r twf arfaethedig yn debygol o achosi tyfiant sylweddol yn y boblogaeth. Yn ychwanegol, ni ystyrir bydd lefel tyfiant ar ben ei hunyn debygol o effeithio'n andwyol ar yr iaith Gymraeg.

**Llanrug**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 61 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 4 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Diwylliant Gymraeg gryf sy'n bwysig iawn i'r gymuned.
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn economaidd weithiol.
- Cyfran isel ail gartrefi yn yr ardal.
- Fforddiadwyedd tai ddim yn broblem arwyddocaol yn yr ardal.
- Cyfran uchel iawn o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - 87.8%, sydd 17.8% yn uwch na'r trothwy 70%, o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Cynnydd o 1.4% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (72.5% o'i gymharu â 66.4% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 34 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 5.4% o'r stoc dai yn 2011
- Nodir fod nifer siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oed 3-15, 16-64 a 65+ wedi cynyddu 5%, 4% a 27% yn eu trefn. Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (95.3% o gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd). Awgryma'r uchod nad yw mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg yn broblem yn yr ardal.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **61 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **4 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Y ganolfan hon sydd a'r gyfradd uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd ac mae'n gadarnle pwysig i'r iaith. Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 17.8% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal â hyn, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd cynnydd yn nifer a chyfran siaradwyr Cymraeg o fewn y boblogaeth breswyl. Mae lefelau fforddiadwyedd tai yn adlewyrchu'r hyn a welir yng Ngwynedd gyfan. Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod

canran y boblogaeth iau sy'n siarad Cymraeg ar gynnydd sy'n awgrymu fod teuluoedd ifanc yn tyfu. Mae'n bwysig fod rhain yn aros yn yr ardal a bod unrhyw dai newydd sy'n cael eu hadeiladu yn adlewyrchu'r angen lleol. Mae'r Cynllun yn cynnig dau ddynodiad tai cymharol fychan o fewn yr anheddiad, ac mae'r fantais o ganiatâd cynllunio presennol eisoes gan y ddau. Bydd gweithredu polisïau perthnasol yn y Cynllun yn golygu y bydd gweddill yr unedau'n cael eu darparu ar safleoedd bychan o fewn neu gerllaw'r anheddiad. Dylai gweithredu polisïau sydd yn berthnasol â thai fforddiadwy angen lleol a'r gymysgedd o dai gynorthwyo i sicrhau y bydd tai newydd yn ymdrin â gofynion yr ardal leol. Ar y sail hon, ni ddylai lefel y twf a ragwelir ar gyfer Llanrug ynddo'i hun fod yn andwyol i les yr iaith.

**Penygroes**

<u>*Pwyntiau Allweddol*</u>

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 89 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 6 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Diwylliant Gymraeg gryf sy'n bwysig iawn i'r gymuned.
- Diffyg amrywiaeth yn y mathau o dai sydd ar gael.
- Nid yw fforddiadwyedd tai yn broblem arwyddocaol yn yr ardal.
- Cyfran uchel iawn o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg – 86.8%, sydd 14.5% yn uwch na'r trothwy 70%, o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 1.2% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Nodir fod canran newydd-ddyfodwyr yn ward Penygroes wedi cynyddu o 100 i 184 (+84%) rhwng 1991 a 2001, sy'n cymharu â chynnydd Gwynedd (9521 i 14,046 (47.5%) (ffigyrau 2011 ddim ar gael). Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (97.2% o gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd). Awgryma'r uchod nad yw mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal.
- Adeiladwyd 23 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 2.6% o'r stoc dai yn 2011

<u>Casgliadau</u>

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **89 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **6 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Fel Llanrug, mae Penygroes hefyd yn gadarnle pwysig i'r iaith Gymraeg gyda 86.8% o'r boblogaeth yn siaradwyr yr iaith sydd 16.8% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag, dylid nodi fod canran siaradwyr Cymraeg wedi gostwng ychydig (-1.2%) ers 2001. Tynnir sylw i'r ffaith fod y gostyngiad hwn yn parhau i fod yn sylweddol is na'r gostyngiad a welwyd yng Ngwynedd gyfan. Nid yw fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol yn y ganolfan. Cynigir un dynodiad tai cymharol fychan ar gyfer Penygroes. Bydd gweithredu polisïau perthnasol yn y Cynllun yn golygu y bydd gweddill yr unedau'n cael eu darparu ar safleoedd bychan o fewn neu gerllaw'r anheddiad. Ar y sail hon, mae'r lefel twf disgwyliedig ar gyfer y ganolfan yn dderbyniol. Dylai gweithredu polisïau sydd yn berthnasol â thai fforddiadwy angen lleol a'r

gymysgedd o dai gynorthwyo i sicrhau y bydd y math o unedau tai yn ymdrin ag anghenion aelwydydd yn yr ardal. Os credir bod hynny'n angenrheidiol yn ystod y cam cais cynllunio, byddai gweithredu'r polisi cam wrth gam yn sicrhau bod datblygiad yn digwydd yn raddol.

**Asesu Pentrefi Gwasanaeth – Haen 3**

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Bethel | Bontnewydd | Deiniolen | Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 87.3 | 85.9 | 81.2 | 65.4 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd 2011)** | Llanddeiniolen 2.3 | Bontnewydd 0.8 | Llanddeiniolen 2.3 | +8 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Penisarwaun -2.4 | Bontnewydd -1.6 | Deiniolen 7.1 | -0.6 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Penisarwaun -4.7 | Bontnewydd -2.1 | Deiniolen -1.6 | -4.8 |
| **Fforddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Penisarwaun 4.3 | Bontnewydd 6.4 | Deiniolen 5.7 | 6.1 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 1.5 | 1.3 | 2.6 | 3.5% |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | | | |

**Bethel**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Diwylliant Gymraeg sy'n bwysig i'r gymuned.
- Amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol sy'n diwallu anghenion y boblogaeth breswyl.
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 87.3%, sydd 17.3% yn uwch na'r lefel lle credir gall yr iaith fod yn hyfyw (sef 70%), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 0.3% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran gymharol isel o ail gartrefi yn y ward(2.3% o gymharu â 8% yng Ngwynedd).
- Fforddiadwyedd tai ddim yn broblem arwyddocaol.
- Adeiladwyd 7 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 1.5% o'r stoc dai yn 2011.
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad (2011) fod cyfran y boblogaeth rhwng 20-29 wedi gostwng 20.3% rhwng 2001 a 2011 tra bo cyfran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 55.9% yn yr un cyfnod. Nodir hefyd fod canran siaradwyr Cymraeg sydd dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 51% rhwng 2001 a 2011.

- Mae Ysgol Gynradd Bethel, yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Dengys ffigyrau 2012 fod 46 o lefydd gwag yn yr ysgol.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae statws yr iaith yn iach iawn ym Methel (fel ag y mae ym Montnewydd a Deiniolen). Mae 87.3% o'r boblogaeth breswyl yn siaradwyr Cymraeg sydd 17.3% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag, fe welwyd gostyngiad o 2.4% a 4.7% yn nifer a chyfran siaradwyr Cymraeg yn y wardiau sy'n ymdrin â Bethel rhwng 2001 a 2011. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth oed gweithiol. Mae 40.2% o'r boblogaeth a aned a thu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg - y ffigwr uchaf yng Ngwynedd. Awgryma hyn fod yr anheddle'n boblogaidd gyda newydd-ddyfodwyr a all fod gyda chysylltiadau cynt gyda'r Sir a gall adlewyrchu'r cyfleoedd da i fewnfudwyr ddysgu'r iaith. Yn wir, mae bodolaeth ysgol gynradd ac amrywiaeth o gyfleusterau cymdeithasol yn golygu bod yna gyfleon i siarad Cymraeg du allan i'r aelwyd. Byddai Newidiadau Hanfodol Arfaethedig yn arwain at ddau ddynodiad tai cymharol fychan ym Methel, a ragwelir yn ymdrin â chyfran uchel o dwf tai dangosol ar gyfer yr anheddiad. Mae'r Newidiadau Hanfodol Arfaethedig yn disodli dynodiadau tai unigol. Dylai gweithredu polisïau sydd yn berthnasol â thai fforddiadwy angen lleol a'r gymysgedd o dai gynorthwyo i sicrhau y bydd y math o unedau tai yn ymdrin â'r angen lleol am dai. Am y rhesymau hyn, teimlir fod y lefel twf disgwyliedig yn addas ar gyfer y pentref.

**Bontnewydd**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 uned y flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 85.9%, sydd 15.9% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw.
- Gostyngiad o 2.1% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran gymharol isel o ail gartrefi (0.8% o gymharu â 8% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 4 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 1% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn debyg i'r darlun sirol.
- Nodir fod canran newydd-ddyfodwyr yn ward Bontnewydd wedi gostwng o 99 i 82 (-17.2%) rhwng 1991 a 2001, sy'n cymharu â chynnydd Gwynedd (9521 i 14,046 (47.5%). Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (95.3% o gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd). Awgryma'r uchod nad yw mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal.
- Mae Ysgol Gynradd Bontnewydd yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun =* ***40 uned*** *ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a* ***2 uned*** *y flwyddyn ar gyfartaledd.*

Fel a welir ym Methel, mae cyfran uchel iawn o breswylwyr Bontnewydd yn siaradwyr Cymraeg - 85.9% o'r boblogaeth, sydd 15.9% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg fod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag, fe welwyd gostyngiad bach (2.1%) yng nghyfran a nifer (1.6%) siaradwyr Cymraeg ers rhwng 2001 a 2011. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y boblogaeth dan 65 mlwydd oed tra cynyddodd y gyfran o bobl dros 65 mlwydd oed. Awgryma hyn fod allfudo ymysg y boblogaeth iau yn digwydd oherwydd prinder gwaith neu brinder tai addas a fforddiadwy. Nodir fod tai ychydig yn llai fforddiadwy nac yng Ngwynedd gyfan. Nodir hefyd fod y cynnydd yn nhwf unedau tai newydd wedi bod yn gyfyngedig dros y degawd diwethaf. Cynigir dau ddynodiad tai ar gyfer yr anheddiad, ac mae'r fantais o ganiatâd cynllunio eisoes gan un ohonynt. Rhagwelir y bydd y ddau safle yn ymdrin â'r mwyafrif o'r twf dangosol a gyfeiriwyd at yr anheddiad. Dylai gweithredu polisïau sydd yn berthnasol â thai fforddiadwy angen lleol a'r gymysgedd o dai gynorthwyo i sicrhau y bydd y math o unedau tai yn ymdrin â'r angen lleol am dai. Teimlir fod y lefel twf disgwyliedig felly'n addas ar gyfer y pentref.

**Deiniolen**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaethol, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Diffyg amrywiaeth yn y mathau o dai a chyflwr tai yn is-safonol ar y cyfan.
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 81.2%, sydd 11.2% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 1.6% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran gymharol isel o ail gartrefi (2.3% o gymharu â 8% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 9 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 1.5 % o'r stoc dai yn 2011.
- Nid yw fforddiadwyedd tai yn broblem arwyddocaol wrth gymharu ag ardaloedd eraill yng Ngwynedd.
- Nodir fod canran newydd-ddyfodwyr yn wardiau Deiniolen/Bethel / Penisarwaun wedi cynyddu o 359 i 418 (+16.4%) rhwng 1991 a 2001, sy'n cymharu â chynnydd Gwynedd (9521 i 14,046 (47.5%). Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (93.7% o gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd).
- Mae Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Dengys ffigyrau 2012 fod 24 o lefydd gwag yn yr ysgol.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaethol, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae statws yr iaith Gymraeg yn iach ym mhentref Deiniolen gydag 81.2% yn siarad sydd 11.2% yn uwch na'r lefel trothwy o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg fod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag, nodir er fod cyfran siaradwyr Cymraeg wedi lleihau rhywfaint, fe welwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr. Yn ogystal â hyn, nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol yn yr ardal. Ymddengys fod Deiniolen yn ddeniadol i fewnfudwyr. Mae cyfran uchel iawn o breswylwyr a aned yng Nghymru yn siaradwyr Cymraeg. At ei gilydd, gostyngiad cymharol fychan yn unig a welodd yr anheddiad yn y % o siaradwyr Cymraeg yn y degawd diwethaf ac mae'r % o siaradwyr Cymraeg yn dal yn uchel iawn, sy'n golygu y gall mewnfudwyr ddisgwyl clywed yr iaith Gymraeg o ddydd i ddydd.

Credir y byddai darpariaeth o dai newydd yn ddeniadol iawn o ran galluogi aelwydydd newydd i aros yn yr anheddle ac aelwydydd oed gweithio i fyw yno, oherwydd agosrwydd y pentref at Gaernarfon a Bangor sy'n ganolfannau cyflogaeth pwysig. Fodd bynnag, teimlir fod y lefel twf disgwyliedig graddfa datblygiad yn dderbyniol ar gyfer y pentref. Cynigir un dynodiad tai ar gyfer yr anheddiad sydd â'r fantais o ganiatâd cynllunio, a dderbyniwyd ar ôl i'r Cynllun Adnau gael ei gyhoeddi. Rhagwelir y bydd y safle yn ymdrin â'r mwyafrif o'r twf dangosol a gyfeiriwyd at yr anheddiad. Rhagwelir y bydd yr unedau sy'n weddill yn cael eu darparu ar safleoedd bychan o fewn neu gerllaw'r anheddiad. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yna risg isel y bydd unedau tai newydd yn cael eu defnyddio fel ail gartrefi / tai gwyliau.

## DOSBARTHIAD TWF BLAENAU FFESTINIOG

**Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1**

**Blaenau Ffestiniog**

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Trefol.
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl bresennol y ganolfan cafodd lefel twf dangosol o **298** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Blaenau Ffestiniog (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 - 2026).
- Oherwydd natur greigiog y topograffi, mae tiroedd cyfyngiedig addas ar gael ym Mlaenau Ffestiniog ac felly yn ei gwneud hi yn heriol i gyfarch y Twf disgwyliedig o fewn y ganolfan.

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Blaenau Ffestiniog | Gwynedd |
|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 80.7 | 65.4 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | 5.5 | 8 |

| | | |
|---|---|---|
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Bowydd a Rhiw +0.8<br>Diffwys a Maenofferen -5.0<br>Teigl -2.1 | -0.6 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Bowydd a Rhiw -1.5<br>Diffwys a Maenofferen -5.2<br>Teigl -1.8 | -4.8 |
| **Forddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Bowydd a Rhiw 3.8<br>Diffwys a Maenofferen 3.9<br>Teigl 4.2 | 6.1 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 1.6% | 3.5% |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | |

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 298 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 20 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 80.7%, sydd 10.7% yn fwy na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Amrywiaeth yn hyfywdra'r iaith Gymraeg o fewn Blaenau Ffestiniog. Cynnydd o 0.8% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Bowydd a Rhiw a gostyngiad cyfartaledd uwch na'r Sir o 5% yn Diffwys a Maenofferen rhwng 2001 a 2011.
- Tai yn fwy fforddiadwy ym Mlaenau Ffestiniog ar y cyfan.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (77.6% o'i gymharu â 66.8% yng Ngwynedd).
- Darparwyd 32 o unedau tai yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 1.6% o'r stoc dai yn 2011.
- Nodir fod canran newydd-ddyfodwyr Blaenau Ffestiniog wedi cynyddu 29.2% rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau mudo lefel ward 2011 ddim ar gael ar hyn o bryd), sy'n cymharu â chynnydd Gwynedd o +47.5%. Nodir fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (95%) o gymharu â Gwynedd sef 88.7% yn 2011.
- Mae Ysgolion Cynradd Maenofferen, Manod a Tanygrisiau yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed.
- Diffyg amrywiaeth yn y mathau o dai a chyflwr tai yn wael.
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod y boblogaeth rhwng 0-19 mlwydd oed wedi gostwng 11.9%, 10.2% a 7.8% yn wardiau Teigl, Maenofferen a Bowydd a Rhiw yn eu trefn rhwng 2001 a 2011. Mae'n debyg, felly bod teuluoedd ifanc yn allfudo o'r ardal oherwydd diffyg cyfleoedd cyflogaeth neu dai addas.

<u>*Casgliadau*</u>

*I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl bresennol y ganolfan cafodd lefel twf dangosol o **298 o unedau** tai ei adnabod ar gyfer Blaenau Ffestiniog (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 - 2026).*

Mae Blaenau Ffestiniog yn ganolfan gymharol fawr yng Ngwynedd gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal â chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach yma gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal - 80.7%%, sydd 10.7% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Ystyrir fod Blaenau Ffestiniog, felly, yn gadarnle'r iaith Gymraeg er gwelwyd gostyngiad bach yng nghyfran siaradwyr Cymraeg. Mae tai yn llawer mwy fforddiadwy yn y ganolfan o gymharu â Gwynedd gyfan. Mae cyfran ail dai/tai gwyliau yn gymharol isel er ei leoliad ar ymyl y Parc Cenedlaethol ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned y tu allan i Gymru ac sy'n siarad Cymraeg uchel iawn pan gymerir y ffigwr ag ardaloedd eraill yn y sir (31.7% yn ward Bowydd a Rhiw. 32.5 yn Diffwys a Maenofferen a 31.9 yn Teigl). Yn ogystal â hyn, mae patrwm twf adeiladu ym Mlaenau Ffestiniog wedi bod yn is nac yng Ngwynedd gyfan ar gyfartaledd dros y degawd diwethaf. Am y rhesymau hyn, ystyrir na fyddai lefel twf disgwyliedig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol fel datblygu gam wrth gam, sichrau cymysgedd addas o dai gwahanol.

**Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2**

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Abermaw | Tywyn | Gwynedd |
|---|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 41.8 | 36.5 | 65.4 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | Abermaw 10.5 | Tywyn 10.9 | 8 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg)** | Abermaw -1.6 | Tywyn -6.4 | -0.6 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg)** | Abermaw -4.6 | Tywyn -7.3 | -4.8 |
| **Forddiadwyedd tai (2012)** | Abermaw 6.5 | Tywyn 7.2 | 6.1 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 4.8% | 7% | 3.5% |

**- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai*

**Abermaw**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 91 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 6 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd
- Yn brif gyrchfan dwristiaeth efo nifer uchel o ail gartrefi yn y ganolfan o gymharu â'r cyfartaledd Sirol.
- Cyfran isel iawn o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 41.8%, sydd 38.2% yn is na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 4.6% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran sylweddol is o bobl wedi eu geni yng Nghymru (49.3% o'i gymharu â 66.4% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 65 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 4.8% o'r stoc dai yn 2011.
- Cyfran uchel o ail-gartrefi yn yr ardal.
- Fforddiadwyedd tai yn broblem yn yr ardal.
- Mae Ysgol Gynradd Y Traeth yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed. Dim ond 2% o'r disgyblion sydd o gartrefi Cymraeg.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 20-29 wedi gostwng 20.3% a chanran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 55.9% rhwng 2001 a 2011 yn y ward (Cyfrifiad 2001 a 2011). Yn arwyddocaol nodir fod canran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 51% rhwng 2001 a 2011 yn ward Abermaw, sy'n awgrymu fod yr henoed Cymraeg eu hiaith wedi symud allan o'r ardal a/neu fod mewnfudiad o bobl hŷn di-Gymraeg wedi symud i mewn i'r ardal.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **91 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **6 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd*

Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 28.2% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal â hyn, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd gostyngiad o -1.6% yn nifer y siaradwyr Cymraeg a -4.6% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan. Er nad yw fforddiadwyedd tai yn sylweddol waeth na chymhareb Gwynedd, dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth rhwng 20 a 29 oed a'r boblogaeth rhwng 30 a 64 oed wedi gostwng tra bo canran pobl dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu rhwng 2001 a 2011 yn ward Abermaw (Cyfrifiad 2011). Awgryma hyn Awgryma hyn bod aelwydydd o oed gwaith yn symud o'r anheddiad ac / neu ddim yn dewis yr anheddiad fel rhywle i fyw ynddo. Gall y prinder o dai fforddiadwy angen lleol gyfrannu at y gostyngiad hwn mewn aelwydydd o oed gwaith. Hefyd, gallai'r anheddiad hwn barhau i fod yn gyrchfan ymddeol poblogaidd.
Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig ceisio dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Nodir fod cyfran isel o blant ysgol yn dod o gartrefi Cymraeg. Nid oes angen unrhyw ddynodiadau tai o fewn yr anheddiad oherwydd disgwylir i ganiatadau cynllunio presennol ac adeiladau presennol neu safleoedd bychan a ddaw ar gael ar hap ymdrin â'r lefel twf dangosol. Bydd polisïau tai

fforddiadwy yn cynorthwyo i sicrhau bod cymaint â phosibl yn ddeniadol i aelwydydd lleol. Yn ogystal â hyn, gallai cyfradd y datblygiad gynorthwyo i sicrhau na ddylai'r ddarpariaeth o dai ynddi'i hun gael effaith andwyol sylweddol ar y gyfran o siaradwyr Cymraeg o fewn yr anheddiad.

**Tywyn**

_Pwyntiau Allweddol_

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 103 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 7 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Demograffeg oed yr ardal yn anghytbwys gyda chyfran uchel o bobl hyn.
- Cyfran uwch na'r cyfartaledd o ail gartrefi yn yr ardal.
- Fforddiadwyedd tai yn broblem yn yr ardal.
- Cyfran isel iawn o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - 36.5%, sydd 33.5% yn is na'r trothwy 70%, o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 7.3% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 0-19 oed wedi gostwng 14% tra bo canran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 18% rhwng 2001 a 2011 yn y ward (Cyfrifiad 2001 & 2011). Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd gostyngiad o 4% yn y boblogaeth dros 65 mlwydd oed sy'n siarad Cymraeg dros yr un cyfnod. Awgryma hyn fod mewnfudiad o bobl hŷn nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cyfrannu at leihad yn y cyfran o siaradwyr Cymraeg yn yr anheddle.
- Adeiladwyd 124 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 4.5% o'r stoc dai yn 2011

_Casgliadau_

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **103 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **7 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 33.5% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal â hyn, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd gostyngiad o 6.4% yn nifer y siaradwyr Cymraeg a gostyngiad 7.3% yng nghyfran siaradwyr yn y ganolfan. Mae fforddiadwyedd tai yn broblem yn yr ardal. Mae'r nifer uchel o ail gartrefi / tai haf hefyd yn broblem arwyddocaol. Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth hyd at 20 mlwydd oed wedi gostwng tra bo canran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu rhwng 2001 a 2011 yn ward Tywyn (Cyfrifiad 2011). Awgryma hyn nad yw teuluoedd gyda phlant aros yn y Ganolfan a / neu nad ydynt yn symud i'r Ganolfan. Gall fod y gymhareb fforddiadwyedd yn cyfrannu at y mater. Mae'n hynod bwysig, felly ceisio dal gafael/denu ar grŵp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Nodir hefyd fod cyfran o bobl a aned y tu allan i Gymru ac sy'n siarad Cymraeg ymysg yr isaf yng Ngwynedd (12.3%). Mae gwir angen tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol (yn enwedig, felly teuluoedd ifanc). Cynigir dau ddynodiad tai cymharol fychan, ac mae'r fantais o ganiatâd cynllunio gan y ddau. Disgwylir y bydd yr unedau tai sy'n weddill yn cael eu darparu ar safleoedd bychan a ddaw ar gael ar hap, sy'n golygu y byddai tai'n cael eu cyflwyno mewn camau. Wrth weithredu'r polisïau tai

fforddiadwy, dylai Polisi TAI 1 gynorthwyo i sicrhau na ddylai tai newydd ynddynt eu hunain gael effaith andwyol sylweddol ar y gyfran o siaradwyr Cymraeg o fewn y Canolfannau.

## DOSBARTHIAD TWF ARDAL BANGOR

**Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1**

**BANGOR**

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae wedi ei adnabod fel Canolfan Is-ranbarthol
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl bresennol y ganolfan cafodd lefel twf dangosol o **969** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Bangor (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 - 2026).

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Bangor | Gwynedd |
|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 38.5 | 65.4 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | 0.8 | 8 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Garth -34.4<br>Menai (Bangor) 10.1<br>Glyder -6.7<br>Dewi 6.6<br>Hendre -7.2<br>Deiniol 1.5<br>Marchog -11.5<br>Hirael -9.7 | -0.6 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Garth -33.9<br>Menai (Bangor) -32<br>Glyder -5.9<br>Dewi -10.7<br>Hendre -12.7<br>Deiniol -25<br>Marchog -7.2<br>Hirael -28.5 | -4.8 |
| **Forddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Garth 7<br>Menai (Bangor) 4.3<br>Glyder 6.6<br>Dewi 6.5<br>Hendre 5.5 | 6.1 |

| | | |
|---|---|---|
| | Deiniol 4.8<br>Marchog 6<br>Hirael 7.5 | |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 2.8% | 3.5% |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | |

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 969 uned (sy'n cynnwys llithriad o 10%) ar sail ei rôl fel Canolfan Is-ranbarthol, sydd gyfystyr a 64 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran isel iawn o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 38.5%, sydd 31.5% yn is na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Amrywiaeth yn hyfywdra'r iaith Gymraeg o fewn Bangor. Cynnydd o 10.1% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Menai (Bangor) a gostyngiad syfrdanol o 34.4% yn Garth rhwng 2001 a 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn amrywio o fewn y ganolfan gyda thai fwyaf fforddiadwy ym Menai (Bangor) a lleiaf fforddiadwy yn Garth.
- Cyfran isel o bobl wedi eu geni yng Nghymru (41.2% o gymharu â 66.8% yng Ngwynedd).
- Darparwyd 165 o unedau newydd rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 2.8% o'r stoc dai yn 2011.
- Nodir fod canran newydd-ddyfodwyr Bangor wedi cynyddu 174% rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau mudo lefel ward 2011 ddim ar gael ar hyn o bryd), sy'n cymharu â chynnydd Gwynedd o +47.5%. Nodir fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol isel (64.4%) o gymharu â Gwynedd sef 88.7% yn 2011. Awgryma'r uchod fod mewnfudo myfyrwyr ddi-Gymraeg yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i boblogaeth di-Gymraeg yn y ward.
- Cyfradd gymharol isel o ail gartrefi yn yr ardal.

*Casgliadau*

*I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl bresennol y ganolfan cafodd lefel twf dangosol o **969 o unedau tai** ei adnabod ar gyfer Bangor (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 - 2026).*

Gan mai Bangor yw prif ganolfan Gwynedd ceir amrywiaeth dda iawn o gyfleusterau a gwasanaethau yma, a chredir fod rhain, ynghyd a pholisïau i'w gwarchod a hyrwyddo rhai newydd priodol yn ddigonol i gynnal tyfiant yn y boblogaeth a all ddeillio o'r tyfiant arfaethedig. Ar y cyfan nid yw'r iaith Gymraeg yn hyfyw yn y dref gyda chyfradd isel iawn o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal - 38.5%, sydd 31.5% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ym mhob ward o fewn y dref dros y degawd diwethaf. Dylid cadw mewn cof bod sawl ward o fewn y Ddinas yn boblogaidd gyda myfyrwyr, sy'n meddiannu cymysgedd o lety wedi'i adeiladu'n bwrpasol (sector preifat a'r Brifysgol),

tai amlfeddiannaeth a thai traddodiadol. Mae'n rhesymol tybio bod y nifer o aelwydydd sy'n cynnwys siaradwyr di-Gymraeg yn fyfyrwyr sy'n aros yn y ddinas am oddeutu tair blynedd cyn i fyfyrwyr eraill gymryd eu lle. Gallai'r ffactor hon aflunio'r ffigwr / cyfran o siaradwyr Cymraeg yn y wardiau hyn. Er hynny, mae'r ffaith bod y tai traddodiadol wedi'u meddiannu gan fyfyrwyr yn golygu nad yw'r eiddo yma ar gael i aelwydydd â theuluoedd. Mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n ceisio sicrhau cydbwysedd cywir o lety ar gyfer myfyrwyr. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol ym Mangor ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn isel ym mhob ward yn y dref yn arbennig, felly, Marchog (60%), a Menai (Bangor) (63%) o gymharu â 88.8% yng Ngwynedd. Awgryma hyn nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio o fewn teuluoedd sydd eisoes yn byw yn yr ardal. Nodir hefyd fod y canran o bobl a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg hefyd yn isel. Nodir fod canran mudwyr yn wardiau Bangor i gyd wedi cynyddu rhwng 1991 a 2001. Mae'n debyg mai effaith myfyrwyr yn symud i'r ardal sydd wedi achosi hyn yn ogystal ag aelwydydd bel mae oedolion yn cael eu cyflogi gan y brifysgol ac ysbyty Gwynedd yn yr ardal. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu fod rhai yn byw ym Mangor on yn gweithio tua'r dwyrain.. Awgryma'r uchod fod yr ardal yn ddeniadol iawn i aelwydydd ddi-Gymraeg. Nodir fod cyfradd adeiladu tai wedi bod yn llai na'r hyn a welwyd yng Ngwynedd ers 2002. Disgwylir yr ymdrinnir â'r twf tai dangosol gan unedau tai ar nifer o ddynodiadau tai ac ar safleoedd a ddaw ar gael ar hap (yn cynnwys adeiladau). Bydd gweithredu polisïau tai fforddiadwy, datblygiad graddol, cynnal a gwella isadeiledd, yn bwysig i gynorthwyo i sicrhau na fydd tai newydd ynddynt eu hunain yn cael effaith andwyol sylweddol ar y gyfran o siaradwyr Cymraeg yn y Ddinas.

**Cyfleon i Gyfarch y Twf**

- Gwaith dechreuol o Asesu Safleoedd Posib ynghyd a Chapasiti Trefol ac adolygiad o'r Banc Tir presennol ynghyd a nifer o unedau wedi eu cwblhau ers Ebrill 2011 yn golygu gellid cyfarch oddeutu **969** unedau o'r lefel twf disgwyliedig sydd gyfystyr ag adeiladu oddeutu 64 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.

**Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2**

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Bethesda | Rachub | Gwynedd |
|---|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 77.5 | 68.2 | 65.4 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | Bethesda 1 | Bethesda 1 | 8 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Ogwen 6.3<br>Gerlan 4.9 | Gerlan 4.9 | -0.6 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Ogwen 2.8<br>Gerlan -0.8 | Gerlan -0.8 | -4.8 |
| **Forddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Ogwen 5.9<br>Gerlan 5 | Gerlan 5 | 6.1 |

| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 4.6% | 9.1% | 3.5% |
|---|---|---|---|
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | | |

**Bethesda**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 99 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 6 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd
- Diwylliant Gymraeg gryf sy'n bwysig i'r gymuned.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 77.5%, sydd 7.5% yn uwch na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Nodir fod 81.2% o boblogaeth ward Ogwen yn siarad Cymraeg o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd - cynnydd o 5.8%, sy'n dangos fod sefyllfa'r Gymraeg yn gryf yma.
- Gostyngiad bychan yn % siaradwyr Cymraeg yn ward Gerlan (-0.8%)
- Adeiladwyd 101 o unedau yng nghyngor cymuned Bethesda rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 4.6% o'r stoc dai yn 2011.
- Cymhareb fforddiadwyedd yn is na chyfartaledd Gwynedd.
- Mae Ysgol Gynradd Abercaseg, Ysgol Gynradd Penybryn ac Ysgol Gynradd Llanllechid yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed.
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad (2011) fod 78% o boblogaeth rhwng 16-64 oed (sef oed gweithio) yn ward Ogwen yn gallu siarad Cymraeg sydd tipyn uwch na chyfartaledd y Sir (62.5%).
- Nodir fod canran newydd-ddyfodwyr yn ward Ogwen wedi cynyddu o 196 i 236 (+20.4%) ac o 168 i 238 (41.7%) yn Gerlan rhwng 1991 a 2001, sy'n cymharu â chynnydd Gwynedd (9521 i 14,046 (47.5%). Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (91.6% o gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd). Yn ogystal â hyn, mae cyfran siaradwyr Cymraeg yn y ward wedi cynyddu 5.8% rhwng 2001 a 2011. Awgryma'r uchod nad yw mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun =* ***99 uned*** *ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a* ***6 o unedau*** *tai'r flwyddyn ar gyfartaledd*

Mae lleoliad y ganolfan ynghyd a'r cysylltiadau da i ardaloedd ehangach fel Bangor yn gwneud Bethesda yn le poblogaidd i fyw ynddi. Mae Bethesda'n ganolfan gymharol fawr yng Ngwynedd gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal â chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn iach iawn yma gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal - 77.5%, sydd 7.5% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Ar y cyfan mae tai ychydig fwy fforddiadwy na'r cyfartaledd sirol. Gwelwyd cynnydd yn nifer a chyfran siaradwyr yn yr ardal rhwng 2001 a 2011. Nid yw ail gartrefi'n broblem

arwyddocaol ym Methesda ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad (2011) fod 78.1% o boblogaeth rhwng 16-64 oed (sef oed gweithio) yn ward Ogwen yn gallu siarad Cymraeg sydd tipyn uwch na chyfartaledd y Sir (62.5%). Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig sicrhau fod tai newydd yn ddeniadol i deuluoedd yn ogystal ag oedolion ifanc er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Bydd hwyluso tai fforddiadwy ac ystod eang o dai marchnad yn help i gyflawni'r nod hon. Mae'n hynod bwysig ystyried y posibilrwydd i'r lefel twf ddenu ymfudwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg, yn enwedig felly oherwydd agosrwydd Bethesda i Fangor a Chanolfannau yn ne Ynys Môn, sydd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth sylweddol. Nid oes unrhyw safleoedd wedi'u dynodi ar gyfer tai ym Methesda. Disgwylir i'r targed tai dangosol gael ei ddarparu ar safleoedd gyda chaniatâd cynllunio presennol ac ar safleoedd / adeiladau a ddaw ar gael ar hap. Bydd yn bwysig sicrhau bod cyflogwyr, ac yn enwedig cyflogwyr newydd, yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn yr amgylchedd gwaith. Fodd bynnag, ar y cyfan, ni ystyrir bod graddfa'r twf a fwriedir yn debygol o achosi twf sylweddol yn y boblogaeth allai gael effaith andwyol sylweddol ar yr iaith Gymraeg.

**Rachub**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Anheddle bychan o gymharu â Bethesda.
- Nifer cyfyngedig o wasanaethau gyda nifer fawr o dai, yn enwedig, felly tai teras.
- 68.2%, yn siaradwyr Cymraeg sydd 1.8% yn î na'r lefel lle credir gall yr iaith fod yn hyfyw (sef 70%), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Cynnydd o 4.9% yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yn ward Gerlan rhwng 2001 a 2011 ond gostyngiad o 0.8% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg fel rhan o'r boblogaeth sy'n awgrymu er fod nifer y siaradwyr wedi cynyddu, mae'r nifer nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi cynyddu fwy fwy.
- Cyfran isel iawn o ail gartrefi (1% o gymharu â 8% yng Ngwynedd).
- Tai yn fwy fforddiadwy nac yng Ngwynedd gyfan.
- Adeiladwyd 29 o unedau yn anheddle Rachub rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 9.1% o'r stoc dai yn 2011
- Mae Ysgol Gynradd Llanllechid, Rachub yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Dengys ffigyrau 2012 nad oes llefydd gwag yn yr ysgol.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Fel Bethesda, mae lleoliad Rachub ynghyd a'r cysylltiadau da i ardaloedd ehangach fel Bangor a de Ynys Môn yn gwneud Rachub yn le poblogaidd i fyw ynddo. Er fod statws yr iaith Gymraeg yn debyg i'r darlun Sirol, mae siaradwyr Cymraeg 1.8% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Ar y cyfan mae tai ychydig fwy fforddiadwy na'r cyfartaledd sirol.

Gwelwyd cynnydd yn nifer siaradwyr yn yr ardal rhwng 2001 a 2011. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol yn Rachub ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Ceir diffyg amrywiaeth yn y mathau o dai yn y pentref, a cheir cyfle i'r datblygiad tai arfaethedig ymdrin â'r angen hwn. Mae un safle wedi cael ei ddynodi ar gyfer tai yn y Pentref, ag iddo darged dangosol disgwyliedig o 30 uned. Disgwylir y gallai 7 uned ychwanegol gael eu darparu ar safleoedd bychan a ddaw ar gael ar hap. Wrth ystyried y ffactorau uchod, bydd yn bwysig bod ystyriaeth yn cael ei roi yn ystod y cam cais cynllunio i sicrhau bod amrediad digonol o fathau o dai a bod unedau'n cael eu darparu'n raddol. Dylai gweithredu'r polisi tai fforddiadwy wireddu 15% o dai fforddiadwy angen lleol. Bydd yn bwysig sicrhau bod cyflogwyr, ac yn enwedig cyflogwyr newydd, yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn yr amgylchedd gwaith. Ar y sail hon, ni ystyrir bod lefel twf disgwyliedig y Pentref ar ei ben ei hun yn debygol o gael dylanwad negyddol arwyddocaol ar yr iaith.

## DOSBARTHIAD TWF ARDAL PWLLHELI

### Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1

**Pwllheli**

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Trefol.
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl bresennol y ganolfan cafodd lefel twf o **323** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Pwllheli (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 - 2026).
- Mae rhan helaeth o'r dref a'r tiroedd ymylol yn dioddef o berygl o lifogydd ac felly yn ei gwneud hi yn heriol i gyfarch y Twf disgwyliedig o fewn y ganolfan.

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Pwllheli | Gwynedd |
|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 78.7 | 65.4 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | 3.7 | 8 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Gogledd Pwllheli<br>+11.6<br>De Pwllheli<br>-4.3 | -0.6 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Gogledd Pwllheli<br>-2.9<br>De Pwllheli<br>-0.2 | -4.8 |
| **Forddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Gogledd Pwllheli<br>7.1<br>De Pwllheli | 6.1 |

| | | |
|---|---|---|
| | 9.5 | |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 3.9% | 3.5% |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | |

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 323 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 21 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 78.7%, sydd 8.7% yn fwy na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Amrywiaeth yn hyfywdra'r iaith Gymraeg o fewn Pwllheli. Cynnydd o 11.6% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Gogledd Pwllheli a gostyngiad o 4.3% yn Ne Pwllheli rhwng 2001 a 2011.
- Tai yn llai fforddiadwy ym Mhwllheli ar y cyfan.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (77.6% o'i gymharu â 66.8% yng Ngwynedd).
- Darparwyd 93 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli cynnydd o 3.9% o'r stoc dai yn 2011.
- Mae Ysgol Gynradd Cymerau yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 oed. Yn ôl ffigyrau 2012, mae 36 o lefydd gwag yn yr ysgol.
- Cyfradd gymharol isel o ail gartrefi yn yr ardal.
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod 76.3% o boblogaeth ward De Pwllheli a 79.7% o'r boblogaeth Gogledd Pwllheli yn bobl rhwng 25-64 (sef oed gweithio) yn siaradwyr Cymraeg sydd tipyn uwch na chyfartaledd y Sir (65.3%). Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grŵp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Mae darparu tai fforddiadwy yn un ffordd o wneud hyn.

*Casgliadau*

*I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl bresennol y ganolfan cafodd lefel twf tai o **323** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Pwllheli (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 - 2026).*

Mae Pwllheli'n ganolfan gymharol fawr gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal â chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach ym Mhwllheli gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal - 78.7%, sydd 8.7% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Er fod tai ar gyfartaledd yn llai fforddiadwy nag yng Ngwynedd gyfan fe gynyddodd cyfran siaradwyr Cymraeg yn sylweddol yng Ngogledd Pwllheli tra gwelwyd gostyngiad bach yn Ne Pwllheli. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol ym Mhwllheli ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn gymharol isel yn enwedig os ydynt wedi eu lleoli i ffwrdd o'r arfordir. Mae'r ffaith fod y llefydd sy'n draddodiadol ddeniadol fel llefydd i'w defnyddio fel tai haf yn y parth llifogydd, sy'n golygu na fyddai'r Cynllun yn hyrwyddo tai newydd yno yn ffactor bwysig i'w ystyried. 77.9% a 77.1% o breswylwyr wedi eu geni yng Nghymru yn g Ngogledd Pwllheli a De Pwllheli yn eu trefn. Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (94.8% yng Ngogledd Pwllheli; 93.1% yn Ne Pwllheli o'i gymharu ag 89.7% yng Ngwynedd).

Awgryma'r uchod nad yw mewnfudo o bobl di-Gymraeg yn broblem sylweddol yn yr ardal. Fel Canolfan, mae'n darparu nifer o gyfleodd cyflogaeth (diwydiannol, masnachol, manwerthu, hamdden ac ati). Bydd yn bwysig sicrhau bod cyflogwyr yn darparu cyfleoedd i gynnal a chryfhau'r iaith Gymraeg. Caiff tri safle eu dynodi ar gyfer tai o fewn y Ganolfan, ac mae pob un wedi'i leoli yn Ward Gogledd Pwllheli. Disgwylir y bydd y safleoedd hyn yn cael eu darparu mewn camau, yn enwedig y safle a leolir ger Ffordd Caernarfon. Disgwylir y bydd pob safle yn gwireddu cyfran o dai fforddiadwy angen lleol yn ogystal ag amrediad addas o fathau o dai (maint, nifer yr ystafelloedd gwely). Oherwydd hyn, ystyrir y gallai lefel twf disgwyliedig y ganolfan gynorthwyo i fwyhau a chryfhau'r iaith.

**Diffinio Ardal**

- Trafodaethau blaenorol wedi ategu pwysigrwydd cadw twf Canolfannau Gwasanaeth Trefol o fewn dalgylch y ganolfan honno.
- Ceir is-ardaloedd ar sail pellteroedd o ganolfannau Trefol/Is-Ranbarthol eraill, Ardal Marchnad Tai, Ardal Teithio i'r Gwaith, Dalgylch Ysgolion Uwchradd ac ardal Cynllun Gofodol Cymru.
- O gyfuno rhain ceir 3 Canolfan Gwasanaeth Lleol o fewn neu rhwng Pwllheli a Chanolfan Trefol arall sef Abersoch, Criccieth a Nefyn.
- Yn ogystal ceir 3 Pentref Gwasanaethol sef Botwnnog, Chwilog ac Y Ffor.

**Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2**

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Nefyn | Abersoch | Criccieth | Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 76.1 | 43.5 | 64.2 | 65.4 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | 18.6 | 39.8 (Cyngor Cymuned Llanengan) | 8.6 | 8 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg)** | -2.7 | -23.5 | -4.4 | -0.6 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg)** | -3 | -13.4 | -1.4 | -4.8 |
| **Forddiadwyedd tai (2012)** | 7.4 | 12 | 8.6 | 6.1 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 3.8% | 5.3% | 6.3% | 3.5% |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | | | |

**Abersoch**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 67 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 4 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd
- Yn brif gyrchfan dwristiaeth efo nifer uchel o ail gartrefi yn y ganolfan.
- Cyfran is o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 43.5%, sydd ychydig dros chwarter (26.5%) yn is na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 23.5% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran sylweddol is o bobl wedi eu geni yng Nghymru (44.7% o'i gymharu â 66.4% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 58 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 7.3% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol yn yr ardal.
- Mae Ysgol Gynradd Abersoch yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 8 oed.
- Cyfran sylweddol uwch o bobl hŷn, dros 65 mlwydd oed yn byw yn Abersoch. Yn ogystal â hyn dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth rhwng 20 a 34 oed wedi gostwng 36.5% rhwng 2001 a 2011 yn ward Abersoch (Cyfrifiad 2011). Awgryma hyn fod allfudo ymysg y boblogaeth weithiol leol yn bygwth cynaladwyedd y Ganolfan gyda'r prinder o dai fforddiadwy yn un ffactor posib.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **67 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **4** unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd*

Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 26.5% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal â hyn, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd gostyngiad o 23.5% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan. Mae fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol yn Abersoch, gyda thai yn llai fforddiadwy yno nag unrhyw ardal arall yng Ngwynedd. Mae'r nifer uchel o ail gartrefi / tai haf hefyd yn broblem arwyddocaol. Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth rhwng 20 a 29 oed a'r boblogaeth rhwng 30 a 64 oed wedi gostwng 30.6% a 21.4% yn eu trefn rhwng 2001 a 2011 yn ward Abersoch (Cyfrifiad 2011). Awgryma hyn fod allfudo ymysg y boblogaeth weithiol leol yn broblem gyda'r prinder o dai fforddiadwy yn ffactor posib. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig ceisio dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Nodir hefyd fod cyfran o bobl dros 65 mlwydd sy'n siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu 11.5% rhwng 2001 a 2011. Mae gwir angen tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol (yn enwedig, felly teuluoedd ifanc). Nid oes unrhyw safleoedd wedi'u dynodi o fewn y ganolfan. Tai fforddiadwy a thai marchnad leol yn unig a gaiff eu caniatáu yn yr anheddiad hwn dan Bolisi TAI5. Dylai hyn ei gwneud yn haws i bobl leol brynu neu rentu tai newydd yma, a ddylai, yn ei dro, gyfrannu at gael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.

**Nefyn**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 73 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 5 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran uwch na'r cyfartaledd o ail gartrefi yn yr ardal.
- Fforddiadwyedd tai yn is yn yr ardal.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - 76.1%, sydd 6.1% yn uwch na'r trothwy 70%, o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 2.7% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran ychydig yn uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (72.5% o'i gymharu â 66.4% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 34 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 4.5% o'r stoc dai yn 2011

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **73 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **5 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae cyfran gymharol uchel o dai gwag yn yr anheddle. Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach yn Nefyn, gyda chyfradd uchel o siaradwyr yn byw yn y ganolfan - 76.1%, sydd 6.1% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Er fod tai yn llai fforddiadwy nag yng Ngwynedd gyfan ac er fod cyfran uchel o ail gartrefi yn yr ardal, ni ostyngodd cyfran siaradwyr Cymraeg yn sylweddol yma, yn enwedig pan gymherir y ffigwr a ffigyrau cyfatebol Abersoch a Chriccieth. Mae yna ysgol gynradd yno a chyfleon i reoli cyfnod adeiladu ar ambell safle yn ogystal â'r math o unedau tai. Yn wahanol i Abersoch, mae cyfleon cyflogaeth yn rhai cydol y flwyddyn. Am y rhesymau hyn, teimlir fod y twf disgwyliedig yn Nefyn yn dderbyniol. Cynigir dau ddynodiad tai cymharol fychan yn cynnwys 19 a 10 uned. Mae'r fantais o ganiatâd cynllunio gan yr olaf. Mae Polisi TAI1 yn caniatáu i ddatblygiad graddol gael ei ystyried allai helpu cymunedau i ymgorffori datblygiad newydd. Rhagwelir y bydd safleoedd / adeiladau bychan a ddaw ar gael ar hap yn gwireddu unedau ychwanegol. Disgwylir i ddatblygiad ddarparu amrediad addas o fathau o dai, yn cynnwys tai fforddiadwy. Am y rhesymau hyn, ystyrir na ddylai'r twf disgwyliedig yn Nefyn ynddo'i hun gael effaith andwyol arwyddocaol ar yr iaith Gymraeg.

## Asesu Pentrefi Gwasanaeth – Haen 3

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Botwnnog | Y Ffor | Chwilog | Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| % Siaradwyr Cymraeg (2011) | 84.3 | 85.7 | 80 | 65.4 |
| % Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd 2011) | 9.9 | 3.5 (cyngor cymuned Llannor) | 5.1 (cyngor cymuned Llanystumdwy) | +8 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg)** | +2.7 | (Ward Abererch) -2.1 | (Ward Llanystumdwy) +7.9 | -0.6 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg)** | -1.6 | 3.9 | -0.4 | -4.8 |
| **Fforddiadwyedd tai (2012)** | 8.1 | (Ward Abererch) 6.4 | (Ward Llanystumdwy) 6.4 | 6.1 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 5.6% | 2.3% | 3.1% | 3.5% |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | | | |

**Botwnnog**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd..
- Anheddle gymharol fychan o gymharu â Chwilog ac Y Ffor.
- Nifer o wasanaethau allweddol ond dim llawer o aelwydydd.
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 84.3%, sydd 14.3% yn uwch na'r lefel lle credir gall yr iaith fod yn hyfyw (sef 70%), o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Cynnydd o 2.7% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011 ond gostyngiad o 1.6% yng nghyfran siaradwyr.
- Cyfran ychydig uwch o ail gartrefi (9.9% o gymharu â 8% yng Ngwynedd).
- Tai yn llai fforddiadwy nac yng Ngwynedd gyfan.
- Adeiladwyd 18 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 10.8% o'r stoc dai yn 2011. Adeiladwyd 12 o'r unedau newydd gan gymdeithas adeiladu fel rhan o waith arfaethedig "byw, gweithio".
- Fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol yn yr ardal.
- Mae Ysgol Gynradd Pont y Gof, Botwnnog yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae statws yr iaith yn iach iawn ym Motwnnog (fel ag y mae yn Y Ffor a Chwilog) ac fe welwyd cynnydd o 2.7% yn nifer siaradwyr Cymraeg yn yr ardal rhwng 2001 a 2011. Dylid nodi fod gostyngiad bach wedi bod yng nghyfran siaradwyr Cymraeg. Nodir fod canran ail gartrefi yn uwch na

chyfartaledd y Sir a bod tai yn llai fforddiadwy na chyfartaledd Gwynedd. Mae bodolaeth ysgol gynradd, ysgol uwchradd, a meddygfa'n golygu bod yna gyfleon i siarad Cymraeg du allan i'r aelwyd. Adeiladwyd deuddeg tŷ fforddiadwy yn ddiweddar ac mae tystiolaeth hyd yma yn dangos nad yw hyn wedi arwain at ddylanwad negyddol ar yr iaith. Am y rhesymau hyn, sef maint y pentref a'r risg isel y bydd rhai tai yn cael eu defnyddio fel ail gartrefi, teimlir y gellir ymgynefino â thwf disgwyliedig y pentref heb i hyn ynddo'i hun gael dylanwad negyddol ar yr iaith. Er mwyn isafu'r risgiau posib, dylid sicrhau hefyd bod canran ddigonol o dai newydd yn fforddiadwy, bod y safle dynodedig yn darparu amrediad addas o gartrefi ac o ystyried y cynnydd cymesurol ym maint yr anheddiad bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w datblygu mewn dull graddol.

**Y Ffor**

<u>*Pwyntiau Allweddol*</u>

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 uned y flwyddyn ar gyfartaledd
- Cyfran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 85.7%, sydd 15.7% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw
- Gostyngiad o 2.1% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011 ond cynnydd o 3.9% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg.
- Cyfran gymharol isel o ail gartrefi (3.5% o gymharu â 8% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 6 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 2.4% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn debyg i'r darlun sirol.
- Mae Ysgol Gynradd Bro Plenydd, Y Ffor yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed.
- Nodir fod cyfran newydd-ddyfodwyr i Abererch wedi cynyddu o 125 i 127 (+1.6%) rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau ar gyfer 2011 dim ar gael). Mae hwn yn ffigwr gymharol isel o gymharu â chyfartaledd y sir (+47.5%) ac mae'n awgrymu fod y ward yn fwy poblogaidd i'r rhai hynny sy'n byw yno'n barod o gymharu â newydd-ddyfodwyr.

<u>*Casgliadau*</u>

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a **2 uned** y flwyddyn ar gyfartaledd*

Fel Botwnnog a Chwilog, mae cyfran uchel iawn o breswylwyr Y Ffor yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, ar lefel ward, er fod cynnydd o 3.9% wedi digwydd yng nghyfran siaradwyr Cymraeg, fe welwyd gostyngiad bach (2.1%) yn nifer siaradwyr Cymraeg ers 2001. Ar y llaw arall, nid yw fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol ac mae canran gymharol isel o ail gartrefi yn y pentref. Mae'r posibilrwydd y caiff tai newydd eu defnyddio fel ail gartrefi felly'n isel. Nodir hefyd fod y cynnydd yn y stoc tai newydd wedi bod yn gyfyngedig dros y degawd diwethaf. Cynigir tri dynodiad tai cymharol fychan, ac mae'r fantais o ganiatâd cynllunio eisoes gan un ohonynt. Gellir cynnal a

chryfhau bywiogrwydd yr iaith a gellir isafu'r risgiau posib drwy sicrhau bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu hymgorffori i unrhyw gynllun ar gyfer tai, e.e. y math (daliadaeth a maint) o unedau tai yn diwallu anghenion aelwydydd yn yr ardal, bod cyflenwad digonol o dai fforddiadwy ar gael i bobl leol, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi yn y cam cais cynllunio i sicrhau bod datblygiadau'n digwydd mewn camau.

**Chwilog**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaethol, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Anheddle mwy o ran maint na Botwnnog ac Y Ffor.
- Cyfran gymharol uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 80%, sydd 10% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw o gymharu â 65.4% yng Ngwynedd.
- Gostyngiad o 0.6% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- 95% o breswylwyr wedi eu geni yng Nghymru ac yn siarad Cymraeg.
- Cyfran gymharol isel o ail gartrefi (5.1% o gymharu â 8% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 13 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 4.2% o'r stoc dai yn 2011
  Fforddiadwyedd tai yn debyg i'r darlun sirol.
  Mae Ysgol Gynradd Chwilog yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Dengys ffigyrau 2012 fod 13 o lefydd gwag yn yr ysgol.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaethol, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach yn Chwilog gydag 80% yn siarad Cymraeg, er y bu lleihad bychan (0.4%) yn y gyfran o siaradwyr rhwng 2001 a 2011. Yn ogystal, nid yw ail gartrefi yn broblem sylweddol yn yr ardal. Cynigir dau ddynodiad tai yn y Pentref, ar gyfer oddeutu 18 ac 20 o unedau tai yn ôl eu trefn. Felly, ystyrir bod y twf disgwyliedig yn dderbyniol ac na fydd yn gorlethu'r gymuned leol. Yn ogystal â'r angen i sicrhau bod cyflogwyr yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y gweithle drwy weithredu polisïau bod unrhyw gynllun ar gyfer tai yma'n cynnwys y gymysgedd gywir o unedau tai, yn cynnwys sicrhau bod cyflenwad digonol o dai yn fforddiadwy ac ar gael i bobl leol a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi yn y cam cais cynllunio i ddatblygu'n raddol.

**DOSBARTHIAD TWF ARDAL MENAI**

| Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1 |
|---|

**Cyfleon i Gyfarch y Twf**

- Gwaith Asesu Safleoedd Posib ynghyd a Chapasiti Trefol ac adolygiad o'r Banc Tir presennol ynghyd a nifer o unedau wedi eu cwblhau ers Ebrill 2011 yn golygu gellid cyfarch oddeutu 293 unedau o'r lefel twf disgwyliedig sydd gyfystyr ag adeiladu oddeutu 22 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.

**Diffinio Ardal**

- Trafodaethau blaenorol wedi ategu pwysigrwydd cadw twf Canolfannau Gwasanaeth Trefol o fewn dalgylch y ganolfan honno. Fodd bynnag, nodir nad oes canolfan o'r fath wedi ei ddynodi yn y dalgylch hwn.
- Ceir is-ardaloedd ar sail pellteroedd o ganolfannau Trefol/Is-Ranbarthol eraill, Ardal Marchnad Tai, Ardal Teithio i'r Gwaith, Dalgylch Ysgolion Uwchradd ac ardal Cynllun Gofodol Cymru.
- O gyfuno rhain ceir 3 Canolfan Gwasanaeth Lleol o fewn y dalgylch sef Porthaethwy, Llanfairpwll a Biwmares.
- Nid ydym yn ymwybodol o gyfle unigryw am ddatblygiad o fewn yr is-ardal yma, e.e. tir llwyd strategol.

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Porthaethwy | Llanfairpwll | Biwmares | Ynys Mon |
|---|---|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 55.9 | 71.8 | 38.3 | 57.2 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | Porthaethwy 3.3 | Llanfairpwll 1.6 | Biwmares 8.8 | 6.2 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Cadnant 5.9 | Gwyngyll -2.2 | Biwmares -5.4 | -0.8 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Cadnant -4.4 | Gwyngyll -3.4 | Biwmares -0.2 | -2.9 |
| **Forddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Cadnant 7 | Gwyngyll 6.1 | Biwmares 8.3 | 6.3 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 6.3 | 3.4 | 3.6 | 5.6% |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | | | |

**Porthaethwy**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 115 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 7 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran is o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 55.9%, sydd 14.1% yn is na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 57.2% yn Ynys Môn.

- Cyfran llai o blant yn yr ysgol gynradd yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref (20.5% o gymharu â 35.1% yn Ynys Môn gyfan).
- Cymdeithas amlhiliol.
- Ail-gartrefi ddim yn broblem sylweddol yn yr ardal.
- Amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau sy'n diwallu anghenion y boblogaeth leol.
- Gostyngiad o 4.4% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ward Cadnant rhwng 2001 a 2011.
- Adeiladwyd 101 o unedau yn y cyngor cymuned rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 6.3% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn is yn yr ardal o gymharu â'r Ynys .
- Mae canran y boblogaeth rhwng 20-29 oed wedi cynyddu 29.8% rhwng 2001 a 2011 (Cyfrifiad 2001 a 2011). Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd cynnydd o 47.5% yn y boblogaeth dros 65 mlwydd oed dros yr un cyfnod.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **115 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **7 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae cyfran siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan hon yn is na'r ffigwr sirol ac mae'n 14.1% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Mae tai yn llai fforddiadwy nag yn Ynys Mon gyfan ac mae cyfran is o ail gartrefi yn yr ardal (3.3%). Fe gynyddodd nifer siaradwyr Cymraeg yma, tra gwelwyd gostyngiad bach yng nghyfran siaradwyr. Mae yna ysgol gynradd ac Ysgol Uwchradd yno sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer mewnfudwyr i fod yn rhugl yn Gymraeg a Saesneg. Cynigir tri dynodiad tai ar gyfer y Ganolfan, ac mae'r fantais o ganiatâd cynllunio eisoes gan ddau ohonynt. Rhagwelir y bydd gweithredu polisïau perthnasol yn ceisio sicrhau bod dull cam wrth gam yn cael ei ddefnyddio yn y cyfnod adeiladu a bod bob safle'n darparu amrywiaeth addas o fathau gwahanol o unedau tai.. Teimlir fod y lefel twf disgwyliedig yn dderbyniol ar gyfer y ganolfan. Gellir lleihau unrhyw risgiau posib drwy sicrhau fod mesurau lliniaru priodol yn cael eu hymgorffori i unrhyw gynllun am dai yma yn enwedig, felly sicrhau fod y math o unedau tai'n cyfarch galw aelwydydd yr ardal a bod darpariaeth ddigonol o dai'n fforddiadwy ac ar gael i bobl leol, bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam. Dylai Mesurau sy'n ceisio sicrhau bod cyflogwyr lleol yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y gweithle helpu i sicrhau bod bywiogrwydd yr iaith yn cael ei chynnal a'i chryfhau ble bo'n bosib.

**Llanfairpwll**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 82 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 5 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Poblogaeth weithiol uchel gyda theuluoedd ifanc.
- Cyfran is na'r cyfartaledd o ail gartrefi yn yr ardal.

- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - 71.8%, sydd 1.8% yn uwch na'r trothwy 70%, o gymharu â 57.2% yn Ynys Môn.
- Gostyngiad o 3.4% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran ychydig yn uwch o bobl wedi eu geni y tu allan i'r DU (5.1% o gymharu â 3.5% yn Ynys Môn).
- Mae canran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi gostwng 37.5% rhwng 2001 a 2011 yn y ward (Cyfrifiad 2001). Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd cynnydd o 35% yng nghanran siaradwyr Cymraeg o fewn yr ungrwp oed. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad yng nghanran siaradwyr Cymraeg grŵp oedran 3-15 a 16-64 (-20% a -8% yn eu trefn) dros yr un cyfnod.
- Adeiladwyd 70 o unedau yng nghyngor cymuned Llanfairpwll rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 3.4% o'r stoc dai yn 2011.
- Nodir fod y gyfran o newydd-ddyfodwyr yng Ngwyngyll a Braint wedi cynyddu o 227 i 245 (+7.9%) rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau ar gyfer 2011 ddim ar gael eto). Mae hwn yn ffigwr gymharol isel wrth gymharu â gweddill wardiau Ynys Môn ac mae'n awgrymu nad yw mewnfudo'n broblem fawr.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **82 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **5 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae gan Llanfairpwll ddiwylliant Gymraeg gryf. Mae lleoliad y ganolfan ger lannau'r Fenai yn gwneud yr ardal yn le deniadol i fyw ynddi. Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 1.8% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag gwelwyd gostyngiad yn nifer a chanran siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan rhwng 2001 a 2011. Mae'r ffaith fod canran y boblogaeth iau sy'n siarad Cymraeg wedi disgyn yn awgrymu nad oes tai addas a / neu llai o gyfleoedd cyflogaeth er mwyn cadw teuluoedd ifanc yn yr ardal. Cynigir dau ddynodiad tai o fewn y ganolfan, un o'r rhain gyda caniatâd cynllunio presennol. Wrth ystyried yr uchod a'r ffaith fod twf adeiladu wedi bod yn llai na'r cyfartaledd sirol ystyrir na fyddai lefel twf disgwyliedig y ganolfan yn ormod i'r ardal. O ystyried pa mor agos ydyw i Fangor, gyda'i amrediad o gyfleoedd cyflogaeth, i Gaerwen a Llangefni (ble mae'r ddau le yn gartref i safleoedd Parth Menter), bydd yn bwysig sicrhau bod cyflogwyr yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y gweithle. Bydd gweithredu polisïau tai fydd angen amrediad addas o unedau tai, yn cynnwys tai fforddiadwy angen lleol, ynghyd â dull cam wrth gam posib gyda datblygiadau, yn help i sicrhau na ddylai tai newydd ynddynt eu hunain gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig wrth ymgorffori'r mesurau lliniaru priodol a nodir uchod. debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol.

**Biwmares**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 96 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 6 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.

- Cyfran gymharol uwch o ail gartrefi yn yr ardal.
- Cyfran sylweddol is o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - 38.3%, sydd llawer is (31.7%) na'r trothwy 70%, o gymharu â 57.2% yn Ynys Môn.
- Gostyngiad o 5.4% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran sylweddol is o bobl wedi eu geni yng Nghymru (56.8% o'i gymharu â 66.4% yn Ynys Môn).
- Tai yn llai fforddiadwy na chyfartaledd y Sir.
- Adeiladwyd 66 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 3.6% o'r stoc dai yn 2011

***<u>Casgliadau</u>***

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **96 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **6 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 31.7% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal a hyn, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd ostyngiad o 5.4% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ganolfan sy'n gyfatebol i ostyngiad o 0.2% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg. Mae fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol ym Miwmares. Mae'r nifer uchel o ail gartrefi / tai haf hefyd yn broblem arwyddocaol. Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth rhwng 3-15 oed sy'n siard Cymraeg wedi gostwng 10.8% rhwng 2001 a 2011 yn ward Biwmares (Cyfrifiad 2011). Awgryma hyn fod allfudo ymysg teuluoedd ifanc lleol yn broblem gyda'r prinder o dai fforddiadwy yn ffactor posib. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig ceisio dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Nodir hefyd fod cyfran o bobl a aned y tu allan i Gymru ac sydd ddim yn siarad Cymraeg yn isel, sy'n awgrymu nad oes diwylliant Gymraeg gryf yn yr ardal a phrinder cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith o ddydd i ddydd nac i'w ddysgu. Mae gwir angen tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol (yn enwedig, felly teuluoedd ifanc). Cynigir un dynodiad tai o fewn y Ganolfan, ac mae'r fantais o ganiatâd cynllunio eisoes ganddo. Rhagwelir y bydd gweddill yr unedau sydd eu hangen i gyflawni'r targed tai dangosol yn cael eu darparu ar safleoedd bychan a ddaw ar gael ar hap a thrwy ddefnyddio adeiladau presennol. Dylai hyn olygu y bydd tai newydd yn cael eu darparu'n gynyddrannol. Tai fforddiadwy a thai marchnad leol yn unig a gaiff eu caniatáu yn yr anheddiad hwn dan Bolisi TAI5. Dylai hyn helpu pobl leol brynu neu rentu tai yma, a ddylai, yn ei dro, gyfrannu at gael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.

**DOSBARTHIAD TWF ARDAL AMLWCH**

| **Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1** |
|---|

**Amlwch**

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Trefol.
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl bresennol y ganolfan cafodd lefel twf dangosol o **533** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Amlwch (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 - 2026).

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Amlwch | Ynys Mon |
|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 63.1 | 57.2 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | 3 | 6.2 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Amlwch Wledig -1.6<br>Porth Amlwch (dim ar gael) | -0.8 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Amlwch Wledig -2.7<br>Porth Amlwch (dim ar gael) | -2.9 |
| **Forddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Amlwch Wledig 7.7<br>Porth Amlwch 4.3 | 6.3 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 3.6 | 5.6 |

**- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.*

<u>*Pwyntiau Allweddol*</u>

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 533 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 35 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran gymharol uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 63.1%, sydd 6.9% yn llai na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 57.2% yn Ynys Mon.
- Gostyngiad bychan o 1.6% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Amlwch Wledig rhwng 2001 a 2011 sy'n gyfatebol i ostyngiad o 2.7% yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg.
- Fforddiadwyedd tai'n amrywio o fewn y ganolfan gyda thai yn llai fforddiadwy yn Amlwch Wledig a mwy fforddiadwy ym Mhorth Amlwch.
- Cyfran ychydig yn fwy o bobl wedi eu geni yng Nghymru (67.5% yn Amlwch; 66.4% yn Ynys Môn).
- Cyfradd isel o ail gartrefi yn yr ardal.
- Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod cyfran y boblogaeth rhwng 30-64 (sef oed gweithio) wedi gostwng 10% yn ward Amlwch Wledig rhwng 2001 a 2011. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig dal gafael ar grŵp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Mae darparu tai fforddiadwy yn un ffordd o wneud hyn.

<u>*Casgliadau*</u>

*I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl bresennol y ganolfan cafodd lefel twf dangosol o **533** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Amlwch (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 - 2026).*

Mae Amlwch yn ganolfan gymharol fawr yn Ynys Mon gydag amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal a chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach yn Amlwch gyda chyfradd uwch o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal o gymharu ag Ynys Mon gyfan. Fodd bynnag, mae'r gyfradd yn parhau i fod 7% yn is na'r trothwy lle ystyrir yr iaith yn hyfyw. Gwelir amrywiaeth yn fforddiadwyedd tai yn y ganolfan gyda thai yn llai fforddiadwy yn ward Amlwch Wledig. Ynghlwm a hyn, gwelwyd gostyngiad yng nghyfran siaradwyr Cymraeg a hefyd yn y nifer o siaradwyr rhwng 2001 a 2011. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol yn Amlwch ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned y tu allan i Gymru ac sy'n siarad Cymraeg yn un o'r uchaf yn yr Ynys sy'n awgrymu unai fod newydd-ddyfodwyr yn dewis dysgu'r Gymraeg neu fod y Ganolfan yn boblogaidd i'r rhai hynny sy'n dychwelyd i'r Ynys. Mae'r twf adeiladu a welwyd yn y ganolfan ers 2002 yn gymharol isel. Mae'r lefel twf dangosol arfaethedig yn sylweddol uwch na'r hyn a brofwyd yn y gorffennol yn y Ganolfan ac nid yn unig yn adlewyrchu rôl y Ganolfan ar yr Ynys, mae hefyd yn alinio â strategaeth economaidd y Cynllun. Am y rhesymau hyn, cynigir pum dynodiad tai ar gyfer y Ganolfan. Nid oes gan unrhyw un o'r rhain ganiatâd cynllunio presennol yn y cam Cynllun Adneuo. Bydd yn bwysig sicrhau bod polisïau tai yn hyrwyddo cymysgedd addas o unedau tai, yn cynnwys tai fforddiadwy angen lleol, a bod dull cam wrth gam yn cael ei ddilyn i ddarparu unedau tai. Bydd disgwyl i gyflogwyr hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y gweithle. Mae mesurau lliniaru eraill y dylid eu harchwilio yn cynnwys buddsoddi mewn adnoddau sy'n helpu mewnfudwyr (plant ac oedolion) i ddysgu'r iaith Gymraeg. Dylai'r lefel twf arfaethedig helpu i adfywio'r Ganolfan a byddai gweithredu mesurau lliniaru priodol (fel y'u disgrifiwyd uchod) yn cynorthwyo i gynnal neu gryfhau'r iaith.

**Diffinio Ardal**

- Trafodaethau blaenorol wedi ategu pwysigrwydd cadw twf Canolfannau Gwasanaeth Trefol o fewn dalgylch y ganolfan honno.
- Ceir is-ardaloedd ar sail pellteroedd o ganolfannau Trefol/Isranbarthol eraill, Ardal Marchnad Tai, Ardal Teithio i'r Gwaith, Dalgylch Ysgolion Uwchradd ac ardal Cynllun Gofodol Cymru.
- O gyfuno rhain ceir 3 Canolfan Gwasanaeth Lleol o fewn neu rhwng Amlwch a Chanolfan Trefol arall sef Cemaes, Benllech a Phentraeth.
- Yn ogystal ceir Pentref Gwasanaethol sef Llannerchymedd.
- Nid ydym yn ymwybodol o gyfle unigryw am ddatblygiad o fewn yr is-ardal yma, e.e. tir llwyd strategol.

**Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2**

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Cemaes | Benllech | Pentraeth | Ynys Mon |
|---|---|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 50.5 | 43.3 | 60.5 | 57.2 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor** | Llanbadrig | Llanfair ME | Pentraeth | 6.2 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **cymuned) (Tachwedd, 2011)** | 10 | 9.3 | 6.3 | |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Llanbadrig -6.3 | Llanbedrgoch -7.9 | Pentraeth -1.9 | -0.8 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Llanbadrig -2 | Llanbedrgoch -1.6 | Pentraeth -3.4 | -2.9 |
| **Forddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Llanbadrig 7.4 | Llanbedrgoch 7.8 | Pentraeth 4.9 | 6.3 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 6.8 | 5.8 | 1.9 | 5.6 |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | | | |

**Cemaes**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 81 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 5 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran is o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 50.5%, sydd 19.5% yn is na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 57.2% yn Ynys Mon.
- Gostyngiad o 6.3% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Llanbadrig rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran gymharol is o bobl wedi eu geni yng Nghymru (53.1% o'i gymharu â 66.4% yn ynys Mon).
- Adeiladwyd 52 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 6.8% o'r stoc dai yn 2011.
- Tai yn llai fforddiadwy yn yr ardal.
- Mae Ysgol Gynradd Cemaes yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 8 oed. Cyfradd gymharol uchel o aelwydydd ble nad yw'r plant yn defnyddio'r iaith Gymraeg.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 30-64 oed wedi gostwng 8.4% rhwng 2001 a 2011 yn y ward (Cyfrifiad 2011). Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd cynnydd o 10% yn y boblogaeth dros 65 mlwydd oed dros yr un cyfnod. O gofio'r cyfleon gwaith posib yn sgil datblygu Wylfa Newydd bydd yn bwysig hyrwyddo cyflenwad digonol o unedau tai a'r mathau angenrheidiol o dai gan gynnwys tai fforddiadwy, er mwyn cadw trigolion (yn enwedig oedolion ifanc sydd yn debygol o ddechrau teulu) yn yr ardal a denu poblogaeth weithiol.
- Nodir fod canran newydd-ddyfodwyr yn ward Llanbadrig wedi gostwng 145 i 117 (-19.3%) rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau 2011 ddim ar gael eto), sy'n cynrychioli'r gostyngiad mwyaf o holl wardiau Ynys Môn. Awgryma hyn nad yw mewnfudiad yn broblem arwyddocaol yn yr ardal.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **81 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **5 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Ar y cyfan, mae statws yr iaith Gymraeg yn fregus yn y ganolfan hon, gyda chyfradd siaradwyr Cymraeg 20% yn is na'r lefel ystyrir fod yr iaith yn hyfyw. Mae tai yn llai fforddiadwy ac mae cyfran gymharol uchel o dai haf, sy'n golygu fod y tai ar gael i'r boblogaeth leol yn gyfyngedig. Cynigir un dynodiad tai o fewn y ganolfan. Rhagwelir y bydd gweddill yr unedau sydd eu hangen i gyflawni'r targed tai dangosol yn cael eu darparu ar safleoedd bychan a ddaw ar gael ar hap a thrwy ddefnyddio adeiladau presennol. Dylai hyn olygu y bydd tai newydd yn cael eu darparu'n gynyddrannol. Teimlir bod y lefel twf disgwyliedig ar gyfer y Ganolfan yn dderbyniol. Gellir isafu unrhyw risgiau posib drwy sicrhau bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu hymgorffori yn unrhyw gynllun am dai yma'n benodol, a thrwy hynny sicrhau bod y math o unedau tai yn diwallu anghenion aelwydydd yn yr ardal a bod cyflenwad digonol o dai fforddiadwy ar gael i bobl leol, a bod datblygiadau'n digwydd mewn camau.

**Benllech**

*<u>Pwyntiau Allweddol</u>*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 90 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 6 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran uwch na'r cyfartaledd o ail gartrefi yn yr ardal. Yn Nhachwedd 2011, roedd 9.3% o dai yng nghyngor cymuned Llanfair ME yn dai haf / ail-gartrefi o gymharu â 6.2% yn Ynys Môn gyfan. Mae hyn yn cyfrannu at leihau'r nifer o dai sydd ar gael i drigolion lleol.
- Tai yn llai fforddiadwy yn yr ardal.
- Cyfran gymharol isel iawn o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - 43.3%, sydd 26.7% yn is na'r trothwy 70%, o gymharu â 57.2% yn Ynys Môn.
- Gostyngiad o 7.9% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Llanbedrgoch rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran sylweddol is o bobl wedi eu geni yng Nghymru (43.2% o'i gymharu â 66.4% yn Ynys Mon).
- Adeiladwyd 108 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 5.8% o'r stoc dai yn 2011.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 0-19 oed wedi gostwng 11.4% a chanran y boblogaeth rhwng 20-29 wedi gostwng 1.8% rhwng 2001 a 2011 yn y ward (Cyfrifiad 2001 & 2011), sy'n awgrymu fod teuluoedd ifanc yn allfudo o'r ardal.
- Nodir fod canran newydd-ddyfodwyr yn ward Benllech wedi cynyddu o 94 i 164 (74.5%) rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau 2011 ddim ar gael eto).

*<u>Casgliadau</u>*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **90 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **6 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae’r canran siaradwyr Cymraeg yn 26.7% yn is na’r lefel o 70% sy’n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae’n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal a hyn, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd gostyngiad o 7.9% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ward. Mae fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol ym Menllech. Mae’r nifer uchel o ail gartrefi / tai haf hefyd yn broblem arwyddocaol. Dengys ffigyrau’r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed wedi gostwng 9.3% rhwng 2001 a 2011 yn ward Llanbedrgoch (Cyfrifiad 2011). Awgryma hyn fod allfudo ymysg y boblogaeth weithiol lleol yn broblem gyda’r prinder o dai fforddiadwy yn ffactor posib. Nodir hefyd fod twf datblygiadau tai ychydig yn uwch na’r lefel twf yn Ynys Mon gyfan. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig ceisio dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Mae gwir angen tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol (yn enwedig, felly teuluoedd ifanc). Cynigir un dynodiad tai cymharol fychan yn cynnwys 12 uned. Rhagwelir y bydd gweddill yr unedau sydd eu hangen i gyflawni'r targed tai dangosol yn cael eu darparu ar safleoedd bychan a ddaw ar gael ar hap a thrwy ddefnyddio adeiladau presennol. Dylai hyn olygu y bydd tai newydd yn cael eu darparu'n gynyddrannol. Teimlir bod y lefel twf disgwyliedig ar gyfer y Ganolfan yn dderbyniol. Gellir isafu unrhyw risgiau posib drwy sicrhau bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu hymgorffori yn unrhyw gynllun am dai yma'n benodol, a thrwy hynny sicrhau bod y math o unedau tai yn diwallu anghenion aelwydydd yn yr ardal a bod cyflenwad digonol o dai fforddiadwy ar gael i bobl leol, a bod datblygiadau'n digwydd mewn camau

**Pentraeth**

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 57 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 4 uned tai’r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran o ail gartrefi yn yr ardal yn debyg i’r cyfran sirol.
- Cyfran ychydig yn uwch o’r boblogaeth yn siarad Cymraeg - 60.5%, sydd 9.5% yn is na’r trothwy 70%, o gymharu â 57.2% yn Ynys Mon gyfan.
- Gostyngiad o 1.9% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Tai ychydig yn fwy fforddiadwy na chyfartaledd y Sir.
- Adeiladwyd 12 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 1.9% o’r stoc dai yn 2011
- Mae Ysgol Gynradd Pentraeth yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 8 oed. Cyfradd gymharol uchel o aelwydydd ble bo’r plant yn defnyddio’r iaith Gymraeg.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 0-19 wedi gostwng 13.3% rhwng 2001 a 2011 yn ward Pentraeth. Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd ostyngiad o 31% yng nghanran siaradwyr Cymraeg yng ngrŵp oedran 3-15. Bydd yn bwysig hyrwyddo cyflenwad digonol o unedau tai a’r mathau angenrheidiol o dai gan gynnwys tai fforddiadwy, er mwyn cadw trigolion (yn enwedig teuluoedd ifanc) yn yr ardal a denu poblogaeth gweithiol.
- Nodir fod cyfran newydd-ddyfodwyr yn Abererch wedi cynyddu o 128 i 167 (+30.5% rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau 2011 ddim ar gael eto). Wedi dweud hyn, dim ond 9.3% o boblogaeth y ward sydd yn fewnfudwyr (2001) sy’n awgrymu nad yw mewnfudo’n broblem arwyddocaol yn yr ardal.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **57 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **4 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae'r darlun a welir ym Mhentraeth yn adlewyrchu'r hyn a welir yn Ynys Mon gyfan. Mae statws yr iaith Gymraeg ychydig yn well nac ydyw yn y sir, gyda chyfradd uchel o siaradwyr yn byw yn y ganolfan - 60.5%, sydd 9.5% yn is na'r trothwy 70%. Ni ostyngodd cyfran siaradwyr Cymraeg yn sylweddol yma, yn enwedig pan gymherir y ffigwr a ffigyrau cyfatebol Rhosneigr a Benllech. Mae yna ysgol gynradd yno a chyfleon i reoli cyfnod adeiladu ar ambell safle yn ogystal â'r math o unedau tai. Fodd bynnag, dylid tynnu'r sylw i'r ffaith fod y boblogaeth 3-15 mlwydd oed wedi disgyn 31% rhwng 2001 a 2011 - yr ail uchaf ar yr Ynys, sy'n awgrymu fod prinder tai addas ar gyfer cadw teuluoedd yn yr ardal. Nid oes unrhyw safleoedd wedi'u dynodi ar gyfer tai ym Mhentraeth. Disgwylir i'r targed tai dangosol gael ei gyflawni ar safleoedd gyda chaniatâd cynllunio presennol ac ar safleoedd / adeiladau a ddaw ar gael ar hap. Bydd yn bwysig sicrhau bod cyflogwyr, ac yn enwedig cyflogwyr newydd, yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn yr amgylchedd gwaith. Fodd bynnag, ar y cyfan, ni ystyrir bod graddfa'r twf a fwriedir yn debygol o achosi twf sylweddol yn y boblogaeth allai gael effaith andwyol sylweddol ar yr iaith Gymraeg.

## Asesu Pentrefi Gwasanaeth – Haen 3

**Llanerchymedd**

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Llanerchymedd | Ynys Mon |
|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 75.5 | 57.2 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd 2011)** | Llanerchymedd 2.6 | 6.2 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Llanerchymedd 3.4 | -0.8 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Llanerchymedd -2.4 | -2.9 |
| **Fforddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Llanerchymedd 4.6 | 6.3 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 8.9 | 5.6 |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | |

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Wedi ei leoli o fewn pellter rhesymol at nifer o ganolfannau mawr.
- Cyfran gymharol uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 75.5%, sydd 5.5% yn uwch na'r lefel lle credir gall yr iaith fod yn hyfyw (sef 70%), o gymharu a 57.2% yn Ynys Môn.
- Cynnydd o 3.4% yn nifer siaradwyr Cymraeg ond gostyngiad o 2.4 yng nghyfran siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran gymharol isel o ail gartrefi (2.6% o gymharu â 6.2% yn ynys Mon).
- Tai yn fwy fforddiadwy nac yn Ynys Mon gyfan.
- Adeiladwyd 55 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 8.9% o'r stoc dai yn 2011.
- Mae Ysgol Gynradd Llanerchymedd yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Cyfradd uchel iawn o aelwydydd ble fo'r plant yn defnyddio'r iaith Gymraeg.

- Cynyddodd cyfran y boblogaeth weithiol (20-30 mlwydd oed) 30% rhwng 2001 a 2011 yn ward Llanerchymedd, a dros yr un cyfnod fe gynyddodd y gyfran oedd yn economaidd weithiol oddeutu 27%. Awgryma hyn ei bod yn bwysig fod ddarpariaeth ddigonol o dai addas a fforddiadwy ar gael i'r boblogaeth hwn.

- Nodir fod canran newydd-ddyfodwyr i ward Llanerchymedd wedi cynyddu o 133 i 179 (35%) rhwng 1991 a 2001. Wedi dweud hyn, dim ond 10% o boblogaeth y ward sydd yn fewnfudwyr (2001) sy'n awgrymu nad yw mewnfudo yn broblem arwyddocaol yn yr ardal.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae diwylliant Gymraeg cryf yn Llanerchymedd. Mae cyfran uchel iawn o breswylwyr Llanerchymedd yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, fe welwyd gostyngiad bach (2.9%) yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ers 2001. Ar y llaw arall, nid yw fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol ac mae canran gymharol isel o ail gartrefi yn y pentref. Mae'r posibilrwydd y caiff tai newydd eu defnyddio fel ail gartrefi felly'n isel. Nodir fod y cynnydd yn nhwf unedau tai newydd wedi bod ychydig yn uwch na'r cyfartaledd dros y degawd diwethaf. Awgryma hyn fod tai addas wedi cyfrannu at gadw pobl leol yn yr ardal. Cynigir un dynodiad tai cymharol fychan yn cynnwys 17 uned. Rhagwelir y bydd gweddill yr unedau sydd eu hangen i gyflawni'r targed tai dangosol yn cael eu darparu ar safleoedd bychan a ddaw ar gael ar hap a thrwy ddefnyddio adeiladau presennol. Dylai gweithredu polisïau sydd yn berthnasol â thai fforddiadwy a'r gymysgedd o dai gynorthwyo i sicrhau y bydd y math o unedau tai yn ymdrin ag anghenion aelwydydd yn yr ardal. Os credir bod hynny'n angenrheidiol yn ystod y cam cais cynllunio, byddai gweithredu'r polisi cam wrth gam yn sicrhau bod datblygiad yn digwydd mewn camau.

**DOSBARTHIAD TWF ARDAL CAERGYBI**

**Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1**

**Caergybi**

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Trefol.
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl bresennol y ganolfan cafodd lefel twf dangosol o **833** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Caergybi (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 - 2026).

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Caergybi | Ynys Mon |
|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 42.2 | 57.2 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | 1.5 | 6.2 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Parc a'r Mynydd -5.5<br>Porthyfelin -15.3<br>Maeshyfryd -5<br>Tref Caergybi -0.9<br>Morawelon -13.6<br>Ffordd Llundain -13.1<br>Kingsland -5 | -0.8 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Parc a'r Mynydd -3.4<br>Porthyfelin -6<br>Maeshyfryd -3.1<br>Tref Caergybi -4.1<br>Morawelon -4.9<br>Ffordd Llundain -6.5<br>Kingsland -5.1 | -2.9 |
| **Forddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Parc a'r Mynydd 4.9<br>Porthyfelin 6.2<br>Maeshyfryd 5.2<br>Tref Caergybi 4.2<br>Morawelon 5.1<br>Ffordd Llundain 4.7<br>Kingsland 4 | 6.3 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 4.8% | 5.6% |

**- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran*

| |
|---|
| *o'r stoc dai.* |

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 833 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 55 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran is o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 42.2%, sydd 27.8% yn llai na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 57.2% yn Ynys Môn.
- Gostyngiad yn nifer siaradwyr Cymraeg wedi digwydd ym mhob ward yng Nghaergybi rhwng 2001 a 2011. Gostyngiadau'n amrywio o -0.9% yn Nhref Caergybi i -15.3% ym Mhorthyfelin.
- Tai yn gymharol fforddiadwy ym Nghaergybi ar y cyfan o gymharu ag Ynys Môn.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (74.8% o'i gymharu â 66.4% yn Ynys Mon).
- Darparwyd 271 o unedau yng nghyngor cymuned Caergybi rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 4.8% o'r stoc dai yn 2011.
- Nodir fod canran newydd-ddyfodwyr Caergybi wedi cynyddu 40.9% rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau mudo lefel ward 2011 ddim ar gael ar hyn o bryd). Nodir fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol isel (52.8%) o gymharu ag Ynys Môn sef 78.2% yn 2011.
- Cyfradd gymharol isel o ail gartrefi yn yr ardal.

*Casgliadau*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **833 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a **55 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.*

Caergybi yw canolfan fwyaf yr Ynys gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal a chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn fregus yng Nghaergybi gyda chyfradd isel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal – 42.2%, sydd 27.8% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ym mhob ward o fewn y dref dros y degawd diwethaf. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol yn Nghaergybi ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Nodir hefyd fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn isel ym mhob ward yn y dref yn arbennig, felly, Morawelon (49%), Tref Caergybi (50%) a Maeshyfryd (50%) o gymharu a 78.2% yn Ynys Mon. Awgryma'r hyn nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio o fewn teuluoedd sydd eisoes yn byw yn yr ardal. Mae gan ardaloedd o fewn Caergybi ganrannau gymharol uchel o newydd-ddyfodwyr yn enwedig, felly, wardiau Tref Caergybi (13.4%) a Kingsland (13.1%) (ffigyrau 2001) sy'n awgrymu fod cyfraddau newydd-ddyfodwyr yn gymharol uchel. Disgwylir yr ymdrinnir â'r twf tai dangosol gan unedau tai ar nifer o ddynodiadau tai ac ar safleoedd a ddaw ar gael ar hap (yn cynnwys adeiladau). Bydd gweithredu polisïau tai fforddiadwy, datblygiad cam wrth gam, cynnal a gwella isadeiledd, yn bwysig i gynorthwyo i sicrhau na fydd tai newydd ynddynt eu hunain yn cael effaith andwyol sylweddol ar y gyfran o siaradwyr Cymraeg yn y Ganolfan.

**Diffinio Ardal**

- Trafodaethau blaenorol wedi ategu pwysigrwydd cadw twf Canolfannau Gwasanaeth Trefol o fewn dalgylch y ganolfan honno.
- Ceir is-ardaloedd ar sail pellteroedd o ganolfannau Trefol/Is-Ranbarthol eraill, Ardal Marchnad Tai, Ardal Teithio i'r Gwaith, Dalgylch Ysgolion Uwchradd ac ardal Cynllun Gofodol Cymru.
- O gyfuno rhain ceir 3 Canolfan Gwasanaeth Lleol o fewn neu rhwng Caergybi a Chanolfan Trefol arall sef Yfali, Rhosneigr a Bodedern.
- Yn ogystal ceir Pentref Gwasanaethol sef Gwalchmai.

**Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2**

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Y Fali | Rhosneigr | Bodedern | Ynys Mon |
|---|---|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 54.7 | 36 | 70.7 | 57.2 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | Y Fali 2.7 | Llanfaelog 25.5 | Llanfihangel Ysgeifiog 3.5 | 6.2 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Y Fali -2.3 | Rhosneigr -13.5 | Llanfair yn Neubwll 4.1 | -0.8 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Y Fali -0.3 | Rhosneigr -6.6 | Llanfair yn Neubwll -1 | -2.9 |
| **Forddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Y Fali 5.6 | Rhosneigr 10.2 | Llanfair yn Neubwll 3.5 | 6.3 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 2.9% | 9.5% | 11.6% | 5.6% |

**- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.*

**Y Fali**

<u>*Pwyntiau Allweddol*</u>

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 84 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 5 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd
- Yn darparu ar gyfer anghenion gwasanaeth hanfodol ar gyfer ei phoblogaeth ei hun a'r dalgylch uniongyrchol.
- Cyfran ychydig yn is o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 54.7%, sydd 15.3% yn is na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 57.2% yn Ynys Mon.
- Gostyngiad o 2.3% yn nifer siaradwyr Cymraeg a gostyngiad o -0.3% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg yn ward Y Fali rhwng 2001 a 2011.

- Adeiladwyd 32 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 2.9% o'r stoc dai yn 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn debyg i'r patrwm sirol.
- Mae Ysgol Gynradd Y Fali yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 8 oed. Cyfradd isel o aelwydydd ble fo'r plant yn defnyddio'r iaith Gymraeg.
- Gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghyfran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed (44.5%) rhwng 2001 a 2011 tra gwelwyd gostyngiad yng nghyfran grwpiau oed iau. Ynghlwm â hyn, cynyddodd canran y boblogaeth dros 65 mlwydd sy'n siaradwyr Cymraeg cymaint â 32% tra gwelwyd gostyngiad yn y boblogaeth oed gweithiol sy'n siaradwyr Cymraeg (-8%). Bydd yn bwysig hyrwyddo cyflenwad digonol o unedau tai a'r mathau angenrheidiol o dai gan gynnwys tai fforddiadwy, er mwyn cadw trigolion (yn enwedig oedolion ifanc sydd yn debygol o ddechrau teulu) yn yr ardal a denu poblogaeth weithiol.

<u>*Casgliadau*</u>

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **84 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **5 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd*

Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol fregus o gymharu'r a'r darlun sirol. Gyda chyfradd isel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y ganolfan 54.7%, sydd 15.3% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Fodd bynnag, ni ostyngodd cyfran siaradwyr Cymraeg yn sylweddol yma, yn enwedig pan gymherir y ffigwr a ffigyrau cyfatebol Rhosneigr. Mae yna ysgol gynradd Y Fali a chyfleon i reoli cyfnod adeiladu ar ambell safle yn ogystal â'r math o unedau tai. Yn wahanol i Rhosneigr, mae cyfleon cyfyngiedig cyflogaeth yn rhai gydol y flwyddyn. Dylid nodi, fodd bynnag, y gwelwyd cynnydd sylweddol yn y boblogaeth dros 65 mlwydd oed dros y degawd diwethaf tra gwelwyd gostyngiad yn y boblogaeth oed gweithiol. Awgryma hyn fod angen tai addas ar gyfer teuleuoedd ifanc yn yr ardal. Cynigir un dynodiad tai o fewn y ganolfan. Rhagwelir y bydd gweddill yr unedau sydd eu hangen i gyflawni'r targed tai dangosol yn cael eu darparu ar safleoedd bychan a ddaw ar gael ar hap a thrwy ddefnyddio adeiladau presennol. Dylai hyn olygu y bydd tai newydd yn cael eu darparu'n gynyddrannol. Teimlir bod y lefel twf disgwyliedig ar gyfer y Ganolfan yn dderbyniol. Gellir isafu unrhyw risgiau posib drwy sicrhau bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu hymgorffori yn unrhyw gynllun am dai yma'n benodol, a thrwy hynny sicrhau bod y math o unedau tai yn diwallu anghenion aelwydydd yn yr ardal a bod cyflenwad digonol o dai fforddiadwy ar gael i bobl leol, a bod datblygiadau'n digwydd mewn camau.

**Rhosneigr**

<u>*Pwyntiau Allweddol*</u>

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 70 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 4 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Canolfan dwristiaeth bwysig.
- Proffil oed y boblogaeth yn anghytbwys gyda chyfran uchel o bobl wedi ymddeol.
- Cyfran uchel iawn o ail gartrefi yn yr ardal - 1/5 o'r holl dai yn ailgartrefu.

- Fforddiadwyedd tai yn broblem fawr yn yr ardal.
- Cyfran isel iawn o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg - 36%, sydd 34% yn is na'r trothwy 70%, o gymharu â 57.2% yn Ynys Môn.
- Gostyngiad o 13.5% yn nifer siaradwyr Cymraeg a gostyngiad o 6.6% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg yn y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran ychydig yn uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (72.5% o'i gymharu â 66.4% yng Ngwynedd).
- Adeiladwyd 117 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 9.5% o'r stoc dai yn 2011
- Mae Ysgol Gynradd Y Borth yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 8 oed. Cyfradd isel o aelwydydd ble bo'r plant yn defnyddio'r iaith Gymraeg. Cyfradd gymharol uchel o aelwydydd ble nad yw'r plant yn defnyddio'r iaith Gymraeg.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 0-19 oed wedi gostwng 16.5% tra bo canran y boblogaeth hŷn, dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 10.2% rhwng 2001 a 2011 yn y ward (Cyfrifiad 2001 & 2011). Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd gostyngiad o 10% yn nifer siaradwyr Cymraeg dros 65 mlwydd oed. Awgryma hyn fod mewnfudo o bobl ddi-Gymraeg i'r ardal yn broblem yn enwedig o ran pobl hŷn. Bydd yn bwysig hyrwyddo cyflenwad digonol o unedau tai a'r mathau angenrheidiol o dai gan gynnwys tai fforddiadwy, er mwyn cadw trigolion (yn enwedig oedolion ifanc sydd yn debygol o ddechrau teulu) yn yr ardal a denu poblogaeth weithiol.

<u>*Casgliadau*</u>

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **70 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **4 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae'r canran siaradwyr Cymraeg yn 34% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal â hyn, rhwng 2001 a 2011, gwelwyd gostyngiad o 13.5% yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan. Mae fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol yn Rhosneigr, gyda thai yn llai fforddiadwy yno nag unrhyw ardal arall yng Ngwynedd. Mae'r nifer uchel o ail gartrefi / tai haf hefyd yn broblem arwyddocaol. Dengys ffigyrau'r Cyfrifiad fod canran y boblogaeth rhwng 0-19 oed wedi gostwng 16.5% , 2001 a 2011 yn ward Rhosneigr (Cyfrifiad 2011). Awgryma hyn fod allfudo ymysg teuleuoedd gyda phlant yn broblem gyda'r prinder o dai fforddiadwy yn ffactor posib. Golyga hyn ei bod yn hynod bwysig ceisio dal gafael ar grwp hwn er mwyn cynnal yr iaith yn yr ardal. Nodir hefyd fod cyfran o bobl dros 65 mlwydd sy'n siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu 10.2% rhwng 2001 a 2011. Mae gwir angen tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol (yn enwedig, felly teuluoedd ifanc). Nid oes unrhyw safleoedd wedi'u dynodi o fewn y ganolfan. Tai fforddiadwy a thai marchnad leol yn unig a gaiff eu caniatáu yn yr anheddiad hwn dan Bolisi TAI5. Dylai hyn ei gwneud yn haws i bobl leol brynu neu rentu tai newydd yma, a ddylai, yn ei dro, gyfrannu at gael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.

**Bodedern**

<u>*Pwyntiau Allweddol*</u>

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 57 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a 4 uned tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran o ail gartrefi yn yr ardal yn is na'r gyfran sirol.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg – 70.7%, sydd ychydig yn uwch (0.7%) na'r trothwy 70%, o gymharu a 57.2% yn Ynys Mon.
- Cynnydd o 4.1% yn nifer siaradwyr Cymraeg ond gostyngiad o 1% yng nghyfran siaradwyr Cymraeg yn y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (74.9% o'i gymharu â 66.4% yn Ynys Mon).
- Tai ychydig yn fwy fforddiadwy na chyfartaledd y Sir.
- Adeiladwyd 56 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 11.6% o'r stoc dai yn 2011 .
- Mae canran y boblogaeth rhwng 0-19 a 20-29 oed wedi gostwng 14.5% a 14.1% yn eu trefn rhwng 2001 a 2011 yn y ward (Cyfrifiad 2001). Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd cynnydd o 44.5% yn y boblogaeth dros 65 mlwydd oed dros yr un cyfnod. Mae'n bwysig felly fod y boblogaeth ifanc rhwng 0-29 sy'n cynrychioli teuleuoedd ifanc yn cael eu cadw yn yr ardal ac un ffordd o wneud hyn yw drwy'r ddarpariaeth o dai addas.

<u>*Casgliadau*</u>

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **57 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaethol Lleol sydd gyfystyr a **4 uned** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Ar y cyfan, mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol gryf ym Modedern gyda chyfran uwch na'r cyfartaledd yr ynys o siaradwyr Cymraeg. Ystyrir Bodedern felly yn gadarnle'r iaith Gymraeg a dylid ystyried yn ofalus effaith datblygiadau tai ar yr ardal. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod cyfran y boblogaeth ifanc wedi gostwng yn achosi pryder. Mae fforddiadwyedd tai yn adlewyrchu'r darlun sirol. Mae'n bwysig, felly, fod y ddarpariaeth o dai yn bodloni anghenion y boblogaeth ifanc gan gynnwys teuluoedd. Cynigir un dynodiad tai o fewn y ganolfan. Rhagwelir y bydd gweddill yr unedau sydd eu hangen i gyflawni'r targed tai dangosol yn cael eu darparu ar safleoedd bychan a ddaw ar gael ar hap a thrwy ddefnyddio adeiladau presennol. Dylai hyn olygu y bydd tai newydd yn cael eu darparu'n gynyddrannol. Teimlir bod y lefel twf disgwyliedig ar gyfer y Ganolfan yn dderbyniol. Gellir isafu unrhyw risgiau posib drwy sicrhau bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu hymgorffori yn unrhyw gynllun am dai yma'n benodol, a thrwy hynny sicrhau bod y math o unedau tai yn diwallu anghenion aelwydydd yn yr ardal a bod cyflenwad digonol o dai fforddiadwy ar gael i bobl leol, a bod datblygiadau'n digwydd mewn camau.

**Asesu Pentrefi Gwasanaeth – Haen 3**

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Gwalchmai | Ynys Mon |
|---|---|---|
| % Siaradwyr Cymraeg (2011) | 67.1 | 57.2 |
| % Tai Haf / Gwyliau (cyngor | Tregwalchmai | 6.2 |

| | | |
|---|---|---|
| **cymuned) (Tachwedd 2011)** | 1.9 | |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Bryngwran 6.2 | -0.8 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Bryngwran -4.9 | -2.9 |
| **Fforddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Bryngwran 5.1 | 6.3 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | Tregwalchmai 7.4 | 5.6 |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | |

**Gwalchmai**

<u>*Pwyntiau Allweddol*</u>

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 40 uned ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a 2 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Wedi ei leoli o fewn pellter rhesymol at Langefni a Chaergybi ble ceir amrywiaeth ehangach o gyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau.
- Cyfran gymharol uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 67.1%, sydd 2.9% yn is na'r lefel lle credir gall yr iaith fod yn hyfyw (sef 70%), o gymharu â 57.2% yn Ynys Mon.
- Cynnydd o 6.2% yn nifer siaradwyr Cymraeg ond gostyngiad o 4.9% yng nghyfran siaradwyr yn y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran isel o ail gartrefi (1.9% o gymharu â 6.2% yn Ynys Mon).
- Tai ychydig yn fwy fforddiadwy nac yn Ynys Mon ar y cyfan.
- Adeiladwyd 32 o unedau rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 7.4% o'r stoc dai yn 2011.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 0-19, 20-29, 30-64 a 65+ mlwydd oed wedi cynyddu rhwng 2001 a 2011. Nodir hefyd fod cyfran siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu yn y grwpiau oed 3-15,

<u>*Casgliadau*</u>

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **40 uned** ar sail ei rôl fel Pentref Gwasanaeth, sydd gyfystyr a **2 o unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae cyfran uchel o breswylwyr Gwalchmai yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, fe welwyd gostyngiad bach (4.9%) yng nghyfran siaradwyr Cymraeg ers 2001. Ar y llaw arall, nid yw fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol ac mae canran isel iawn o ail gartrefi yn y pentref. Mae'r posibilrwydd y caiff tai newydd eu defnyddio fel ail gartrefi felly'n isel. Nodir hefyd fod y cynnydd yn y twf tai a gynigir yn y Cynllun yn llai na'r gyfradd datblygu a welwyd yn y pentref ers 2002. Cynigir un dynodiad tai ar gyfer yr anheddiad. Rhagwelir y bydd y safle yn ymdrin â'r mwyafrif o'r twf

dangosol a gyfeiriwyd at yr anheddiad. Dylai gweithredu polisïau sydd yn berthnasol â thai fforddiadwy angen lleol a'r gymysgedd o dai gynorthwyo i sicrhau y bydd y math o unedau tai yn ymdrin â'r angen lleol am dai. Felly, teimlir bod y lefel twf disgwyliedig ar gyfer y pentref yn addas.

**DOSBARTHIAD TWF ARDAL LLANGEFNI**

**Asesu Canolfannau Gwasanaeth Trefol – Haen 1**

**LLANGEFNI**

- Oherwydd y nifer o wahanol wasanaethau a chyfleusterau mae wedi ei adnabod fel Canolfan Gwasanaeth Trefol.
- I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl presennol y ganolfan cafodd lefel twf dangosol o **673** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Llangefni (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 – 2026).

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Llangefni | Ynys Mon |
|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 80.3 | 57.2 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | 1.1 | 6.2 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Cyngar 10.6<br>Cefni 0.8<br>Tudur 1.4 | -0.8 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Cyngar -3.9<br>Cefni -2.6<br>Tudur -2.9 | -2.9 |
| **Forddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Cyngar 6.8<br>Cefni 6.2<br>Tudur 5.9 | 6.3 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 9.9% | 5.6% |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | |

*Pwyntiau Allweddol*

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 673 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Trefol, sydd gyfystyr a 44 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 80.3%, sydd 10.3% yn fwy na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 57.2% yng Ngwynedd.

- Amrywiaeth yn hyfywdra'r iaith Gymraeg o fewn Llangefni. Cynnydd o 10.6% yn nifer siaradwyr Cymraeg ward Cyngar a chynnydd o 0.8% yn ward Cefni rhwng 2001 a 2011.
- Fforddiadwyedd tai yn debyg i'r patrwm sirol.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (82.7% o'i gymharu â 66.4% yn Ynys Mon).
- Darparwyd 239 o unedau tai newydd yng nghyngor cymuned Llangefni rhwng 2002 a 2011 gyda tai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 9.9% o'r stoc dai yn 2011.
- Nodir fod canran newydd-ddyfodwyr Llangefni wedi cynyddu 9.8% rhwng 1991 a 2001 (ffigyrau mudo lefel ward 2011 ddim ar gael ar hyn o bryd), sy'n cymharu â gostyngiad o 3.5% yn Ynys Môn. Nodir fod canran y boblogaeth a aned yng Nghymru ac sy'n siarad Cymraeg yn gymharol uchel (92%) o gymharu ag Ynys Môn sef 78.2% yn 2011.

- Cyfradd isel o ail gartrefi yn yr ardal.

<u>*Casgliadau*</u>

*I gyd fynd a strategaeth y Cynllun a rôl bresennol y ganolfan cafodd lefel twf dangosol o **673** o unedau tai ei adnabod ar gyfer Llangefni (hyn yn cynnwys ffigwr o 10% llithriad) yn ystod oes y Cynllun (2011 - 2026).*

Mae lleoliad y ganolfan ynghyd a'r cysylltiadau da i ardaloedd ehangach ar yr Ynys yn gwneud Llangefni yn le poblogaidd i fyw ynddi. Mae Llangefni'n ganolfan gymharol fawr yn Ynys Mon gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a gwasanaethau yn ogystal â chyfleon cyflogaeth amrywiol. Mae statws yr iaith Gymraeg yn iach iawn yn Llangefni gyda chyfradd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal - 80.3%, sydd 10.3% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Er fod tai ar gyfartaledd yn llai fforddiadwy nag yn Ynys Mon gyfan fe gynyddodd nifer siaradwyr Cymraeg tra gwelwyd gostyngiad bach yng nghyfran siaradwyr yr iaith. Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol yn Llangefni ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel. Fel Canolfan, mae'n darparu nifer o gyfleodd cyflogaeth (diwydiannol, masnachol, manwerthu, hamdden ac ati). Bydd yn bwysig sicrhau bod cyflogwyr yn darparu cyfleoedd i gynnal a chryfhau'r iaith Gymraeg. Mae chwe safle wedi'u dynodi ar gyfer tai o fewn y Ganolfan. Disgwylir y bydd pob safle yn gwireddu cyfran o dai fforddiadwy angen lleol ac amrediad addas o fathau o dai (maint, nifer yr ystafelloedd gwely). Wrth ystyried y ffactorau uchod, ystyrir na fyddai lefel twf disgwyliedig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith, yn enwedig gydag ymgorfforiad mesurau lliniaru priodol fel datblygu gam wrth gam, cymysgedd priodol o dai a'i gwneud hi'n ofynnol am gyfraniadau gan ddatblygwyr er mwyn darparu neu fwyhau isadeiledd.

**Diffinio Ardal**

- Trafodaethau blaenorol wedi ategu pwysigrwydd cadw twf Canolfannau Gwasanaeth Trefol o fewn dalgylch y ganolfan honno.
- Ceir is-ardaloedd ar sail pellteroedd o ganolfannau Trefol/Is-Ranbarthol eraill, Ardal Marchnad Tai, Ardal Teithio i'r Gwaith, Dalgylch Ysgolion Uwchradd ac ardal Cynllun Gofodol Cymru.

- O gyfuno rhain ceir 1 Canolfan Gwasanaeth Lleol o fewn neu rhwng Llangefni a Chanolfan Trefol arall sef Gaerwen.

**Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2**

| DANGOSYDDION ALLWEDDOL | Gaerwen | Ynys Mon |
|---|---|---|
| **% Siaradwyr Cymraeg (2011)** | 76.5 | 57.2 |
| **% Tai Haf / Gwyliau (cyngor cymuned) (Tachwedd, 2011)** | Llanfihangel Ysgeifiog 2.4 | 6.2 |
| **% Newid 2001-2011 (nifer o siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Llanfihangel Ysgeifiog -3.2 | -0.8 |
| **% Newid 2001-2011 (newid yng nghanran siaradwyr Cymraeg) (ward)** | Llanfihangel Ysgeifiog -2.5 | -2.9 |
| **Forddiadwyedd tai (2012) (ward)** | Llanfihangel Ysgeifiog 4.4 | 6.3 |
| **Twf Adeiladu (unedau newydd rhwng 2002 a 2011)* (cyngor cymuned)** | 8.6% | 5.6% |
| **- nifer o unedau newydd a gafodd eu hadeiladu rhwng 2002 a 2011 fel canran o'r stoc dai.* | | |

**Gaerwen**

<u>*Pwyntiau Allweddol*</u>

- Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = 58 uned ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a 4 unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.
- Cyfran uwch o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg 76.5%, sydd 6.5% yn uwch na'r trothwy 70% (sef lefel lle rhagwelir fod yr iaith yn hyfyw), o gymharu â 57.2% yn Ynys Mon.
- Gostyngiad o 3.2% yn nifer siaradwyr Cymraeg y ward rhwng 2001 a 2011.
- Cyfran uwch o bobl wedi eu geni yng Nghymru (78.1% o'i gymharu â 66.4% yn Ynys Mon).
- Adeiladwyd 65 o unedau yn yr anheddle rhwng 2002 a 2011 gyda thai newydd a adeiladwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynrychioli 8.6% o'r stoc dai yn 2011.
- Tai yn fwy fforddiadwy yn yr ardal nag yng ngweddill Ynys Mon.
- Mae Ysgol Gynradd Esceifiog yn darparu addysg Gymraeg i blant rhwng 3 ac 8 oed ac mae cyfran gymharol uchel o aelwydydd ble bo'r plant yn defnyddio'r iaith yn y cartref.
- Mae canran y boblogaeth rhwng 0-19 oed wedi gostwng 12.4% tra bo canran y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 31.6% rhwng 2001 a 2011 yn y ward. Yn arwyddocaol hefyd, gwelwyd ostyngiad o 21% yn y nifer o siaradwyr Cymraeg rhwng 3-15 mlwydd oed. Fe fydd yn

bwysig hyrwyddo cyflenwad digonol o unedau tai a'r mathau angenrheidiol o dai gan gynnwys tai fforddiadwy, er mwyn cadw trigolion yn enwedig oedolion a theuleuoedd ifanc yn yr ardal a denu poblogaeth gweithiol.

*<u>Casgliadau</u>*

*Lefel twf disgwyliedig yn y Cynllun = **58 uned** ar sail ei rôl fel Canolfan Wasanaeth Lleol, sydd gyfystyr a **4 unedau** tai'r flwyddyn ar gyfartaledd.*

Mae statws yr iaith Gymraeg yn gymharol iach yng Ngaerwen, gyda chyfradd uchel o siaradwyr yn byw yn y ganolfan - 76.5%, sydd 6.5% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw. Yn ogystal, nodir nad yw fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol yn y pentref. Er hyn, fe welwyd gostyngiad bach yn nifer a chyfradd siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011. Mae yna ysgol gynradd yno a chyfleon i reoli cyfnod adeiladu ar ambell safle yn ogystal â'r math o unedau tai. Yn wahanol i ganolfannau o'r un lefel hierarchaeth, mae cyfleon cyflogaeth eang yn yr ardal sy'n rai gydol y flwyddyn. Nid oes unrhyw safleoedd wedi'u dynodi ar gyfer tai yng Ngaerwen. Disgwylir i'r targed tai dangosol gael ei gyflawni ar safleoedd gyda chaniatâd cynllunio presennol ac ar safleoedd / adeiladau a ddaw ar gael ar hap. Bydd yn bwysig sicrhau bod cyflogwyr, ac yn enwedig cyflogwyr newydd, yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn yr amgylchedd gwaith. .

**ATODIAD 3 –AEIG O BOLISÏAU MANWL**

| **1) A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at gynnydd/gostyngiad poblogaeth a allai:** |
|---|
| *a) effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg / Saesneg neu ii)* |
| *b) arwain at ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg?* |
| Ystyriwyd symudiad poblogaeth wrth baratoi'r Cynllun sy'n dod i'r amlwg. Mae angen cyffredinol am fwy o dai i fodloni anghenion y boblogaeth gynyddol. Caiff rhai mathau o ddatblygiad, yn enwedig tai, ddylanwad uniongyrchol ac anuniongyrchol ar boblogaeth ardal o ran niferoedd a chyfansoddiad. Gall datblygiadau newydd, gan gynnwys tai, arwain at fewnlifiad o drigolion di-Gymraeg i'r ardal, a heb reolaeth fe all danseilio cymunedau llai sydd yn rhai iaith Gymraeg yn bennaf. Ar y llaw arall, efallai y caiff y lefel twf tai effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg wrth i brisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy helpu i gadw'r boblogaeth bresennol. Mae'r Cynllun yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd tai i gwrdd ag anghenion y gymuned leol, yn enwedig anghenion pobl ifanc a'r henoed. Yn wir, mae Polisi Cynllunio Cymru yn adnabod pwysigrwydd darparu cyflenwad ddigonol o dai addas er mwyn sicrhau fod cymunedau'n cynaladwy. |

Mae polisïau tai manwl (TAI1 - TAI19) yn hwyluso'n uniongyrchol nifer digonol o dai i fodloni anghenion cymunedau lleol o ran math a daliadaeth i gwrdd ag anghenion pob rhan o'r boblogaeth, gan gynnwys tai i bobl hŷn. Bydd y polisïau'n hwyluso tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol, tai marchnad lleol, tai marchnad agored a lletai wedi eu dylunio yn arbennig ar gyfer y genhedlaeth hŷn. Bydd hyn yn helpu creu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol, ac ynghyd â pholisïau eraill yn y Cynllun a chynlluniau a strategaethau'r ddau Gyngor helpu i gadw'r boblogaeth bresennol a lleihau allfudo.

Mae polisïau sy'n ymwneud â datblygu economaidd, a welir ym Mhennod 7.3, yn hwyluso'r ddarpariaeth o gyfleoedd economaidd ledled yr ardal. Dylai hyn hefyd helpu i gadw pobl ifanc mewn cymunedau, yn enwedig rhai o'r cymunedau mwy gwledig, a thrwy hynny gynnal neu wella cydbwysedd demograffig o fewn cymunedau.

Mae Polisïau SP1, SP2 and ISA1 a welir ym Mhennod 7.1, yn darparu fframwaith gadarn i sicrhau fod datblygiad yn cynnwys mesurau gwella i gyfrannu at ddiogelu a mwyhau'r iaith Gymraeg.

At ei gilydd, felly, ystyrir nad yw'r polisïau manwl fel yr amlinellir hwy yn y Cynllun sy'n dod i'r amlwg, a thrwy weithio mewn aluniad â mentrau a hyrwyddir gan Hunaniaith a Menter Iaith Môn yn debygol o achosi cynnydd/gostyngiad poblogaeth sylweddol a allai effeithio ar gydbwysedd siaradwyr Cymraeg/ Saesneg.

**2) A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at fwy o fewnfudo?**

Dylai dosbarthiad cymesur o ddatblygiad ar hyd a lled ardal y Cynllun, yn cynnwys y cefn gwlad, helpu i gefnogi bywiogrwydd cymunedol drwy ddarparu tai, cyfleusterau a gwasanaethau yn lleol lle bo'u hangen, a rhai sy'n hygyrch trwy amrywiaeth o ddulliau cludiant. Yn ei dro, dylai hyn hyrwyddo cadw'r boblogaeth frodorol , ac felly'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

Mae polisïau tai manwl (TAI/ 1 - TAI/ 19) yn hwyluso'n uniongyrchol nifer digonol o dai i fodloni anghenion cymunedau lleol o ran math a fforddiadwyedd. Maent hefyd yn hwyluso datblygu amrediad o fathau o dai a daliadaethau i gwrdd ag anghenion pob rhan o'r boblogaeth gan gynnwys tai i bobl hŷn. Bydd hyn yn helpu creu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol, gan helpu i gadw'r boblogaeth bresennol a lleihau allfudo.

Mae polisïau cyflogaeth hefyd yn ceisio diogelu safleoedd neu wneud dyraniadau cyflogaeth penodol. Caiff cyfleoedd priodol ar raddfa fach hefyd eu cefnogi oddi mewn ac o amgylch pentrefi, clystyrau a chefn gwlad. Dylai hyn helpu i gadw pobl ifanc yn eu cymunedau, a thrwy hynny fod o fudd i'r iaith Gymraeg.

Mae'n bwysig cofio nad cynyddu'r stoc tai mewn ardal yw'r unig ffactor sy'n cyfrannu at fewnfudiad. Nid yw'n golygu fod y mewnfudwyr hynny ddim yn siaradwyr Cymraeg ychwaith. Gall cynyddu'r stoc tai helpu pobl leol i aros yn eu cymunedau ac ar yr un pryd ddenu pobl leol sydd wedi symud i ffwrdd yn y gorffennol i ddychwelyd i'r ardal.

| 3) A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at allfudo? |
|---|
| Gweler maen prawf 2 uchod. |

| 4) A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at newid strwythur oed y gymuned? |
|---|
| Bydd polisïau manwl yn y Cynllun yn anelu at ymdrin ag anghenion grwpiau oedran gwahanol o fewn cymunedau. Bydd polisïau tai yn hwyluso datblygiad a dylent roi sylw i anghenion tai grwpiau oedran gwahanol. Bydd cyfran o gartrefi newydd yn 'dai fforddiadwy', yn amodol ar hyfywedd. Mae polisïau TAI 1 (Cymysgedd Tai Priodol), TAI5 (Tai Marchnad Leol) a TAI9 (Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy), sy'n hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy trwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella'r cydbwysedd o dai ac yn cwrdd ag anghenion a nodwyd ar gyfer y gymuned gyfan, yn arbennig o berthnasol. Mae Polisi - TAI4 (Cartrefi Gofal Preswyl, Tai Gofal Ychwanegol neu Lety Gofal Arbenigol ar gyfer yr henoed) yn uniongyrchol yn ymdrin ag anghenion tai pobl hŷn. Bydd polisïau seilwaith yn hwyluso darparu gwasanaethau a chyfleusterau priodol ar gyfer pobl o grwpiau oedran gwahanol, a dylai hynny wella lles a bywiogrwydd cymunedol.<br><br>Nod y Cynllun yw diogelu a dynodi safleoedd cyflogaeth (Polisi CYF1) a hwyluso twf economaidd mewn ardaloedd trefol a gwledig, a ddylai helpu i gadw poblogaeth oedran gweithio yn ogystal â phobl ifanc yn eu cymunedau gan wella lles cymunedol. Bydd polisïau cludiant cynaliadwy o fudd i grwpiau oedran iau a hŷn, drwy sicrhau bod mynediad at wasanaethau yn haws, yn enwedig mewn cymunedau gwledig. Felly, fe ddylai'r Cynllun, ynghyd â strategaethau a chynlluniau eraill, sy'n cynnwys Rhaglen Ynys Ynni Môn, gael effaith bositif ar strwythur oed y gymuned, drwy atal all-lifiad cartrefi oed gweithio. |

| 5) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar iechyd pobl leol? |
|---|
| Mae'r Cynllun yn hwyluso datblygu safleoedd at ddibenion tai a chyflogaeth i ddiwallu'r angen a nodwyd. Ni ystyrir bod y datblygiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar iechyd a lles y boblogaeth leol. Dylai'r rhan fwyaf o bolisïau'r Cynllun ddiogelu a gwella ymhellach iechyd a lles y boblogaeth breswyl drwy gryfhau cymunedau, darparu gwasanaethau a seilwaith, a hwyluso datblygiad economaidd.<br><br>Mae hwyluso ffordd o fyw gwell ar gyfer poblogaeth Ynys Môn a Gwynedd yn amcan pwysig yn y Cynllun. Drwy weithredu polisïau manwl, bydd y CDLl ar y Cyd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn effeithio ar iechyd a lles trigolion trwy effaith datblygiadau, gan gynnwys darparu datblygiadau tai a chyflogaeth newydd, cynlluniau cludiant, cyfleusterau cymunedol newydd a defnyddiau tir eraill.<br><br>Bydd y Cynllun hefyd yn cynnwys polisïau cynllunio a mynediad er mwyn helpu cyflawni amgylcheddau iach a chynaliadwy. Bydd polisïau ISA1 (Darpariaeth Isadeiledd) ac ISA2 (Cyfleusterau Cymunedol) yn ystyried effaith datblygiadau ychwanegol trwy sicrhau gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol newydd a gwell lle bo hynny'n briodol.<br><br>Canlyniadau cadarnhaol posibl y Cynllun ar ffyrdd o fyw unigol fydd anogaeth a hyrwyddo gweithgarwch corfforol drwy wella mynediad at fannau agored a hefyd drwy warchod adnoddau hamdden o'r fath (Polisi ISA/4 Diogelu Mannau Agored Presennol). Bydd hyn yn gwella iechyd corfforol a meddyliol y boblogaeth. Yn ogystal, bydd hwyluso datblygu mewn ardaloedd gwledig yn |

caniatáu gwell mynediad i gefn gwlad, a ddylai fod o fudd iechyd a lles cyffredinol.

Hefyd bydd polisïau sy'n gwella cysylltiadau trafnidiaeth a hyrwyddo cludiant cynaliadwy (Polisïau TA1 - Datblygiadau Rhwydwaith Trafnidiaeth a TRA/ 4 - Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth), yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol unigol. Mae polisïau manwl yn cydnabod yr angen i ddarparu dulliau amgen ymarferol o ran trafnidiaeth er mwyn hwyluso gostyngiad yn y defnydd o gerbydau a hyrwyddo beicio a cherdded, a ddylai gyfrannu at wella iechyd corfforol trigolion.

**6) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar fwynder yr ardal leol?**

Bydd y Cynllun yn sicrhau bod y datblygiad yn gydnaws o ran ei agosrwydd at ddefnyddiau tir cyfagos, ac mae'n dilyn egwyddorion datblygiad cynaliadwy, er enghraifft, trwy flaenoriaethu datblygu tir llwyd yn hytrach na safleoedd maes glas, ac annog defnyddio cludiant cynaliadwy. Mae'r Cynllun yn anelu at gynnal cymeriad cymysg trefol/gwledig arbennig ardal y cynllun yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol unigryw. Bydd cymeriad unigol a rolau cyflenwol canol trefi yn cael eu gwella trwy ddatblygu, gwelliannau i dir y cyhoedd, ac i gyfleusterau cludiant cyhoeddus.

Mae polisïau manwl yn y Cynllun yn ymdrin â'r angen i warchod a gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig presennol. Yn arbennig o berthnasol yw Polisi PCYFF1, sy'n gofyn am ddatblygiad i gyd-fynd â pholisi cynllunio cenedlaethol sydd yn ei dro yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygiadau gydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol fod yn eu lle i warchod a mwyhau adeiladau a safleoedd wedi eu nodi oherwydd eu pwysigrwydd fel asedau treftadaeth neu i gadwraeth natur. Mae Polisi AT2 (Galluogi Datblygu) yn sicrhau datblygiadau a all fod eu hangen i ddiogelu a chadw adeiladau rhestredig pwysig. Hefyd mae Polisi PCYFF2 (Dylunio a Llunio Lle) yn anelu at wella'r amgylchedd adeiledig presennol lle rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu tir llwyd yn hytrach na maes glas lle bo modd. Dylai polisïau o'r fath gael effaith fuddiol ar yr amgylchedd adeiledig. Mae'r Cynllun yn anelu at gynnal cymeriad cymysg trefol/gwledig arbennig yr ardal a bydd rolau cyflenwol y canol trefi yn cael eu gwella drwy ddatblygu a gwelliannau i dir y cyhoedd.

Mae Polisi ISA1 Darpariaeth Seilwaith yn hwyluso datblygiad gwahanol amwynderau cyhoeddus gan ddatblygwyr lle bo darpariaeth yn annigonol. Yn ogystal, mae Polisi ISA/5 yn hwyluso'n uniongyrchol datblygu mannau agored mewn tai newydd, yn achos datblygiadau o 10 neu fwy o anheddau. Dylai'r ddau bolisi arwain at effaith gadarnhaol yn erbyn y cymeriad hwn.

Felly, gyda'i gilydd, dylai'r polisïau manwl gynnal neu fwyhau'r priodweddau sy'n gwneud i'r ardal fod yn le deniadol i fyw a gweithio ynddi.

**7) A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at y bygythiad o fwy o droseddu neu drais yn y gymuned?**

Ni ragwelir bod polisïau manwl y Cynllun yn debygol o arwain at y bygythiad o fwy o droseddu neu drais yn y gymuned. Mae polisïau a gynhwyswyd yn y Cynllun, yn enwedig Polisi PCYFF/2 (Dylunio a Llunio Lle) yn ymdrin yn uniongyrchol â materion megis dyluniad, y maes cyhoeddus, cludiant cyhoeddus ac ofn trosedd.

**8) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar fusnesau lleol?**

| |
|---|
| Diffyg cyfleoedd economaidd yw un o'r prif resymau pam fod pobl ifanc yn mudo, felly bydd polisïau sy'n hwyluso'r ddarpariaeth o gyfleoedd newydd yn helpu i gadw'r boblogaeth ifanc yn eu cymunedau. Mae polisïau economaidd a manwerthu manwl (yn enwedig polisïau CYF1, CYF 6, CYF 7 a CYF 8) yn cefnogi datblygiad economaidd ar draws Ardal y Cynllun, a fydd yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol. Bydd y polisïau hyn yn cynyddu cynnyrch economaidd amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu nifer y swyddi yn ogystal â darparu ar gyfer ffurfio busnesau newydd. Bydd polisïau twristiaeth yn helpu i hyrwyddo a chynnal diwydiant twristiaeth lewyrchus, a fydd yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth i gymunedau lleol. Bydd atyniadau a chyfleusterau newydd yn helpu i sicrhau cyflogaeth a chreu incwm. Dylai'r rhain gael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar grwpiau cysylltiedig ag incwm, gan gynnwys grwpiau incwm isel a'r di-waith, ac yn y pen draw helpu i gadw'r gweithlu presennol sy'n siarad Cymraeg. Dylai gweithrediad Polisi ISA1 ddarparu ar gyfer amrywiaeth o fecanweithiau cynllunio, a all gyfrannu at sicrhau fod busnesau yn datblygu mewn ffordd sy'n fuddiol i'r iaith. |
| **9) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar swyddi lleol?** |
| Gweler maen prawf 8 uchod. |
| **10) A yw'r strategaeth yn debygol o arwain at fwy o amrywiaeth economaidd?** |
| Gweler maen prawf 8 uchod. |
| **11) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar lefelau cyflogau yn lleol?** |
| Gweler maen prawf 8 uchod. |
| **12) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar bris cyfartalog tai?** |
| Dylai gweithredu'r amrywiaeth o bolisïau yn y Cynllun gynyddu argaeledd, fforddiadwyedd a'r ystod o dai yn Ardal y Cynllun.<br><br>Mae'r strategaeth dai yn hwyluso'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy o ddyluniad a maint priodol. Yn seiliedig ar y senario twf a ffefrir (7184 yn ogystal â lwfans llithriad o 10%) yn ystod 2011-2026 yn ardal y cynllun, mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer cyfradd uwch o ddatblygiad realistig/hylaw nag a gafwyd dros y ddegawd ddiwethaf. Bydd cyfran o'r cartrefi newydd yn dai fforddiadwy, yn amodol ar hyfywedd. Dylai hyn ei gwneud yn haws i ddarpar berchnogion tai brynu neu rentu cartrefi newydd, yn enwedig felly trigolion gyda chysylltiadau lleol. Bydd hwyluso tai ar draws Ardal y Cynllun yn rhoi mwy o ddewis a mwy o hyblygrwydd i bobl aros yn eu cymunedau. Dylai'r polisïau manwl canlynol sydd yn y Cynllun helpu i hyrwyddo datblygu tai fforddiadwy sy'n diwallu gofynion y boblogaeth leol:<br><br>Mae'r Cynllun yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu cyfleoedd tai i gwrdd ag anghenion y gymuned leol. Bydd cyfran o gartrefi newydd yn 'dai fforddiadwy' yn amodol ar hyfywedd. Mae polisïau TAI1 (Cymysgedd Tai Priodol), TAI5 (Tai Marchnad Leol) a TAI9 (Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy), TAI10 (Safleoedd Eithrio) sy'n hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy trwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella'r cydbwysedd o dai ac yn cwrdd ag anghenion a nodwyd ar gyfer y gymuned gyfan, yn arbennig o berthnasol. Bydd y Cynghorau yn ceisio sicrhau |

lefel briodol o dai fforddiadwy ar draws ardal y cynllun trwy weithio mewn partneriaeth â Darparwyr Cofrestredig, datblygwyr a chymunedau lleol i gwrdd â'r targed lleiaf a gyflwynir ym mholisi strategol PS14.

**13) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar ysgolion lleol?**

Gall cadw pobl ifanc yn eu cymunedau a chynnydd yn y gweithlu, ynghyd â darparu tai mewn ardaloedd gwahanol, effeithio ar ddarpariaeth addysg. Ymgynghorwyd â Gwasanaethau Addysg y ddau Gyngor i sicrhau nad yw'r datblygiad yn gorlwytho capasiti ysgolion yn ardal y Cynllun.

Gall datblygiad o dai ychwanegol yn nalgylchoedd ysgolion roi rhoi pwysau ychwanegol ar eu gallu i weithredu'n effeithiol, oherwydd y plant ychwanegol a fydd angen cefnogaeth. Er mwyn goresgyn hyn, mae Polisi ISA1 yn sicrhau lle bo datblygiad yn creu angen uniongyrchol am gyfleusterau addysg newydd neu well, yna bydd disgwyl i ddatblygwyr gyfrannu at ariannu drwy ymrwymiadau oni bai fod ffactorau hyfywdra yn dangos i'r gwrthwyneb. Ar ben hynny, mae Polisi ISA3 yn cefnogi ceisiadau datblygu am gyfleusterau neu estyniadau newydd i adeiladau presennol i ddibenion academaidd a chymorth. Mae'r effaith gyffredinol ar y maen prawf hwn, felly, yn gadarnhaol.

**14) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar wasanaethau gofal iechyd?**

Cydnabyddir bod cynnydd yn y boblogaeth breswyl yn debygol o roi pwysau ychwanegol ar allu cyfleusterau gofal iechyd presennol. O ganlyniad, mae potensial i'r cynnydd hwn mewn trigolion roi pwysau annerbyniol ar y gwasanaethau iechyd, gan arwain at wasanaeth gwaeth. Ar y llaw arall, bu darpariaeth gofal iechyd yn ystyriaeth bwysig fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun. Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o bolisïau sy'n hwyluso mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau. Ceisia'r Cynllun ddiogelu cyfleusterau cymunedol trwy ei bolisïau seilwaith. Yn ogystal, ceisir gwasanaethau a chyfleusterau newydd neu well pan fo datblygiad newydd yn cynyddu'r galw ar gyfleusterau presennol, a/neu pan nodir prinder cyfleusterau yn unol â Pholisi ISA2 (Darpariaeth Seilwaith). Mae'r Cynllun hefyd yn anelu at leoli datblygiadau mewn lleoliadau cynaliadwy, mewn ardaloedd gyda gwasanaethau a chyfleusterau sydd eisoes yn bodoli.

O ran gwasanaethau gofal eraill, mae Polisi TAI/4 yn hwyluso datblygu cartrefi gofal preswyl, tai gofal ychwanegol a llety gofal arbenigol.

**15) A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar ddarparu gwasanaethau lleol megis siopau?**

Mae polisïau economaidd a manwerthu manwl (yn enwedig polisïau CYF/ 1, CYF/ 6, CYF/ 7 a CYF/ 8) yn cefnogi datblygiad economaidd ar draws Ardal y Cynllun, a fydd yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar wasanaethau a siopau lleol. Bydd y polisïau hyn yn cynyddu cynnyrch economaidd amrywiaeth o sectorau, gan gynyddu nifer y swyddi yn ogystal â darparu ar gyfer ffurfio busnesau newydd. Bydd polisïau twristiaeth yn helpu i hyrwyddo a chynnal diwydiant twristiaeth lewyrchus, a fydd yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth i gymunedau lleol. Bydd atyniadau a chyfleusterau newydd yn helpu i sicrhau cyflogaeth a chreu incwm. Dylai'r rhain gael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar grwpiau cysylltiedig ag incwm, gan gynnwys grwpiau incwm isel a'r di-waith. Mae Polisi MAN4 yn hwyluso gwarchod siopau pentref a thafarndai, fydd yn ei dro'n cryfhau hyfywdra cymunedau, yn arbennig mewn aneddleoedd llai.

| | 
| --- |
| **16) A fydd y strategaeth o bosibl yn arwain at densiynau cymdeithasol, gwrthdaro neu raniadau difrifol o fewn y gymuned sy'n siarad Cymraeg?** |
| Mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau y bydd y datblygiad yn cael ei ddosbarthu i gryfhau rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'r rolau a nodir yn hierarchaeth aneddiadau'r Cynllun. Bydd y dull hwn yn helpu i gynnal cymeriad cymysg trefol/gwledig arbennig ardal y cynllun yn ogystal â'i chymeriad ieithyddol a diwylliannol unigryw.<br><br>Mae'r Cynllun, trwy amrywiol ddyraniadau tir, yn anelu at ddiwallu anghenion lleol, ac yn achos tai, drwy sicrhau bod yr ystod a dewis o dai sydd ar gael yn ddigon i ateb gofynion lleol. Bydd y ddarpariaeth o dai fforddiadwy a gaiff ei hwyluso trwy Bolisi TAI/8 (Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy) yn galluogi grwpiau amrywiol i gael cartrefi addas ac felly integreiddio o fewn cymunedau, a thrwy hynny leihau gwrthdaro a rhaniadau o fewn cymunedau. Mae Polisi Tai TAI/1 (Cymysgedd Tai Priodol) yn hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy trwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn cwrdd ag anghenion a nodwyd ar gyfer y gymuned gyfan. Dim ond mewn aneddiadau penodol y mae Polisi TAI/5 (Tai Marchnad Leol) yn hyrwyddo tai marchnad leol a thai fforddiadwy, gyda'r nod o ymdrin â'r anghydbwysedd o fewn y marchnadoedd tai lleol a chynnal a chryfhau cymunedau bregus. Dylai hyn helpu i leihau tensiynau cymdeithasol o fewn cymunedau.<br><br>Yn ychwanegol, dylai polisïau sy'n ymwneud â chyfleusterau a seilwaith cymunedol hwyluso gwell rhyngweithio cymdeithasol a thrwy hynny wella cydlyniant o fewn cymunedau. Yn arbennig o berthnasol mae Polisïau ISA2 (Cyfleusterau Cymunedol) ac ISA1 (darpariaeth Seilwaith) sy'n hwyluso'r gwaith o amddiffyn a datblygu cyfleusterau cymunedol a seilwaith yn ardal y Cynllun. |
| **17) A fydd y strategaeth o bosibl yn arwain at newidiadau mewn traddodiadau/ diwylliannau Cymreig?** |
| Ar y cyfan, mae'r Polisïau a gynhwysir yn y Cynllun yn annhebygol o arwain at newidiadau sylweddol mewn traddodiadau a diwylliannau Cymreig lleol, a allai gael effaith niweidiol ar yr iaith. Fel y trafodwyd yn yr adrannau blaenorol, mae'r Cynllun sy'n dod i'r amlwg yn helpu i gadw trigolion ifanc sy'n siarad Cymraeg yn eu cymunedau, drwy hwyluso datblygu tai fforddiadwy a thrwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth.<br><br>Mae polisïau tai yn hwyluso datblygiad cymesur o dai mewn ardaloedd gwledig a threfol a fydd yn cryfhau'r rhwydwaith o aneddiadau yn unol â'u rolau. Bydd y dull hwn yn helpu cynnal cymeriad diwylliannol arbennig ardal y Cynllun. Bydd darparu tai fforddiadwy a hwylusir trwy Bolisi TAI/9 yn galluogi grwpiau amrywiol i gael tai priodol a thrwy hynny integreiddio o fewn cymunedau.<br><br>Hefyd mae bywiogrwydd a hyfywedd cymunedol yn cael ei wella drwy wahanol bolisïau'r Cynllun. Dylai'r rhain helpu cefnogi mentrau sy'n adeiladu cymunedau sefydlog, diogel, iach a chryf, sy'n golygu parchu a gwella'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Yn arbennig o berthnasol mae Polisïau ISA2 (Cyfleusterau Cymunedol) ac ISA1 (Darpariaeth Isadeiledd) sy'n hwyluso'r gwaith o amddiffyn a datblygu cyfleusterau cymunedol a seilwaith yn ardal y Cynllun. |
| **18. A yw'r strategaeth yn debygol o gael effaith ar grwpiau gwirfoddol / gweithgareddau /** |

| **ieuenctid lleol?** |
|---|
| *a) Gorfodi pobl leol sy'n weithgar mewn grwpiau lleol i symud o'u cymunedau oherwydd:*<br>• *Cynnydd mewn diweithdra / straen economaidd?*<br>• *Cynnydd mewn prisiau tai /straen tai?* |
| Gweler meini prawf 9 ac 12 uchod. |

**ATODIAD 4: MUDIADAU CYMRAEG**

Mae'r tabl isod yn darparu rhai engrheifftiau o gyfleoedd cymdeithasol a chreadigol drwy'r Gymraeg sy'n bodoli.  Mae'r tabl yn dangos fod presenoldeb gryf o fudiadau Cymraeg traddodiadol yn y siroedd sy'n helpu i hyrwyddo diwylliant  a rhwydweithiau creadigol Cymraeg ynghŷd â hyrwyddo profiad o fod yn ran o gymunedau bywiog.

| Mudiad/Gweithgaredd | Notes |
|---|---|
| Efo Babi? Efo Pram? | Teithiau cerdded i rieni â phlant ifanc ar hyd llwybrau arfordirol Môn. Pwrpas y prosiect yw darparu cyfleoedd i rieni sgwrsio yn Gymraeg gyda'i gilydd, hyrwyddo cadw'n heini a darparu cyfleoedd a chymorth i rieni sydd yn dysgu Cymraeg ac yn ddi-gymraeg. Gweithredir y prosiect gan Fenter Iaith Môn mewn partneriaeth â THWF a Chyngor Sir Ynys Môn (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 17). |
| Amser Tŵf | Sesiwn mwytho babi, canu hwyangerddi a storïau drwy gyfrwng y Gymraeg, cyfle am baned yn y sesiwn, dod i adnabod Cymry Cymraeg, ag iddynt hwy |

| | |
|---|---|
| | drosglwyddo'r iaith i fabis o deuluoedd di-gymraeg (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 4). |
| Rhannu Rhigwm | Mae Swyddogion TWF yn cynnal sesiynau Rhannu Rhigwm, mewn patrwm â phartneriaid eraill, ymhob llyfrgell sy'n ei gynnal yn wythnosol, canu a storïau (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 4). |
| Clybiau Babi | Rhain yn eu harwain gan ymwelwyr iechyd, ond yn gwahodd amryw o wahanol sefydliadau i'r grŵp yn achlysurol. Cyfle i drosglwyddo'r neges, a rhoi esiampl ar sut i drosglwyddo'r Iaith, sesiwn canu, stori, a dangos esiamplau Cyw, llyfrau, rhoi cyngor ar gylchoedd Ti a Fi a chylchoedd meithrin iddynt fynychu (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 4). |
| Cylchoedd Ti a Fi | Pwrpas cylch Ti a Fi yw rhoi cyfle i rieni neu warchodwyr gwrdd yn rheolaidd i fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu dros baned neu ddisgled o de! Mae'r cylchoedd Ti a Fi yn cynnig gweithgareddau sy'n helpu datblygiad plant o enedigaeth hyd at oed ysgol. Mae'n gyfle gwych i rieni/gwarchodwyr gwrdd i rannu profiadau a chymdeithasu mewn awyrgylch Gymreig.<br>Wrth fynd i'r cylch Ti a Fi bydd plant yn cael cyfle i:<br>▯ fwynhau chwarae a gneud ffrindiau bach newydd<br>▯ chwarae gyda phob math o deganau<br>▯ dysgu caneuon bach syml y gall y teulu eu canu gyda'i gilydd gartref<br>▯ gwrando ar storiau<br>▯ chwarae gyda thywod a chlai (Mudiad Meithrin, Ar-lein) |
| Cylchoedd Meithrin | Nod y cylch meithrin yw hyrwyddo addysg a datblygiad plant o ddwy flwydd oed hyd at oed ysgol. Mae cyfle i blant gymdeithasu a dysgu trwychwarae dan arweiniad staff proffesiynol, cymwys a brwdfrydig.<br>▯ Mae dros 500 o gylchoedd meithrin yng Nghymru<br>▯ Mae tua 13,000 o blant yn mwynhau dysgu trwy chwarae yn y cylchoedd meithrin<br>▯ Cymraeg yw iaith y cylch meithrin ond mae croeso i bob plentyn yn y cylch dim ots beth yw'r iaith sy'n cael ei siarad yn y cartref.<br>Mae chwarae yn bwysig i bob agwedd o ddatblygiad plant. Felly, mae'r profiadau a gweithgareddau'r yn y cylch wedi cael eu seilio ar ddysgu trwy chwarae. Mae pwyslais arbennig ar ddatblygiad iaith, datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol plant yn y cylchoedd.<br>Mae croeso cynnes i bob plentyn ddod i'r cylchoedd Meithrin waeth beth fo'i liw, hil, dosbarth cymdeithasol, sefyllfa deuluol neu anghenion addysgol. Mae cefnogaeth ychwanegol ar gael i blant gydag anghenion ychwanegol i'w galluogi |
| Cymraeg o'r Crud / Hwyl i'r teulu | Gwersi Cymraeg anffurfiol, drwy Goleg Harlech a Menai, mewn lleoliadau amrywiol ar yr Ynys, hyd at 10 tymor yma, Twf yn ei hyrwyddo a'n mynychu'r cynta' a'r ola', a'n rhoi cyngor ar grwpiau i'w mynychu i ymarfer y Gymraeg wedi'r cwrs (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 4). |
| Clybiau Ieuenctid | Mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am 38 o glybiau Ieuenctid Môn. Mae'r ddarpariaeth ar gael yn ddwyieithog (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 10). |

| | |
|---|---|
| Menter Iaith Môn | Prosiect Radio yn yr ysgolion Uwchradd er mwyn hyrwyddo cerddoriaeth Gymraeg a meithrin sgiliau cyfryngau i bobl ifanc;<br>▯ Chwaraeon a hamddena-gweithdai awyr agored i bobl ifanc;<br>▯ Gweithdai creu cerddoriaeth i bobl ifanc.<br>▯ Teithiau pramiau er mwyn annog trosglwyddiad Iaith a hyrwyddo cyfleoedd i gymdeithasu;<br>▯ Prosiect Blas ar Gymru mewn partneriaeth â'r canolfannau Iaith er mwyn helpu newydd ddyfodiaid i'r ardal (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 11). |
| Yr Urdd | Mae gan yr Urdd 5 aelod o staff ym Môn ac oddeutu 150 o Wirfoddolwyr. Mae'r Urdd yn cael ei gefnogi gan Bwyllgor o Wirfoddolwyr brwd. Mae Ynys Môn wedi ei rannu yn 4 Cylch sef Cefni, Glannau Menai, Eilian ac Alaw/Cybi. Mae Pwyllgor Cylch yn bodoli ymhob cylch sef tîm o wirfoddolwyr ei hadrannau sydd yn dod at ei gilydd er mwyn trin a thrafod gweithgareddau'r Cylch. Cefnogir y Pwyllgorau Cylch gan y Pwyllgor Rhanbarth sef tîm o bobl o ar draws y Rhanbarth sydd â chyswllt gyda'r Mudiad. Mae gan bob pwyllgor Gadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd. Pwyllgorau yw asgwrn cefn y Mudiad ym Môn. Mae aelodau'r pwyllgorau yn trefnu a mynychu nosweithiau a digwyddiadau codi arian er mwyn cefnogi gwaith y swyddogion oddi fewn i'r Rhanbarth. Gweithgareddau megis Ocsiwn Addewidion, sioeau ffasiwn a diwrnod codi arian mewn archfarchnad (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 11).<br>Chwaraeon - Dros y flwyddyn bu 2,780 (o'i gymharu â 2,716 y llynedd) sef cynnydd o 2.3% yn cystadlu yng nghystadlaethau Chwaraeon yr Urdd o fewn y Rhanbarth gyda 108 o'r rheini yn yr oedran Uwchradd, Cynnydd o 31.7%. Mae'r rhain yn cynnwys Nofio Cynradd/Uwchradd, rygbi, pêl droed, pêl rwyd, gymnasteg, mabolgampau, trawsgwlad a rownderi. Cafodd 104 o'r Oedran Uwchradd gyfle i gynrychioli'r Rhanbarth mewn cystadlaethau Taleithiol a Chenedlaethol megis Nofio, Pêl Droed a Gymnasteg.<br>Cyrsiau Chwaraeon (16+) - Drwy'r swyddog Chwaraeon mae sawl person ifanc o Fôn wedi manteisio ar y cyfleoedd i ennill cymwysterau Cenedlaethol Chwaraeon yn ogystal â Chymorth Cyntaf gan gynnwys:<br>• Cwrs CSLA - 3<br>• Cwrs Gymnasteg A-Z - 1<br>• Cwrs Dechrau allan - 10<br>• Cwrs Athletau - 3<br>Eisteddfodau - Eleni, bu i 6,417 o blant a phobl ifanc gystadlu mewn cystadlaethau dawns, celf, llenyddol, cerddorol, offerynnol neu adrodd mewn 5 Eisteddfod Cylch a 3 Eisteddfod Rhanbarth. |
| Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc | Mae Mudiad y Ffermwyr Ifanc yn parhau yn fudiad pwysig a phoblogaidd ym Môn gyda chyfanswm o 177 o aelodau yn y 6 chlwb (Rhosybol, Bodedern, Dwyran, Llangefni, Penmynydd a Llangoed). Gweithredir yr holl weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg a cheir cyfleoedd i fwynhau rali flynyddol, cystadlu mewn eisteddfodau a gigs (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 11). |

| | |
|---|---|
| Merched y Wawr | Mae Merched y Wawr yn darparu cyfle i gymdeithasu a gwneud rhywbeth cadarnhaol trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma gyfle i hyrwyddo Cymreictod a chael hwyl wrth wneud hynny. Mae Merched y Wawr yn ymgyrchu dros hawliau'r iaith Gymraeg a hawliau merched. Ym Môn, mae 21 - 20 clwb + 1 cangen: Amlwch, Benllech, Bodedern, Bodwrog, Brynsiencyn, Caergybi, Cemaes, Gaerwen, CG Y Gors Goch, Llanddeusant, Llandegfan, Llanfairpwllgwyngyll, Llanfechell, Llangefni, Llannerchymedd, Maelog, Porthaethwy, Rhosmeirch, Rhosybol, Talwrn, Y Fali (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 13). |
| Capeli ac Egwlysi | Mae Cymdeithasau Capeli ac Eglwysi Môn yn weithgar yn trefnu nosweithiau i'r gymdeithas leol, prynhawniau te a gweithgareddau codi arian amrywiol.Mae'r traddodiad Cymreig o gynnal Cymanfaoedd Canu yn parhau gyda nifer yn ystod y flwyddyn. Ceir hefyd ambell I Ysgol Sul ar hyd a lled y sir (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 13). |
| Papurau Bro | Mae 4 papur bro yn gwasanaethu dalgylchoedd Môn. Mewn partneriaeth â Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru, mi ellir cael detholiad o gynnwys y rhan fwyaf o'r papurau lleol wedi ei ddarllen gan wirfoddolwyr a'i recordio ar dâp. Dyma un o'r prif ffynonellau pwysicaf y dylid cyfeirio atynt wrth lunio proffil Iaith ar gyfer ardal benodol. Maen nhw'n cynnwys gwybodaeth eang am yr hyn sydd wedi ei gynnal yn y Gymraeg yn lleol, hysbysebion am ddigwyddiadau sydd ar y gweill ac yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau ysgolion, capeli, cymdeithasau a chynghorau tref a chymuned leol (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 14). |
| Eisteddfodau, Gwyliau a Digwyddiadau lleol | Caiff Eisteddfod Môn ei chynnal yn flynyddol mewn gwahanol ardaloeddar hyd a lled yr Ynys. Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Môn nesaf Mai 17 2013 ym Mro Cefni. Yn ystod 2012 fe fydd Eisteddfod Bodffordd, Eisteddfod Talwrn ac Eisteddfod Marian-glas. Mae Eisteddfod Ieuenctid yn cael ei gynnal hefyd ym Marian-glas.<br>Ym Môn mae nifer cynyddol o wyliau amrywiol-rhai cyfrwng Cymraeg a rhai dwyieithog. Yn eu mysg yn wyliau sydd yn hyrwyddo cerddoriaeth ac adloniant Gymraeg mae Gŵyl Cefni (uniaith Gymraeg) a Gŵyl Gopr a Gŵyl y Llychlynwyr (dwyieithog) yn Amlwch. Mae'r ddwy ŵyl yma am ddim.<br>Ceir Gŵyl Gerdded ym mis Mai-Mehefin gyda dewis o deithiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a theithiau i ddysgwyr,<br>Cynhelir amrywiaeth o wyliau bwyd, fel Gŵyl Llymarch Môn ym Mae Trearddur pob mis Hydref ac mae marchnad ffermwyr bob mis ym Mhorthaethwy (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 13). |
| Theatr Ieuenctid Môn | Darpariaeth perfformio gelfyddydol a'i ail sefydlwyd yn 2002 gan y Fenter Iaith ac sydd â thros 120 o aelodau rhwng 7-18 oed yn mynychu. Cynhelir grwpiau dysgu sgiliau actio a pherfformio o bob math mewn 4 lleoliad ar yr Ynys-Bodedern, Amlwch, Llangefni a Phorthaethwy. Mae 3 Tîm Bach (7-11oed) a TÎM Mawr ar gyfer rhai 11-18. Mae'r ddarpariaeth yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg ac yn darparu cyfleoedd blynyddol i'r aelodau ymweld â sioeau, llwyfannu eu sioeau eu hunain a pherfformio mewn eisteddfodau |

| | |
|---|---|
| | lleol a chenedlaethol (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 11). |
| Cor ieuenctid Mon | Mae Côr Ieuenctid Môn yn cyfarfod yn wythnosol ac wedi adeiladu ar eu llwyddiant yn darparu cyfleoedd perfformio cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc. Mae dros ** o aelodau yn perthyn i'r côr (Menter Iaith Môn, 2012, Tud 11). |